

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

19 - 1996



CYMDEITHAS
ALAWON GWERIN
CYMRU

THE WELSH
FOLK-SONG
SOCIETY

Dyblygion



1/82c1



9633PA3333

W.S. Gwynn Williams (1896 - 1978)	3
Tribannau gwerin Morgannwg <i>Allan James</i>	6
Pencerddes gerddgar <i>Rachel Ley</i>	22
Songs of R.E. Vaughan Roberts <i>Phyllis Kinney</i>	35
Rhigymau plant <i>Meredydd Evans</i>	45
Byd gwyn fydd byd a gano <i>E Wyn James</i>	75

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygyddion na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editors or the Society.

Golygyddion:	Rhidian Griffiths, Rhiannon Ifans
Cysodi:	Gair am Air
Argraffu:	Argraffdy Arfon
Llun y Clawr:	W. S. Gwynn Williams (1896-1978)



W.S. Gwynn Williams (1986-1978)

Daw 1996, fel bob blwyddyn, â'i chyfran o ddathliadau. I aelodau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru mae'n flwyddyn nodedig o ganmlwyddiant - canmlwyddiant geni un o gymwynaswyr mawr y Gymdeithas, sef W.S. Gwynn Williams, Llangollen. Fe'i ganed 4 Ebrill 1896 o bu farw yn 1978 wedi oes faith o wasanaeth i gerddoriaeth Gymreig. Amlygodd ddoniau'r cyfansoddwr, y golygydd, a'r gweinyddwr. Chwaraeodd ran amlwg yng ngweithgareddau Eisteddfod Llangollen o'i dechreuad yn 1947. Sefydlodd Gwmni Cyhoeddi Gwynn, a daeth â thoreth o gerddoriaeth Gymreig ac Ewropeaidd gerbron y cyhoedd. Cyfansoddodd ganeuon cofiadwy, yn enwedig 'Tosturi Duw' a 'My little Welsh home.' Golygodd *Y Cerddor Newydd* i Hughes a'i Fab o 1922 i 1929, a'r cylchgrawn byrhoedlog *Y Delyn*, a ymddangosodd yn dri rhifyn yn unig yn 1947.

Ar lawer golwg, fodd bynnag, ei gyfraniad mwyaf gwerthfawr oedd ei waith ym maes cerddoriaeth werin Cymru. Ymgwymerth ag ysgrifenyddiaeth y Gymdeithas Alawon Gwerin yn 1933, a dal y swydd hyd 1957, pan ddaeth yn Gadeirydd. Golygodd y *Cylchgrawn*, yn olynydd i J. Lloyd Williams. Lluniodd gyfrol arloesol ar *Welsh national music and dance* (1932). Cyhoeddodd lu o gasgliadau o alawon, megis *Old Welsh folk-songs* (1927), *Caneuon traddodiadol y Cymry* (1961, 1963), *Un ar ddeg o ganeuon gwerin Cymru* (1958), ac eraill. Priodol yw nodi ei ganmlwyddiant a chydabod ei orchestion, gan anfon ar yr un pryd gyfarchion i'w weddw, Mrs Beti Gwynn Williams, Llangollen.

Pan fu farw yn 1978, fe'i coffawyd gan R. Bryn Williams fel hyn:

Y Cerddor Gwyn (W.S. Gwynn Williams)

Daeth gaeaf i Blas Hafod,
Llangollen dan nudden od:
Mud yw'r coed. Mae adar cerdd?
O'r cangau ni cheir cyngerdd;
Yntau'r cerddor yn gorwedd
Mewn unig, difwsg fedd.

Y Garol a Chân Gwerin
Yn ei fryd oedd bennaf rhin;
Gŵr a hoffodd argraffu
Caneuon, alawon lu;
Yna o'i wasg eu gwasgar
Yn genlli o gerddi gwâr.

Swyn ei gerdd a roes i'n Gŵyl,
A'i hir brofiad i'r Brifwyl;
Rhoi eursain Gweddi'r Orsedd
Am nawdd Iôr, am newydd Hedd.
Yna myned o'r meini
A wnaeth, ac hiraethwn ni.

Ond daw haf i Blas Hafod,
A heulog lu a hael glod;
Rhônt iddo deyrnged gwledydd,
A chân falch ohono fydd:
Hir erys, ar ei arwyl,
Ei fiwsig ef ar faes Gŵyl.

W.S. Gwynn Williams (1896-1978)

1996, like every year, brings its share of anniversaries. For members of the Welsh Folk-Song Society it marks a significant centenary - that of the birth of one of the Society's most prominent leaders, W. S. Gwynn Williams of Llangollen. He was born on 4 April 1896 and died in 1978 after a long life in the service of Welsh music, a life in which he displayed gifts as a composer, editor and administrator. He played a prominent part in the activities of the Llangollen International Musical Eisteddfod from its inception in 1947. He established the Gwynn Publishing Company, which gave the public a wide range of both Welsh and European music. He composed memorable songs, in particular 'Tosturi Duw' ('God's mercy') and 'My little Welsh home'. From 1922 to 1929 he edited *Y Cerddor Newydd* (The New Welsh Musician) for Hughes and Son of Wrexham, and was also responsible for the short lived musical review *Y Delyn* (The Harp) of which three issues only appeared in 1947.

In many respects, however, his most valuable contribution was his work in the field of Welsh folk music. He took over as Secretary of the Folk-Song Society in 1933, and remained in the post until 1957, when he became Chairman. He edited the *Journal* in succession to J. Lloyd Williams, and his *Welsh national music and dance* (1932) was a pioneering work. He published many collections of songs and tunes, such as *Old Welsh folk-songs* (1927), *Caneuon traddodiadol y Cymry* (Traditional songs of the Welsh) (1961, 1963), *Un ar ddeg o ganeuon gwerin Cymru* (Eleven Welsh folk songs) (1958), and others. It is fitting that we should celebrate his centenary and acknowledge his achievements, at the same time sending greetings to his widow, Mrs Beti Gwynn Williams of Llangollen.

Tribannau Gwerin Morgannwg

Allan James.

Oherwydd ymyrraeth olygyddol, un o'r problemau sy'n ein hwynebu erbyn heddiw yw canfod esiamplau o benillion gwerin yn eu ffurf naturiol. Ymgais yw hon i geisio dangos cymaint y newidiwyd rhai penillion oherwyd disgwyliadau cymdeithas o oes Victoria ymlaen.

Am ugain munud wedi wyth y bore ar y degfed o Fai 1938, darlledwyd rhaglen radio yn dwyn y teitl 'Where the Oxen Ploughed'. Nod y rhaglen oedd olrhain newidiadau cymdeithasol drwy ail-greu darlun o hen 'fwynder Morgannwg' mewn cyfres o gyfweiliadau â hen gymeriadau'r Fro. 'Old timers broadcast' oedd y pennawd a ymddangosodd yn y *Daily Express* a'r gohebydd yn mynnu pwysleisio mor hynafol ddilys yw'r atgofion hynny a gyflwynir gan y pum siaradwr oedrannus:

Five natives of the Vale of Glamorgan, whose ages total 390 years, will broadcast a feature programme on Tuesday called, 'When (sic) the Oxen Ploughed.'

Cyfeirir yn benodol at y cyfranwyr, sef William Brewer (81) a'i wraig (75, Llanilltud Fawr), Ben Maddy (75, Ystradowen), Jerry Driscoll (75, Y Wig) a Richard Thomas (Sain Nicolas), yr hynaf a oedd yn bedwar ugain a thair. Yn naturiol ddigon 'roedd gan bob un ei stori bersonol ei hun, y gwŷr yn cyflwyno gwahanol agweddau ar hen orchwylion traddodiadol amaethwyr y Fro a Mrs Brewer yn trafod hen ddulliau o deithio a bwrllwm diwrnod ffair yn Llanilltud Fawr ryw hanner canrif unghynt. Yn ôl y disgwyl, tynnir sylw at yr hen arfer o aredig gyda'r ychen, y gorchwyl hwnnw a gysylltir yn ddieithriad â thrin meysydd breision hen gymunedau amaethyddol y Fro. A dyma rym a chyfaredd y cof yn caniatáu i'r gwrandawyr hwythau rannu peth o ramant a chyffro'r gorffennol:

1 Darn o'r *Daily Express* yn hysbysebu'r rhaglen. Tynnodd Arwyn Lloyd Hughes fy sylw at y llungopi sydd wedi ei ddiogelu yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan (AWC 1468/22).

MR RICHARD THOMAS, Homri Farm, St. Nicholas, sprightly veteran of eighty-three, is one of the few living agriculturists who ploughed the Vale's broad acres with a team of yoked oxen. In his talk he gives interesting peeps of a farmer's life some sixty years ago, and bravely sings a 'triban', or oxen song, which was an essential feature of ox-ploughing in the olden days.²

Yn anffodus, ymddengys nad yw'r rhaglen yn un o'r rhai a ddiogelwyd gan adran archifau'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yng Nghaerdydd, ond o chwilio dalennau'r *Radio Times* ceir mai Llewellyn Evans a T. Rowland Hughes a ddyfeisiodd y rhaglen 'with recordings made by the BBC Mobile Recording Unit.' Mab T.C. Evans (Cadrawd) oedd Llewellyn Evans, y tad yn frodor o Langynwyd ger Maes-teg ac yn hanesydd lleol a lafuriodd drwy gydol ei oes i gasglu a diogelu pob math o wybodaeth yn ymwneud â hanes a llên gwerin ei fro a'i dalaith enedigol. Yr hyn sydd o ddiddordeb yma, yw bod rhai o bapurau Llewellyn Evans wedi'u diogelu gydag amryw o lawysgrifau ei dad yn yr Amgueddfa Werin Genedlaethol yn Sain Ffagan ac yn eu plith, ddarnau helaeth o'r casgliad o dribannau a anfonwyd gan Lewellyn i gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr 1948 dan y ffugenw 'Cristor.' Yn ei ragair i'r casgliad, 'Scwibs (sic) Mewn Tribannau', ceir ymdrech i osod yr arfer o ganu tribannau yn ei phriod gyd-destun a diddorol yw'r cyfeiriad pellach at Mr Richard Thomas o Sain Nicolas:

Yn yr hanner cyntaf o'r ganrif ddiweddaf yr oedd etto yn ddigon cyfredin i wel'd ychain yn tynu yr eryd ar Fryn a Bro ym Morgannwg. Dim ond saith blynedd yn ol fu farw y diweddaf o'r aredwyr a oedd wedi arfer canu tribannau wrth aredig gyda'r ychain, sef Mr. Richard Thomas, Homri, St. Nicholas, gerllaw Caerdydd. Darlledwyd rhai o'i dribannau o swyddfa y B.B.C. yn Gaerdydd, ac mewn erthygl yn y *Western Mail* yn 1935 ceir disgrifiad o'r hen wr a'i ganu, gan Will Ifan, yr Archdderwydd.³

2 Ibid.

3 Llawysgrifau 'Cadrawd.' AWC 1409/1. Dylid derbyn fod y dyfyniadau yn gopi ffyddllon o'r testun gwreiddiol. Pe defnyddid 'sic' bob tro, byddid yn amharu ar rediad y dyfyniadau a'r penillion.

Cyhoeddwyd erthygl Wil Ifan y cyfeiriodd Llewellyn Evans ati, ddydd Mawrth, 8 Ionawr 1935 o dan y teitl 'Chwilio am Diwn ym Mro Morgannwg' a chanfod ffermdy Homri, cartref Richard Thomas, oedd nod y daith a ddisgrifir. Cydnebydd yr ysgrifwr bwysigrwydd cofnodi'r penillion a'r alawon a genid gynt yn y Fro oherwydd, fel y pwysleisir ganddo, 'gorau cof, cof llyfr.' Ceir yn yr erthygl dystiolaeth i ategu'r hyn a gofnodwyd yn y gwahanol adroddiadau adeg darlledu'r rhaglen yn 1938 a'r un ymgais i ychwanegu at y darlun atgofus hwnnw o fyd distŵr a ddiflanasai yn wyneb pob math o ddatblygiadau diwydiannol. Er enghraifft, dyma Richard Thomas yn siarad o brofiad am yr arfer o ganu i'r ychen 'nad oedd modd i'w cadw i weithio'n ddiddig heb ddal ati i ganu iddynt' gan gofio yr un pryd y cyngor a gawsai gan ei dad:

Ambell waith, pan fyddai ei lais bachgennaidd wedi crygu wrth ganu yn awel lem y gwanwyn, ac yntau wedi distewi am dipyn, fe ddeuai llais ei dad ar draws y cwysi: 'Gwed rwpeth wrthi nw, fachan!'

Ond wedi cryn siarad a hel atgofion dyma droi at wir bwrpas y bererindod 'ac heb rybudd yn y byd dyma Richard Thomas yn bwrw'i ben yn ôl, yn hanner cau ei lygaid, ac yn ei thoncan hi ar dop ei lais croew'. Cofnodir yr alaw mewn Sol-ffa a rhybudd i gofio'r 'w hir, ddolefus sydd yn gytgan i bob pennill' gyda'r awgrym fod ei hyd yn cyfateb i 'tua hanner cwys':

: s | f : m | r : d | t . r :- | - : r . m | f : m | r : d |

| t . s :- | - : s | d : d | r . r | s :-

| f : m . m | f : r | r . d :- - : - ||

Cytgan

| d .

Yn erthygl Wil Ifan telir teyrnged i Mr. Jenkins, yr ysgolfeistr lleol, am iddo 'ddysgu plant ei ysgol i ddarllen a mwynhau Cymraeg' ac awgrymir mai ef a oedd yn gyfrifol am gofnodi'r penillion 'a ganai gŵr yr Homri'. Beth tybed a ddigwyddodd i'r cofnod hwnnw? Fodd bynnag, yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig, yn enwedig o gofio nad oes ar gael gopi o'r rhaglen a ddarlledwyd yn 1938, yw bod merch Richard Thomas ryw ugain mlynedd yn ddiweddarach wedi cyflwyno teipysgrif i'r

Amgueddfa Werin Genedlaethol yn dwyn y teitl 'CANEUON A GENID PEN UN ARDDIG GYDAR YCHEN' ynghyd ag is-deitl 'Yn ol datganiad Mr. Richard Thomas, Homri Farm, St. Nicholas, Cer Caerdydd.' ⁴ Ni ellir barnu erbyn hyn ai Mr. Jenkins yr ysgolfeistr a dynnodd sylw'r teulu at arwyddocâd y penillion ond dengys y teitlau yn amlwg ddigon nad oedd y cofnodwr ei hun yn feistr ar orgraff yr iaith Gymraeg. Mae'n ymddangos, felly, na fyddai'r sawl a baratôdd y deipysgrif yn ddigon o ieithydd i fentro cysoni neu ddiwygio'r fersiwn wreiddiol a'r argraff sicr a geir yw bod y gyfres o benillion wedi'u harbed rhwng unrhyw ysfa ar ran y cofnodwr i gywiro a pharchuso yn ôl canonau golygyddol traddodiadol. O ganlyniad mae yma dribannau gwerinol iawn eu ffurf a'u hieithwedd a fersiynau gwahanol o rai hen ffefrynnau na fyddai golygyddion cydwybodol y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'u cyhoeddi heb yn gyntaf eu parchuso a'u puro. Byddai casgliad diolygydd fel hwn, felly, yn cynnig fersiynau llai caboledig a allai fod yn debycach o lawer i'r caneuon llafar hynny a fu ar wefusau cathreiwyr y Fro na'r hyn a gofnodwyd gan hynafiaethwyr diwyd a chyfrifol mewn casgliadau swyddogol. Yn hynny o beth, mae'r casgliad hwn yn enghraifft brin o ddiogelu cerddi yn eu ffurf gysefin.

O'r cychwyn cyntaf bu rhaid i gasglwyr a golygyddion caneuon gwerin ymgyfarwyddo â math gwahanol o arddull ac ieithwedd ac â dull o ddehongli a dathlu prosesau naturiol bywyd a allai ymddangos yn ddi-chwaeth i'r byd y tu allan:

It had long been known to editors of songs from the 'peasantry', as they had formerly been called, that while the tunes were often of rare beauty and purity, the words were far from acceptable to the taste of the polite world... Despite the efforts of puritans to suppress all this, it had persisted; and the evangelical churches in the nineteenth century had combated, or at least frowned on, the public expression of anything unfit for a choir supper.⁵

4 Ceir dau gopi o deipysgrif Richard Thomas. Cyflwynwyd y cyntaf tua diwedd y pumdegau (AWC 378) a'r ail yn 1978 (AWC 2662).

5 James Reeves, *The Idiom of the People* (London, 1958), t8.

Wrth gwrs, geiriau yn hytrach na syniadau a fyddai'n her i'r sensor o olygydd. Ystyrier, er enghraifft, y triban canlynol ac i ddechrau fersiwn 'eisteddfodol' Cadrawd:

Tri pheth ni saif heb siglo,
Yw llong ar fôr yn nofio;
Dail yr aethnen yn yr haf,
A thair merch fraf yn dawnsio.⁶

Nid peth annisgwyl, wrth gwrs, yw gweld cofnodi fersiwn gytras mewn ardal arall sy'n dilyn yr un fformiwla agoriadol ond sydd yn creu darluniau newydd:

Tri pheth ni saif heb shiglo
Yw llong ar fôr yn hwylio,
A dalen cyll ar ben y pren
A dwylo Gwen yn gotro.⁷

Perthyn y math hwn o bennill i ddosbarth arbennig o dribannau a restrai driodd o bob math a pheth digon naturiol fyddai i'r datgeiniad amrywio'r testun yn ôl yr amgylchiadau a'r gynulleidfa. Mae'n debyg, efyd, y byddai ambell gynulliad llai ffurfiol na'i gilydd wedi hawlio a mwynhau penillion llawer mwy gwerinol uniongyrchol eu naws na'r rhai a fyddai wedi derbyn sêl bendith cynulleidfa gyhoeddus. Yn un peth, fel y sylwodd Tegwyn Jones, gwelid tuedd reolaidd i chwynnu ffurfiau llafar oherwydd er bod 'digon o enghreifftiau o gofnodi tribannau yn nhafodiaith Morgannwg' ei ddyfarniad ef oedd fod 'cymaint os nad mwy wedi eu safoni'.⁸ Eithr nid safoni ieithyddol oedd unig swyddogaeth y golygydd a fyddai hefyd, bid siwr, yn ymdeimlo â chyfrifoldeb moesol i chwynnu neu gymhwyso unrhyw ymadrodd neu bennill a ystyrir yn anwedus neu'n ddi-chwaeth. Ond mae casgliad Richard Thomas yn eithriad i'r rheol. Am iddo osgoi unrhyw ymyrraeth olygyddol, ceir llinell i gloi'r triban nad yw'n digwydd mewn unhryw gasgliad

6. T.C. Evans (Cadrawd), 'The folklore of Glamorgan,' *Transactions of the National Eisteddfod of Wales* (Aberdare, 1885) (Cardiff, 1887), t. 189.

7 Tegwyn Jones (gol.), *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), t. 184 (Rhif 580). Codwyd y pennill o'r *Darian* (30:4:1931).

8 Ibid., t.33.

cyhoeddedig:

Tri-peth ni saif heb siglo
Yw llong ar mor yn selio
Dail yr aethnen un yr haf
A thin merch braf wrth ddawnsio.⁹

Gellir dadlau fod stamp y gwerinwr i'w ganfod yma, y gwerinwr a fyddai'n hapus iawn i arfer gair benthyg megis 'selio' ac i gyfeirio'n naturiol ddi-hid at ystumiau'r ferch sy'n dawnsio. Ond cofiwn mai dileu'r defnydd hwn o eiriau a ystyrir yn annerbyniol ddi-chwaeth oedd wrth wraidd sensora golygyddol. 'Mater ieithyddol yw sensoriaeth foesol' medd Dafydd Johnston wrth ymdrin â llenyddiaeth Gymraeg yn y cyddestun hwn a daw un agwedd bwysig i'r amlwg wrth drafod hanes llên y bedwaredd ganrif ar bymtheg 'sef mai osgoi *geiriau* anweddus oedd y peth mawr.'¹⁰ Pa mor ddiniwed bynnag y byddid yn ystyried y gair 'tin' erbyn heddiw, rhaid derbyn fod golygyddion y ganrif ddiwethaf wedi'u cyflyru gan ledneisrwydd oes Victoria i fod yn gyhoeddus barchus ac i amau pob dim a oedd yn 'unfit for a choir supper'. Yn ddiddorol ddigon, mewn triban a gofnodir ar ddalen rydd yn un o lawysgrifau Cadrawd, digwydd cyfeiriad pellach at yr un pechadur o air, cyfeiriad sydd yn adlewyrchu ymhellach barchusrwydd cymdeithasol y cyfnod ac sydd hefyd yn ategu'r hyn a ddywedwyd eisoes am natur sensoriaeth:

Colloquial Welsh but very vulgar. Perhaps not fit for printing. I heard this about 30 years ago

Fi gwnas acha bora -
Fi wnetho fargan ddech, -
Fi brynas fochyn gan ryw ddyn-
A thwll ei din yn isha.¹¹

9. Teipysgrif Richard Thomas, AWC 2662 (Rhif 7).

10 Dafydd Johnston, 'Sensoriaeth foesol a llenyddiaeth Gymraeg,' *Taliesin*, 84 (1994), t. 11.

11. Casgliad Cadrawd yn Llyfrgell Dinas Caerdydd, MS 2.330. Mae casgliad o 12 cyfrol yn dwyn yr un rhif. Mae'r cyfeiriad yn digwydd yn y bedwaredd gyfrol (63 oedd yr hen rif) mewn darn a ychwanegwyd rhwng tt. 21 a 22. Nid yw'r ychwanegiad yn llaw Cadrawd.

Ymddengys i Cadrawd dderbyn awgrym y casglydd oherwydd, hyd y gwelaf, ni ddigwydd y triban yn yr un o amryfal gasgliadau cyhoeddedig y gŵr o Langynwyd. Ond fel y pwysleisiwyd eisoes, llwyddodd casgliad Richard Thomas i osgoi sensoriaeth olygyddol ac yno gwelwn amrywiad ar y triban na ddewisodd Cadrawd ei gyhoeddi:

Fe gwnes (codi) ach a bore
Fe wneuthum jobyn deche
Fe brynais fochyn gas ryw ddyn
A thwll ei'n din un eisie¹²

Yr hyn y ceisir ei awgrymu yw bod yna ddosbarth arbennig o benillion gwerin na fyddai golygyddion wedi mentro eu cyhoeddi rhag tramgwyddo'r canonau moesol hynny y disgwyliid iddynt eu cydnabod a'u parchu. Gellid dadlau mai pwysau newid geiriau neu ymadroddion annerbyniol sy'n egluro paham y gallai Llewellyn Evans, mab Cadrawd, gofnodi flynyddoedd yn ddiweddarach, ddau amrywiad gwahanol ar y triban a fu ym meddiant ei dad ac y dyfarnwyd ei fod yn 'not fit for printing.' Y tro hwn, nid yr un nam corfforol sy'n denu sylw'r datgeiniad a'r fersiynau o'r herwydd yn fiolegol barchusach:

Fi godais ar rhyw fora',
Fi nitho fargan ddech, a,
Fi brynas ych a gwddwg brith,
A'i lygad chwith yn eisa'.

Fi gwnas acha bora',
Fi nitho fargan ddech, a,
Fi brynas fochyn yn Brynwhith
A'i lycad with yn isha'.¹³

12 AWC 2662 (Rhif 16). Mae cynnwys y gair 'codi' yn y deipysgrif yn awgrymu o bosib na ddeallodd y cofnodwr fod y gair 'gwnes' yn ddeusill. Mae digon o dystiolaeth i ddangos fod y ffurf 'cwnnu' (codi) yn cael ei harfer ar lafar gwlad ym Morgannwg.

13 AWC 1409/1, 76.

O bryd i'w gilydd, felly, gellir canfod arddull ac ieithwedd sydd yn awgrymu fod yna is-ddosbarth o benillion nad ydynt i'w gweld mewn casgliadau swyddogol, o leiaf heb broses olygyddol o ddiwygio a 'chywiro'. Byddai ambell bennill a oedd yn hollol dderbyniol mewn cynulliad o werinwyr yn mwynhau awr o ddifyrrwch wedi llafur y dydd, yn creu cryn broblem i hynafiaethydd a'i fryd ar ddehongli'r math hwnnw o gymdeithas i gynulleidfa ddigon anwerinol ei chefnidir a'i phwyslais.

Peth naturiol ddigon, felly, yw gweld cyfres o amrywiadau ar un pennill, rhai yn adlewyrchu gwahaniaethau tafodieithol, eraill yn cynnwys mân newidiadau testunol ac eraill eto yn arddangos amrywiadau yn y gyfeiriadaeth wrth i benillion grwydro a datblygu. Hynny a ddisgwylir pan fydd pennill yn goroesi ar lafar gwlad a'r amrywiadau geiriol yn adlewyrchu pwyslais ac amodau'r gwahanol gymunedau. Ond bydd unigolion weithiau yn anghofio llinellau neu yn dileu, ar brydiau, ryw ymadrodd neu linell sy'n annerbyniol ganddynt neu sy'n annealladwy. Dan amodau felly ceir cyfres bellach o amrywiadau diddorol. Ystyrier, er enghraifft, y triban canlynol a ddigwydd yng nghasgliad eisteddfodol Cadrawd:

Tri pheth ni saif yn llonydd,
Yw'r niwl ar ben y mynydd;
A malwoden mewn lle llwm,
A thafod Twm Felinydd.¹⁴

Yn un o lawysgrifau Cadrawd ceir cyfresi o dribannau wedi'u torri o golofnau'r *Central Glamorgan Gazette* gan gynnwys copi o'r triban uchod ynghyd ag amrywiad pellach dan enw E. Llewelyn. Yma, er bod y ddwy linell agoriadol yn aros ceir i ddiweddu:

Dŵr yr afon yn y cwm
A thafod Twm Shon Dafydd.¹⁵

Ymhellach, ceir yn un o'i lawysgrifau eraill, gyfres o dribannau yn dwyn y teitl 'Tribanau Calenigion, rhai'n dda, rhai'n ddrwg, a rhai'n symol, fel tatws Mali'r Odyn.' Digwydd y triban eisteddfodol drachefn

14 T.C. Evans (Cadrawd), op. cit., 189.

15 Llyfrgell Dinas Caerdydd MS 4.312, 90. Dyddiad yr erthygl i'r *Central Glamorgan Gazette* yw 17 Mawrth 1882 (t. 4, col. 2).

ond ceir hefyd y fersiwn ganlynol:

Tri pheth ni saif yn llonydd
Yw'r niwl ar [ben] y mynydd
Cae o bolon heb un clwm,
A thafod Twm Sion Dafydd.¹⁶

Gyda chynifer o dribannau yn dilyn yr un fformiwla gychwynnol nid annisgwyl gweld amrywio trefn y llinellau yn enwedig pan fo patrwm pob pennill yn dibynnu ar effeithiolrwydd y cof a hynny yn absenoldeb unrhyw ffurf safonol gydnabyddedig. Roedd cysondeb trefn yn amherthnasol ac am nad oedd rhaid arddel unrhyw ffurf safonol, ceir enghraifft o amrywiad ar y ddwy linell derfynol a ddyfynnwyd uchod, yn dilyn agoriad hollol wahanol:

Tri pheth wy'n wel'd yn lled-chwith -
Hwch a iwc mewn gwenith;
Col o bolon heb un c'lwmm
A Thwm y llipryn llaw-with.¹⁷

Eithr ceir amrywiad pellach eto ymhlith y caneuon a ganai Richard Thomas, amrywiad sy'n defnyddio un o'r fformiwlaŵ traddodiadol, sy'n awgrymu fod y drydedd linell wedi creu trafferth i'r datgeiniad ond sy'n mentro ar linell derfynol na fyddai unrhyw sensor o olygydd wedi'i chymeradwyo:

Tri peth ni saif un llonydd
Yw niwl ar ben y mynydd
Col o fangor heb un cl[wm]
A chala Twm Sion Dafydd.¹⁸

Y nod yw ceisio dangos fod yna ddosbarth o benillion mwy gwerinol eu naws a oroesodd ar lafar gwlad ochr yn ochr â'r fersiynau a dacluswyd ar gyfer eu cyhoeddi. Ac eto, ni cheisir awgrymu mai ffenomen Gymreig oedd hon am fod proses debyg o ddiwygio a sensro yn rhan o hanes llên gwerin ar hyd a lled Prydain:

16 Ibid., t. 13.

17 T.C. Evans (Cadrawd), op. cit., t. 189.

18. AWC 2662 (Rhif 8).

The early and mid-nineteenth century was almost as innocent in its suppression of what it considered 'rude' or 'gross' as the peasantry were in clinging to it. There were taboos - and that was that. No printer would undertake to reproduce certain verses verbatim, and no publisher of repute would issue them, so the editor had no alternative but to omit or alter the offending verses.¹⁹

Byddai rhai o'r caneuon a ddigwydd yn repertoire Richard Thomas yn sicr o gael eu hystyried yn 'offending verses' ac, yn ôl y disgwyl, ni ddigwyddant mewn casgliadau cyhoedddeg. Yr hyn y ceisir ei ddadlau, felly, yw bod dosbarth o ganeuon a phenillion ar lafar gwlad na fyddai unrhyw gasglydd na golygydd wedi mentro eu hatgynhyrchu yn eu ffurf werinol. Rhaid cydnabod y byddai nifer o benillion yn cynnwys geiriau neu ymadroddion a ystyrir yn gymdeithasol waharddedig, yn enwedig o gofio lledneisrwydd y cyfnod Victoraid a fu'n ddylanwad mor rymus ledled Prydain ac am effaith y meddylfryd Anghyddfurfiol Cymreig a fyddai'n amau unrhyw orbwyslais ar y difyr anseidaidd. Wrth reswm, er mor gyfleus yw'r duedd i gyffredinolli a damcaniaethu, yr her yw egluro'r egwyddorion cyffredinol drwy gyfeirio at enghreifftiau penodol ac arwyddocaol. Afraid pwysleisio yn y cyd-destun arbennig hwn na ellir disgwyl dewis eang o ffynonellau priodol a chyfleus.

I'r gwrthwyneb, caneuon yr ymylon fyddai'r caneuon hyn, caneuon y meysydd agored, caneuon y noson lawen ddiraglen a'r perfformiadau byrfyfyr a fyddai'n codi hwyl a sbri mewn cymunedau digyngerdd a dieisteddfod. Hap a damwain fyddai i ganeuon cymunedol ac amserol y cyfryw nosweithiau oroesi hyd yn oed mewn casgliadau personol ac ofer hollol fyddai chwilota colofnau unrhyw gylchgrawn cydnabyddedig am ddeunydd crai o'r fath. Byddai'r act o olygu bob amser yn drech na'r ysfa i gofnodi'n wyddonol gywir. Bwysiced, o ganlyniad, yw'r enghreifftiau prin sy'n aros mewn llawysgrifau, y fersiynau hynny sy'n dadlennu rhai o gyfrinachau'r traddodiad llafar ac sy'n cadarnhau'r ddamcaniaeth na wêl y gwerinwr unrhyw reswm dros gymhwyso ei ddull unigryw ei hun o drafod y byd hyd yn oed pe bai angen i ryw hanesyn neu brofiad gael ei goffáu'n gyhoeddus mewn pennill neu gân. Problem i olygyddion oedd hon; i'r gwerinwr, y peth naturiol fyddai arddel iaith

19. James Reeves, op. cit., t.8-9.

ei gymuned ym mhob sefyllfa. Dyna gydnabod y gagendor a ddatblygasai rhwng dau fath o fyd gyda'r canlyniad nad oedd cymdeithas bellach yn gallu gwerthfawrogi'r symrlwydd uniongyrchol hwnnw a ystyrid yn rhan annatod o briod-ddull y werin:

Musicians, antiquarians, folk song collectors and educational administrators had been extolling the beauty, the purity, the directness and the simplicity of the popular idiom, only to have to admit that the people were now too refined to be allowed to know it.²⁰

Er bod deunydd 'answyddogol', felly, yn anodd ei leoli, ceir enghraifft brin ym mhapurau Llewellyn Evans sy'n ategu tystiolaeth teipysgrif Richard Thomas fod yna is-ddosbarth o beneillion na fu golygyddion yr oes yn awyddus i'w harddel:

Fi welas ferch eleni
Yn pisio'n llond y baili,
Petwar march yn croesi'r dwr,
A petwar gwr i foddi.²¹

Afraid dweud na chynhwyswyd y triban uchod mewn unrhyw gasglaid swyddogol a welais nac ychwaith yng nghasgliad eisteddfodol ei dad. Ond er mai i'r ugeinfed ganrif y perthyn copi mab Cadrawd, gellir dangos fod i'r pennill linach hynafol yn ymestyn yn ôl i gyfnod Iolo Morganwg. Y llinell gyntaf yn ôl fersiwn Iolo oedd 'Mi welais merch liw'r lili' a chyda dechreuad mor swynol delynegol hawdd fyddai dychmygu ymateb y gynulleidfa werinol i'r llinellau sy'n dilyn wrth i'r cywair newid mewn dull mor ddramatig o ddoniol:

20. Ibid., t. 14.

21. AWC 1409/1, 75. Mae'n werth nodi bod fersiwn arall wedi'i chofnodi gan y casglydd yn dilyn y gyntaf. Ymddengys mai ymdrech a geir i barchuso'r triban drwy gynnwys ail linell newydd, 'A'i lleda'n llond y baili.'

Mi welais merch liw'r lili
Yn piso yn y baili,
ag wrth ei gwaith yn gollwng dwr,
Bu deunaw gwr ar foddi.²²

Byddai penillion o'r fath a ystyrid yn dderbyniol ddifyr gan gynulleidfa o werinwyr yn mwynhau perfformiad llafar gyda'r hwyr, yn rhwym o ddenu ymateb pur wahanol gan olygyddion diweddarach a fyddai'n gyfrifol am eu tacluso a'u dosbarthu ar gyfer eu cyhoeddi. Wrth reswm, byddai difyrrwch gwerinol y perfformiad gwreiddiol ac asbri arbennig yr ieithwedd lafar wedi hen ddiflannu cyn i'r pennill gyrraedd colofn wythnosol un o gylchgronau'r dydd yn ddiweddarach yn y ganrif. Mewn cyd-destun o'r fath, mae teipysgrif sydd heb ei golygu yn ffynhonnell werthfawr i'r sawl a fyn olrhain hanes y gân a'r pennill gwerin. Mae'r fersiynau prin a gofnodir dan amodau felly yn gallu adlewyrchu yn agosach o lawer yr hyn a oedd ar lafar gwlad cyn i unrhyw broses o olygu atgynhyrchu'r deunydd yn ôl confensiynau a chwaeth yr oes. Yn achos teipysgrif Richard Thomas, ceir copïau o dribannau sy'n orgraffyddol anghyson ac sy'n cynnwys amrediad o fân wallau iaith ond sydd, ar waethaf pob gwendid, yn cyfleu naws werinol y penillion traddodiadol hynny â ddiogelwyd gan rym y traddodiad llafar.

Erys un agwedd bellach ar hanes y gân werin y mae teipysgrif Richard Thomas yn tynnu sylw ati, sef camddynwared. Mae creu cyfres o amrywiadau yn rhan annatod o ddatblygiad penillion gwerin dan ddylanwad y traddodiad llafar a pheth naturiol ddigon yw i un datgeiniad ddynwared fersiwn arbennig heb gadw'n ffyddlon at union eiriad yr hyn a glywyd yn y lle cyntaf. Gellid, o ganlyniad, restru nifer helaeth o amrywiadau testunol, cystrawennol a thafodieithol wrth i bennill oroesi ar lafar gwlad. Wrth reswm, byddai tuedd i gyfnewid geiriau cyfystyr gan addasu'r llinell yn ôl y galw. Byddai tuedd hefyd i newid enwau a chyfeiriadau lleol. Ond nid oedd disgwyl i glust y gwerinwr fod yn gyson ddi-ffael a phan ddeuid ar draws gair anghyfarwydd byddai fawr o ddewis weithiau ond dynwared y sain yn hytrach na'r ystyr. Hynny yw, er bod amryw benillion wedi hawlio lle ynn y repertoire gwerinol drwy swyno clust gwlad, roedd yn bosibl ar brydiau i ambell ffurf ddieithr neu ymadrodd llai cyffredin, dwyllo'r glust werinol honno. Yma, rhaid ceisio cydymdeimlo â sefyllfa'r gwerinwr ac yntau'n gorfod gwrando ar

bennill neilltuol dan amodau digon anodd, ei gofio a'i atgynhyrchu ar ryw achlysur arall heb fod modd sicrhau meistrolaeth ar holl elfennau'r fersiwn a glywyd ganddo yn y lle cyntaf.

Mewn cymunedau a fyddai'n sicrhau parhad i benillion llafar gwlad, byddai enghreifftiau o gamddynwared yn rhwym o ddigwydd er nad hawdd o beth yw crynhoi tystiolaeth bendant o ganlyniad i waith golygyddol diweddarach. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, fod yr act o olygu yn dueddol o chwynnu fersiynau amwys ac eto, ar waethaf unrhyw demtasiwn i gywiro a thacluso, ceir o bryd i'w gilydd olion o'r her ddiddorol a wynebai'r datgeiniad. Ymddengys, er enghraifft, fod y gair 'pinslons' wedi creu rhywfaint o drafferth. Yn ei gasgliad buddugol o lôn gwerin Morgannwg a wobrwyyd yn Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr (1885), mae Cadrawd yn cynnwys y triban canlynol:

Mi geso'm gwawdd i ginio
Ar *binslons* wedi eu stiwiw;
Bara haidd a dysgl goed,
Ni fu erioed siwd roeso.²³

Hyd yn oed yn y cyfnod hwnnw, barnodd Cadrawd fod angen egluro'r ffurf pinslons ac ar odre'r tudalen ceir y nodyn: 'Enw yn Morganwg ar eirin neu *plums*'. Cofnodir fersiwn debyg yn *Tribannau Morgannwg* (139) wedi'i chodi o golofnau'r *Darian* (Aberdâr), ond bod tinc fwy tafodieithol i'r ddwy linell olaf:

Bara haidd a disgil go'd
N bu ariôd shwd reso.²⁴

Wrth gwrs, yn achos geiriau neu ymadroddion anghyfarwydd a thrafferthus, mae'n debyg y byddai golygyddion a haneswyr lleol y ganrif ddiwethaf wedi tacluso penillion er mwyn sicrhau testun llai gwerinol a mwy safonol ei natur. Ond er cydnabod effaith y broses o safoni a chywiro, rhaid cofio yr un pryd nad pawb a fyddai'n ymwybodol o'r fersiynau cyhoeddedig hyn. Dan amodau felly, pan na fyddai unrhyw

23. T.C. Evans (Cadrawd), op.cit., t. 193.

24. Tegwyn Jones (gol.), *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), t. 139 (Rhif 410). 'Pinslons' yw'r ffurf a arferir eto er bod yr eirfa'n nodi amrywiad ar y gair: 'pinsols', eirin duon, 'plwms'. (230)

fersiwn safonol o fewn cyrraedd i gantorion cefn gwlad, byddai'n bosibl i benillion oroesi a datblygu ymhellach yn ôl prosesau cynhenid y traddodiad llafar. Diddorol, felly, yw cymharu'r fersiynau uchod â'r hyn a genid, yn ôl tystiolaeth Richard Thomas, yn ardal Sain Nicolas:

Fecesom gwawdd i ginio
A ffinclwns wedi'n stiwo
Bara haidd fel rhisgl coed
Fe geisoi' mold well croeso.²⁵

Y ffurf ddiddorol yw'r gair 'ffinclwns' sef 'pinclwns' o gywiro'r orgraff ac ategir tystiolaeth Richard Thomas gan fersiwn bellach o 'Cân y Cathreinwr' a recordiwyd gan Roy Saer yn yr un ardal:

Mi geso i 'ngwawdd i gino
A chal pinclwns wedi'u stiwo,
Bara (h)aidd fel r(h)ishgil co(e)d;
Ni cheso i 'rio(e)d well greso! Ma-hw!²⁶

Nid annisgwyl mewn pennill a orosodd ar lafar gwlad yn ardal Sain Nicolas, yw gweld fod y ffurf ddieithr 'pinslons' neu amrywiad arni, yn creu problem i gathreiwyr y Fro ac yn y pen draw yn cael ei disodli gan air sy'n debyg o ran sain. Oni wyddai'r datgeiniad ystyr y gair 'pinslons' byddai cynnig gair cyfystyr yn ei le yn gwbl amhosibl. Mewn cyd-destun o drosglwyddo llafar, hawdd dirnad felly bu i sŵn y gair greu amheuaeth ym meddwl y cantor wrth iddo gynnwys y pennill yn ei repertoire personol ar gyfer aredig ac wrth iddo geisio dyfalu gwir

25.AWC 2662 (Rhif 9). Mae'n ddiddorol sylwi fod y gymhariaeth 'fel rhisgl coed' o bosib yn fwy addas na'r amrywiad 'a dysgl goed.' Dylid nodi fod 'bara barlys' neu 'bara haidd' yn dueddol o fod braidd yn arw a'r gymhariaeth yn taro i'r dim.

26. D. Roy Saer (gol.), *Caneuon Llafar Gwlad* (Cyfrol 1) (Caerdydd, 1974), t. 15. Ceir nodyn ar odre'r tudalen sy'n egluro'r cefndir: 'Recordiwyd Medi 1953 gan Robert Thomas (fffermwr, g. 1865), Rock House, Twynrodyn, ger Gwenfo, sir Forgannwg. Ac yntau ond 13 oed dysgodd RT ganu'r tribannau hyn a'u bath wrth helpu i gathrain (sef gyrru neu symbylu) ychen a oedd yn aredig ar fferm Doghill yn Nyffryn Golych, ger Sain Nicolas.'

natur y saig arbennig a ryngodd fodd y tribannwr gwreiddiol. Cofiw'n fod cryn bwyslais yn cael ei osod ar yr ymborth a gynigid i weithwyr fferm ac er mwyn diogelu'r pennill uchod roedd rhaid i'r gwladwr atgynhyrchu'r ffurf anghyfarwydd 'pinslons' neu ba ffurf bynnag y dychmygodd ei chlywed ar ryw achlysur neu'i gilydd. Yr hyn y ceisir ei bwysleisio yw mai peth diogn hawdd oedd i un o'r werin gamddehongli yr hyn a glywyd yn wreiddiol gan beri i'r ffurf newydd ymddangos yn ddiystyr. Oherwydd rhaid cofio fod parhad y gân werin yn dibynnu ar amrywiaeth o lwyfannau answyddogol ac ar waethaf unrhyw enghreifftiau prin o gamddeall, y rhyddid llafar hwnnw a fu'n gyfrifol am greu'r cyfoeth o amrywiadau sy'n elfen mor bwysig yn natblygiad llên gwerin.

Beth felly yw arwyddocâd caneuon ychen Richard Thomas o Sain Nicolas? Mewn cyd-destun o drosglwyddo llafar peth naturiol yw canfod amrywiadau pellach ar rai o'r caneuon a ganwyd ganddo; gweld cyfres o amrywebau cytras yn datblygu ar sail un patrwm cyffredin a ddisgwyllir yn hanes penillion a chaneuon gwerin a chyfeiriwyd eisoes at rai penillion sy'n dangos yn eglur y math o amrywiadau testunol a geir pan fydd proses o drosglwyddo llafar ar waith. Canfyddir yn y caneuon, hefyd, nifer o eiriau tafodieithol a chystrawennau llafar na fu unrhyw olygydd yn eu cysoni a'u caboli. Afraid pwysleisio, felly, fod i'r penillion hyn arwyddocâd arbennig yn destunol ac yn ieithyddol am fod modd dadlau eu bod yn perthyn yn bur agos i'r hyn a genid yn feunyddiol gyson ar feysydd Bro Morgannwg pan oedd ychen dan yr iau. Er bod cannoedd o dribannau wedi'u cofnodi, yn enwedig ym mhapurau a chyfnodolion y ganrif ddiwethaf, prin yw'r deunydd sydd heb ei olygu, y deunydd crai hwnnw a fyddai wedi llwyddo i adlewyrchu yn wyddonol gyson, ieithwedd a phriod-ddull y werin.

O droi at y casgliad ei hun, rhaid cydnabod i gychwyn werth arbennig unrhyw ddogfen werinol ddilys na chafodd ei golygu a chanmol gweledigaeth Miss Olwen Thomas o Sain Nicolas a ddaeth â'r deipysgrif i sylw'r Amgueddfa Werin Genedlaethol. Cynrychiolydd, wrth gwrs, yw Richard Thomas, personoliaeth unigol yn cyflawni dyletswydd gymunedol. Oherwydd cofiw'n fod y penillion a arferid ganddo ef a'i gyd-ddatgeiniaid yn eiddo i'r gymuned gyfan a'r broses o'u rhannu a'u diogelu yn weithred gymunedol. Rhaid cydnabod fod pob cathreiw'r fel ei gilydd yn perthyn i hen linach werinol; ac yn gyffredin i gymwynaswyr lu a'i rhagflaenodd, ef bellach sydd â'r cyfrifoldeb o warchod 'y glendid

a fu.' Y tebyg yw mai Richard Thomas oedd un o'r genhedlaeth olaf o gathreiwyr a ganai wrth aredig gyda'r ychen ac eto yr un yw ei gyfrifoldeb gwerinol o gadw ar lafar gwlad ganeuon ei alwedigaeth a'i gymuned. Nid awdur, ond datgeiniad a chynrychiolydd y llwyth yn cyflawni hen ddylestwydd oesol o gynnal a diogelu yr hyn a ymddiriedwyd i'w ofal. Felly, y tu ôl i gyfraniad y datgeiniad hwn gellir ymglywed â lleisiau'r cenedlaethau, lleisiau'r llinach o gantorion a fu ar ran y gymuned yn cynnal ac yn ychwanegu at gorff o benillion gwerinol eu pwyslais a adlewyrchai chwaeth a chymeriad y gymdeithas gyfan yn hytrach na mympwyon unrhyw gantor unigol.

Gwerinwr yw Richard Thomas yn canu cân oesol ei gymuned amaethyddol a'r ffurf ddiweddaraf yn gynnrych proses gymunedol a fu'n cynnal cynhysgaeth werinol y dalaith. Hynny yw, yn gefndir i barhad a datblygiad y gân werin mae llinach o gyfranwyr anhysbys a fyddai ym mhob cenedlaeth wedi diogelu'r etifeddiaeth gymunedol. Priodol, felly, yw sôn am linach o unigolion yn cyfrannu at broses gymunedol. Dyna hanfod y traddodiad llafar, a'r rhyddid digofnod a diolygydd hwn yn esgor ar gronfa iach o benillion sy'n ychwanegu'n fawr at gyfoeth ac amrywiaeth ein stôr o benillion llafar gwlad.

Summary

A manuscript preserved at the National Folk Museum at St Fagans records *tribannau* (free metre quatrains) which used to be sung by Richard Thomas of St Nicholas in the Vale of Glamorgan, while ploughing with oxen. Though numerous examples of such verses have survived, these are unusual in that they seem never to have suffered editorial interference, and so are in their original unadulterated form, including some lines which could be deemed risqué. As such they reflect the earthy milieu in which they were written and sung.

Pencerddes Gerddgar:¹
Augusta Hall (1802-1896)
a Cherddoriaeth Werin Gymreig
Rachel Ley

Eleni dethlir canmlwyddiant marw Augusta Hall, Arglwyddes Llanofer,² gwraig fyrlymus liwgar a brwdfrydig a ddaeth yn un o noddwyr amlycaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cofir am ei chyfraniad amrywiol i ddiwylliant Cymreig: ei hymdrech i goleddu'r iaith Gymraeg yn Sir Fynwy, ei hymgais i boblogeiddio'r wisg Gymreig, ac uwchben pob dim arall ei chefnogaeth i'r grefft o ganu'r delyn deires.

Ganwyd Augusta Hall ar ystad Llanofer ym 1802 i deulu bonheddig Seisnig,³ ond yr ardal Gymreig o'i hamgylch a rhai o Gymry tanllyd yr oes fu'r dylanwad pennaf arni ac a ysgogodd ei diddordeb yn niwylliant Cymru. Er mai gwaed Seisnig a lifai drwy ei gwythiennau, calon Gymreig oedd gan 'Gwenynen Gwent', a hynny ar adeg pan oedd y bonedd yn troi cefn ar yr iaith Gymraeg:

Her great idea is Wales - that she lives in Wales (which many doubt),
and that the people must be kept Welsh, and she has Welsh schools,
Welsh services, a Welsh harper, always talks Welsh to her servants,
and wears a Welsh costume at Church.⁴

Teithiodd Augusta Hall ar y cyfandir a bu'n cymdeithasu â mawrion Llundain, ond Llanofer fu'n gartef iddi ar hyd ei hoes, ac yno y dychwelai bob tro.

-
1. Erthygl yn seiliedig ar ddarlith a draddodwyd yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 16 Medi 1995.
 2. Augusta Hall, née Waddington, Arglwyddes Llanofer, 1802-1896. Mabwysiadodd yr enw barddol 'Gwenynen Gwent' ym 1834.
 3. Ganwyd Augusta Hall yn Nhŷ Uchaf, Llanofer, ger y Fenni, yn ferch i Georgina (1771-1850) a Benjamin Waddington (1749-1828) a symudodd o Dunston Park, Berkshire ddeng mlynedd ynghynt.
 4. A. J. C. Hare, *The Story of My Life* · cyf. 5 (Llundain, 1900), t. 3.

Syr Benjamin Hall ⁵, aelod seneddol yr enwyd cloch ‘Big Ben’ ar ei ôl, oedd ei gŵr. Ymddiddorai ef hefyd yn y mudiad Cymreig a bu’n bartner cefnogol i’w wraig yn ei mentrau cyhoeddus. Breuddwyd i’r ddau ohonynt oedd Plasty Llanofor a adeiladwyd yn ganolfan i weithgarwch diwylliannol, a lle ddi ysgolheigion a’r werin yn ddiwahân i ddathlu eu Cymreictod.

Er gallu cerddorol a meddyliol Augusta Hall, trwy gyfrwng ei nawdd a’i chefnogaeth y daeth i enwogrwydd. Y grym ymwithiol y tu ôl i hyn oll oedd ei phersonoliaeth a’i galluogodd i ddefnyddio ei safle a’i chyfoeth i ddibenion penodol. Dysgwyd pwysigrwydd cadw addewid iddi pan oedd yn blentyn, a theimlai’r rheidrwydd i weithredu dros achos hyd eithaf ei gallu. Nodwedd amlycaf ei chymeriad yn ddi-os oedd ei hargyhoeddiad mai hi oedd yn iawn bob amser:

The very warnings I had received were enough to annihilate self-confidence. I was not to believe anything Lady Llanover said about different members of her family, for she was always guided by her own prejudices and sympathies. I was not to be guided by her opinion on any subject, yet was never to contradict her... There is a great deal to admire in Lady Llanover: her pertinacity in what she thinks right, whether she is right or not; her insistence on carrying out her sovereign will in all things...⁶

Roedd ganddi ddiddordebau amrywiol, ac yn eu plith yr oedd cerddoriaeth Cyrmu. Bu’n nodd i cerddorion ac yn hybu’r defnydd o gerddoriaeth frodorol. Elfennau fwyaf amlwg ei chefnogaeth, fodd bynnag, oedd ei nawdd i’r delyn deires Gymreig.⁷ Bryd hynny, ystyrid y delyn honno’n symbol o Gymreictod ac fe’i mabwysiadwyd yn offeryn

5. Benjamin Hall, AS (Sir Fynwy a Marylebone), 1802-1867. Mab ydoedd i Benjamin Hall, AS (1778-1817) a Charlotte (1784-1839), merch Richard Crawshay, Ystad Abercarn. Urddwyd ef yn Arglwydd Llanofor o Llanofor ac Abercarn ym 1859.

6. Hare, op. cit., t.3.

7. Telyn â thair rhes o dannau a’r ddwy res allanol wedi eu cyweirio i’r raddfa ddiatonig a’r nodau cromatig yn y rhes ganol, yw’r delyn deires. Tybir erbyn hyn mai o’r Eidal y daeth y delyn deires i Brydain yn yr ail ganrif ar bymtheg.

cenedlaethol gan Gymry'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Treuliodd Augusta Hall flynyddoedd maith yn noddi'r delyn deires a'i thelynoriaion o fewn i'r llys ac yn genedlaethol. Ymysg y telynoriaion a noddwyd ganddi yr oedd John Wood Jones,⁸ Thomas Gruffydd⁹ ac S.B. Gruffydd Richards¹⁰. Y telynor teulu oedd conglaen y llys a'i ddyletswyddau'n cynnwys diddanu gwesteion trwy berfformio a chyfeilio i'r dawnsio a'r canu.

Yng nghyd-destun y gweithgarwch cerddorol hwn bu'n cefnogi cerddoriaeth werin Gymreig. Roedd gan yr Arglwyddes gariad mawr at alawon Cymreig, a dywed un awdur:

Her Ladyship was passionately fond of ancient Welsh melodies... the national airs of Wales found special favour...¹¹

Gellir rhannu ymwneud Augusta Hall â maes cerddoriaeth werin Cymru yn dair agwedd: yr alawon a chaneuon gwerin a genid yn ei chartref yn Llanofar ac yn Llundain; agweddau eraill o'r traddodiad cerddorol gwerinol a gefnogwyd ganddi; a'i chysylltiadau ag enwogion yn y maes.

Cynhelid cyngherddau o gerddoriaeth Gymreig yn gyson yng nghartref yr Halliaid yn Llundain, a gwahoddyd llawer o westeion iddynt. Ym 1841 a 1843 bu John Orlando Parry'n diddanu yno,¹² a thelynoriaion Cymreig yn perfformio alawon gwerin ar eu telynau teires. Ym 1854 bu Thomas Gruffydd a Walter Watkins¹³ yn canu alawon megis 'Merch Megan', 'Gwenith Gwyn' a 'Y Ferch o'r Scêr' ar eu telynau yn un o'r cyngherddau hyn.

8. John Wood Jones, 1800-1844, telynor teires o dylwyth y Woodiaid a fu'n elwa ar y traddodiad Cymreig o ganu'r delyn.

9. Thomas Gruffydd, 1815-1887, 'Tredegar' a 'Llanofar'. Telynor dall a olynodd ei athro, John Wood Jones, fel telynor teulu Llanofar.

10. Susannah Berrington Gruffydd Richards, 1854-1952. Merch Thomas Gruffydd a fu'n dysgu disgyblion a dderbyniodd ysgoloriaethau'r Arglwyddes.

11. Llyfrgell Dinas Caerdydd, Llsg. Caerdydd 3.771 (toriadau papur), t.6, colofn 2, 'Death of Lady Llanover. Biographical Sketch.'

12. John Orlando Parry, 1809-1879, mab John Parry, 'Bardd Alaw'. Roedd yn berfformiwr poblogaidd yn y neuaddau cerdd.

13. Credir mai telynor a gyflogwyd i gyfeilio i'r dawnsio oedd Watcyn/Walter Watkins.

Yn yr un modd roedd traddodiad o gynnal cyngerddau amrywiol yn Llanover adeg y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a dengys rhaglen ddigwyddiadau Nos Galan 1885 y math o eitemau a gaed yno'n flynyddol:

Nos Galan 1885

1.	Triban Gwyr Harlech	Y Delyn
2.	Anerchiad	Parch T. Philips
3.	'Llwyn On'	Y Cor
4.	Dadl 'Y Pin a'r Nodwydd'	-
5.	Ton	-
6.	Deuawd 'Hen Delynau'	-
7.	'Syr Harri Ddu'	-
8.	Dadl 'Rhannu'r Deisen'	-
9.	Ton	Y Delyn
10.	'Hob y Deri Dando'	Y Cor
11.	Deuawd 'Y Dilledydd a'r Crydd'	-
12.	'Y Ferch o'r Scer'	Y Cor
13.	Ton	Y Delyn
14.	'Y Gwenith Gwyn'	Y Cor
15.	'Merch y Melynydd'	Y Cor
16.	'Ar Hyd y Nos' (canwn oll)	Y Cor
17.	Dadl, 'Y Creadur Symudliw'	-
18.	'Hen Wlad fy Nhadau'	Y Cor
19.	'Duw gado'r Frenhines'	-

Nodweddd amlycaf y cyngerddau hyn yw nifer yr alawon gwerin a genid gan gôr Llanover a chan y telynau. Gweithwyr ar yr ystâd oedd aelodau'r côr, a gelwid arnynt yn gyson i ddiddanu gwesteion y Llys drwy berfformio cerddoriaeth Gymreig iddynt:

In the evening the Llanover Cantorion (Choir) had the honour of singing some of the ancient melodies of Wales to H.R.H. from the minstrels' gallery...¹⁴

14. Maxwell Fraser, 'The Prince of Orange visits Llanover,' *Presenting Monmouthshire*, cyf. 13, t. 42.

"Rhif Wyth"

Y ddawns "Rhif Wyth" yn
 Wngyl Mrs. Gruffydd Richards
 Llaner

Tad Mrs Gruffydd Richards oedd "Glyner y Ddawns" Gwenynen Gwen!

Nodiant S. B. Gruffydd Richards o 'Rhif Wyth'

Yng nghofnodion Dydd Nadolig 1876 ceir prawf o amlochredd cerddorol Gruffydd y telynor hefyd:

a great deal was owing to Gruffydd who not only played but took an important part in singing his best Welsh songs.¹⁵

Agweddau eraill o'r traddodiadau gwerinol a gynhelid yn Llanofor oedd y Plygain a'r Fari Lwyd. Ni cheir llawer o sôn am y Plygain yng nghofnodion y dathliadau,¹⁶ ond gwyddys iddynt addurno'r eglwys â brigau bytholwyrdd a chynnau canhwyllau ar gyfer y gwasanaeth. Erbyn 1874, fodd bynnag, nid oedd y trigolion a gymerai ran yn nefod y Fari Lwyd yn gwbl gyfarwydd â'r dull cywir o'i chyflwyno:

They sang too long a very dismal song close to the window, and the fire on the Pitch Pots did not light them up well - the Pwnsian were not good - and they sang again a long time out side the back door which was not wanted & those inside answered two together which spoiled all the effect - they ought not to be near so long...¹⁷

Mae'n debyg y cynhelid dawnsiau traddodiadol yn Llanofor hyd at farw'r Arglwyddes, gyda chyfeillion a thenantiaid yn eu dawnsio yn ystod dathliadau, a'r gweision a'r morynion yn eu perfformio ar gyfer gwsteion. Cofeb i'r dawnsiau a gynhelid yno ar adeg pan aeth llawer ohonynt yn anghof mewn rhannau eraill o Gymru yw dwy ddawns a adfywiwyd yn y ganrif hon, sef 'Rhif Wyth' a 'Ril Llanofor.' Dawns uned hir ar gyfer tri chwpl yw 'Rhif Wyth', a dawns Gymreig a gollodd nifer o'i stepiau gwreiddiol ac a adfywiwyd ym 1918 yw 'Ril Llanofor.' Bellach mae'r ddwy'n rhan bwysig o repertoire y dawnsiau Cymreig. Nodwyd alaw 'Rhif Wyth' gan S. B. Gruffydd Richards, ac yn ôl Nansi Richards Jones¹⁸ amrywiad ydyw ar 'The Gipsy Hornpipe':

The Gipsy's Hornpipe was played by nearly all Welsh harpists for

15. Llsg. Caerdydd 4.644, cofnodion Dydd Nadolig 1876.

16. Llsg. Caerdydd 4.644-7.

17. Llsg. Caerdydd 4.644, tudalen dyddiedig Ionawr 2, 1874.

18. Nansi Richards Jones, 'Telynores Maldwyn,' 1888-1979, telynores a dreuliodd lawer o'i hoes yn ceisio poblogeiddio'r delyn deires.

about seventy or eighty years I'm sure... afterwards called the Llanover Reel. It is not the Llanover Reel at all, it was taken to Llanover by one of the Woods, a Jeremiah Wood, that lived in Gogerddan Hall. And the harpist of Llanover Hall, Lady Llanover, learned it and they arranged a dance to it and they called it the Llanover Reel, but truthfully it's only the Gipsy Hornpipe, with variations.¹⁹

Credir bod yr alaw yn amrywiad ar 'Jones' Hornpipe' a gyhoeddwyd gan Edward Jones yn ei gyfrol *Country Dances* ym 1794.²⁰

Nid diddordeb amser hamdden yn unig oedd cerddoriaeth werin Gymreig i Arglwyddes Llanover. Roedd ganddi ddaliadau cryf a phendant am y grefft, ac roedd yn ymwybodol iawn o'r ymseisnigo a dyfai'n rhan o'r maes. Mewn llythyr at ei chyfeilles, Betha Johnes, ym 1865, mynega ei theimladau:

I wish you to know the particulars of my correspondence with Mrs. Price of Glan Twrch, who I have no doubt is actuated by the best intentions, but alas! like so many of our countrymen and countrywomen, taking the very means to injure Wales and its music and its inhabitants instead of assisting in maintaining its nationality, cultivating and perpetuating its music in a pure and unadulterated style, and promoting its cultivation in the Principality and among the natives instead of endeavouring to rob Wales and to add to the supplies of English markets and offering premiums to innocent Welsh girls to go off to England as professional singers - we have had a good example of the injury to Wales by such proceeding in the career of Margaret Watts, who has not been in the hands of the committee 12 months before her name was Frenchified into Wattes and she travelling up and down the country singing Italian opera songs under the tuition of an English music master who knew no more of Welsh music (which she had previously sung very well) than she had done of Italian...²¹

19. Geiriau Nansi Richards Jones, tâp 'Folktracks' FSD-60-351 1975. Yr awdur biau'r brawddegau a'r atalnodi.

20. Ceir alaw 'Pibddawns Jones' yn: Robin Bowen, 'The Gift of Mama', *Dawns*, 1986-7, t. 23.

21. Maxwell Fraser, 'Lord Llanover's Last Years 1864-1867,' *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, cyf. 16, rhif 3, Haf 1970, t. 279. Hefyd llythyr L6660, dyddiedig Medi 9 1865, Llythyrau Dolaucothi, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Rhan o'i hadwaith yn erbyn y fath seisnigo oedd ei pharodrwydd i gefnogi unigolion ym maes cerddoriaeth draddodiadol y genedl. Yng nghyd-desun alawon gwerin, cyswllt pwysig oedd ei perthynas â Maria Jane Williams,²² am mai o ganlyniad i ddylanwad Augusta Hall y cyhoeddwyd *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* ym 1844. Afraid yw dweud fod y casgliad hwn o bwys mawr ym maes cerddoriaeth Cymru am mai ynddo y cofnodwyd rhai o alawon gwein mwyaf poblogaidd y genedl. Hwn oedd y casgliad cyntaf hefyd i gynnwys geiriau Cymraeg, ac i Arglwyddes Llanofor y mae'r diolch pennaf am hynny.

Yn wahanol i'w chyfeilles, ganwyd Maria Jane Williams i deulu bonheddig a ymddiddorai yn yr iaith Gymraeg a'i llenyddiaeth. Roedd hi'n ferch gerddgar ac yn Eisteddfod Cymreigyddion y Fenni ym 1837²³ enillodd y wobr am y casgliad gorau o alawon traddodiadol, a fu'n sail i'w chyfrol gyhoeddedig. Ceir sôn amdani'n perfformio rhai o'r alawon gwerin a gasglwyd ganddi ar un o'i hymweliadau â Llanofor ym 1836:

The youngest, Miss Jane has a fine voice, and is very musical. She sang to us several beautiful airs which she had learned of an old woman in the Glamorganshire hills now 70 years old... she learned them of her mother, who lived to 95 and so traced them back for centuries transmitted orally, never written down... Miss Jane Williams intends to have them written down, for she knows no one who sings them, besides this old woman... There are Welsh words to them all, and each has its separate title...²⁴

Dyma fu cymwynas Jane Williams - nododd gerddoriaeth a geiriau caneuon gwerin Morgannwg, a sicrhau eu bod ar gof a chadw. Pan ddaeth hi'n bryd paratoi cyfrol gyhoeddedig, fodd bynnag, nid oedd hi'n dymuno cynnwys geiriau Cymraeg, a hynny mae'n debyg am y byddai Saesneg yn apelio cymaint mwy at y bonedd. Ymwybyddiaeth Augusta Hall o bwysigrwydd cynnwys geiriau Cymraeg a sicrhodd bresenoldeb

22. Maria Jane Williams, Aberpergwm, 1795-1873, 'Jane' y gelwid hi.

23. Rhagredegwyr i Eisteddfod Genedlaethol Cymru oedd Eisteddfodau Cymreigyddion y Fenni a gynhelid rhwng 1834 a 1853, o dan arweiniad unigolion fel Augusta Hall a'r Parch Thomas Price, 'Carnhuanawc,' 1787-1848.

24. Llsg. LLGC CB6 (llsg. Maxwell Fraser), sef nodiadau o ddyddiaduron yr Arglwyddes Greenly, t. 65.

penillion yn yr iaith frodorol. Ysgrifennodd Augusta Hall at y Frenhines Victoria, a gofyn am ganiatâd i gyflwyno'r gyfrol o gerddoriaeth â geiriau Cymraeg iddi, a bu'r Arglwyddes yn pwysu ar y casglwr i gynnwys geiriau Cymraeg tan iddi ildio.

Ysywaeth, ni phwysodd Augusta ar Jane i gynnwys y geiriau gwreiddiol. Yn wir credai fod rhai ohonynt yn anaddas, a galwodd ar Taliesin ab Iolo²⁵ a John Jones, 'Tegid'²⁶ i lunio geiriau Cymraeg newydd ar gyfer yr alawon. Gydag ychydig mwy o bwysu o du Augusta Hall fe gafodd hi ei dymuniad, fel y dengyse llythyr at ab Iolo:

In a short visit Miss Wms of Aberpergwm lately paid me she told me that she had placed the words of her songs in your hands, - and that bringing out of her Publication would much depend on what she received from you - This proves to me you have kindly used your influence as I requested - so that she no longer alludes to the idea of publishing without words.²⁷

Ddw y flynedd yn ddiweddarach, gwêl Augusta Hall bwysigrwydd cynnwys barddoniaeth draddodiadol â blas y pridd arni:

you must remember the book is not intended to give the best specimens of Welsh poetry - but to give National Airs sung by Welsh Peasants - with such words as could be put to them, or to go with them - where there are words with original thoughts and imaginative expressions well and good, and still better where they give a plea for an informing note (your notes will be treasures don't be sparing of them) but provided there is nothing objectionable or vulgar retained.²⁸

25. Taliesin Williams, 'Taliesin ab Iolo,' 1787-1847, mab Iolo Morganwg.

26. John Jones, 'Ioan Tegid'; 'Tegid' 1792-1852. Bardd ac orthograffydd.

27. Daniel Huws, Rhagarweiniad i *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1988, ffacsimile o argraffiad 1844,) t. 60 Llythyr dyddiedig Tachwedd 9, 1840 ydyw, oddi wrth Arglwyddes Llanofer at Taliesin ab Iolo (llythyrau Taliesin ab Iolo, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

A. Kinnear
 Ddewch yn nes holl ieunctorion
 Tachenn down by Rieaf J. W.
 Rieaf J. W. 8

Musical score for voice and piano. The score is written on two staves. The first staff is for the voice, and the second staff is for the piano. The music is in G major and 2/4 time. The tempo is marked 'Allegro'. The key signature has one sharp (F#). The time signature is 2/4. The score consists of two systems. The first system has a vocal line and a piano accompaniment. The second system also has a vocal line and a piano accompaniment. The vocal line is written in a soprano clef, and the piano accompaniment is written in a bass clef. The music is a simple, cheerful tune.

Nodiant Augusta Hall o 'Dewch yn nes holl ieunctorion'

Traean o'r gyfrol sy'n cynnwys y geiriau gwreiddiol, ond traean na fyddai'n bodoli o gwbl onibai am ymyrraeth 'Gwenynen Gwent.' Dengys ei sylwadau hefyd fod ganddi reddf ethnogerdoregol, ac ategir hyn gan Daniel Huws a fu'n astudio nodiannau'r Arglwyddes o rai o alawon *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*. Ymhlith yr alawon a gasglwyd ganddi yn ardal Llanofwr ceir 'Y deryn pur,' 'Llawen glân awen Glyn Nedd,' 'Holl feibion a merched,' 'Torriad y wawr,' 'Dewch yn nes,' 'Holl brydyddion glân' a 'Pryd o'wn ar ddiwarnod.'²⁹ Ni oroesodd nodiannau gwreiddiol Jane Williams i'r alawon hyn, ac mae'r rhai a geir yn llaw Augusta Hall yn gwahaniaethu'n fawr i'r alawon cyfatebol yn y gyfrol. Er hyn, rhaid ystyried y posibilrwydd mai Augusta Hall a nododd yr alawon yn gyntaf, ac i Jane Williams eu newid cyn eu cyhoeddi.

Beth bynnag oedd union gyfraniad Arglwyddes Llanofwr yn y gwaith o gasglu deunydd, ni ellir dadlau nad cyfoethogi casgliad Jane Williams a wnaeth. Sicrhaodd bresenoldeb geiriau Cymraeg, ychwanegodd nodiadau a chofnododd enwau'r cantorion a ganodd yr alawon iddi.

Bu cyswllt hefyd rhwng 'Gwenynen Gwent' ac unigolion eraill a gyfrannodd at gadwedigaeth alawon traddodiadol Cymru. Ysgogodd y cerddor Brinley Richards³⁰ i leisio barn o blaid y delyn deires, a bu ef yn gohebu yn y wasg am yr offeryn ym 1869. Perthynas debyg fu rhwng Augusta Hall a John Thomas, 'Pencerdd Gwalia,'³² ar y dechrau. Surodd honno, fodd bynnag, wedi i'r cyw-delynnor ffafrio'r delyn bedal

28. J.E. Jones 'Maria Jane Williams a Cherddoriaeth Werin Gymreig,' Traethawd MA 1980. Ceir y dyfyniad yn llythyr 267, oddi wrth Augusta Hall at Taliesin ab Iolo, Chwefror 1843 (Llythrau Taliesin ab Iolo, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

29. Ceir ei nodiannau yn Llsgrau. LLGC 15168D a 16075E, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

30. Henry Brinley Richards, 1819-1885. Ganwyd ef yng Nghaerfyrddin, astudiodd y piano yn yr Academi Gerdd Frenhinol, Llundain a bu'n ddisgybl i Chopin.

31. Brinley Richards, *Songs of Wales* (Llundain, 1873).

32. John Thomas, 'Pencerdd Gwalia,' 1826-1913. Ganwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, astudiodd yn yr Academi Gerdd Frenhinol, Llundain a theithiodd ar y cyfandir yn Asia a Rwsia.

Ewropeaidd, sef prif elyn hoff offeryn yr Arglwyddes.

Buddugoliaeth y 'Pencerdd' yn un o Eisteddfodau'r Fenni fu'n sail i'w yrfa, ond wrth astudio yn Llundain mabwysiadodd y delyn bedal glasurol, a hon fu'n gyfrwng i boblogeiddio alawon gwerin Cymru ym Mhrydain a thu hwnt. Ystyrid ef yn fradwr ganddi am iddo beidio â chefnogi'r delyn draddodiadol, a dewis canu telyn ddatblygedig a fygythiai fodolaeth y delyn deires. Er gwaethaf ei 'frad' erys ei drefniannau blodeuog o alawon gwerin megis 'Bugeilio'r gwenith gwyn' yn ffefrynnau gyda'r cyhoedd a thelynorion fel ei gilydd.

Roedd John Parry, 'Bardd Alaw'³³ fodd bynnag, yn un o ffefrynnau Augusta Hall. Cyhoeddodd ef gasgliadau o geinciau telyn³⁴ a phoblogeiddio alawon Cymreig mewn cyngherddau a drefnid ganddo yng Ngerddi Vauxhall, Llundain. Cyfansoddodd alawon 'Gwenynen Gwent' a 'Llanover' (1838) yn deyrnged i Augusta, ac fe'i cyhoeddwyd yn *The Welsh Harper*. Roedd i'r gyntaf dri amrywiad a chyhoeddwyd 'Llanover' hefyd ar ffurf alaw â phum amrywiad³⁵. Cyn iddo farw trosglwyddodd lawysgrifau'r alawon a gyhoeddwyd yn *The Welsh Harper* i ofal Augusta Hall, rhai a gasglwyd yn wreiddiol gan y Parch. John Jenkins, 'Ifor Ceri'³⁶. Rhoddodd gweddw John Jenkins hefyd yr hawl iddi gymharu llawysgrif John Parry â chofnodon John Jenkins, er na wyddys beth oedd ei bwriad wrth wneud hyn.

Dengys y gweithgarwch hwn i gyd fod gan Arglwyddes Llanofer ddiddordeb iach yn yr arfer o gasglu deunydd traddodiadol. Gwelai ei fod yn werthfawr ac yn drysor y dylid ei ddiogelu. Sicrhodd hefyd barhad i'r arfer o ganu caneuon gwerin trwy ddarparu cyfleoedd iddynt gael eu datgan ar dafod ac ar dant mewn cynullïadau cyhoeddus yn Llanofer ac yn Llundain.

33. John Parry, 'Bardd Alaw,' 1776-1851. Ganwyd yn Ninbych, ymsefydlodd yn Llundain fel athro a daeth yn adnabyddus yng Nghymru fel cerddor, beirniad eisteddfodol a chyhoeddwr alawon gwerin.

34. *A Collection of Welsh Airs* (1807), *A Selection of Welsh Melodies* (1809, 1822 a 1829) a *The Welsh Harper* (cyf. 1, 1839 a chyf. 2, 1848).

35. Cyhoeddwyd gan Addison a Hodson, Llundain.

36. John Jenkins, 'Ifor Ceri,' 1770-1829. Hynafiaethydd hael a chasglwr alawon gwerin.

Anodd fyddai mesur dylanwad ymdrechion Arglwyddes Llanover i gynnal caneuon gwerin Cymru, ond heb amheuaeth roedd ei dylanwad ar gyfrol Maria Jane Williams yn un arwyddocaol. Er na frwydrodd Augusta Hall ar flaen y gad dros alawon gwerin ac er ei dinodedd ymddangosiadol, bu'n hybu ac yn cynnal cerddoriaeth werin y genedl yn ei ffordd ddihafal ei hun.

Summary

Augusta Hall (1802-96), Lady Llanover, was a prominent figure in Welsh music in the nineteenth century. At her home in Llanover, Gwent, she encouraged the use of the Welsh Language and maintained a harper who performed on the traditional triple harp. Concerts were held regularly at which Welsh songs and dances would be performed, one dance, a variation of the Gipsy's Hornpipe, becoming known as the 'Llanover Reel.'

Augusta Hall also supported Maria Jane Williams in her collecting of Welsh folk-songs, encouraging her, though not entirely successfully, to publish the Welsh words with the tunes in *Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg* (1844). Other musicians whom she patronised were the pianist and composer Brinley Richards, the harpist John Thomas, 'Pencerdd Gwalia' and John Parry, 'Bardd Alaw,' who composed in her honour two airs which he published in his collection *The Welsh Harper*

Songs of R.E. Vaughan Roberts

Phyllis Kinney

Sometime between Easter 1919 and 1925 Dr. J. Lloyd Williams, editor of *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* received two manuscripts of traditional songs from R. E. Vaughan Roberts, at one time a student at University College North Wales and member of the 'Canorion'. There were 20 songs in all, four in the first manuscript and 16 in the later one, all collected in North Wales, many in and around the collector's home area of Bala, and Vaughan Roberts included detailed notes about the songs and the singers. Five of these songs were printed in CCAGC ('Y Gog Lwydlas,' 'Pry bach bach,' 'Y Blodyn Du,' 'Cyfri'r Geifr' and 'Petrisen') and three more appeared later in *Chwe Chân Werin Gymreig* ('Lwlibei,' 'Lloffa' and 'Fenyw Fwyn'.)

At some point in the past the manuscripts were broken up and separated. The four tunes in the first manuscript which is now in the National Library of Wales (J. Lloyd Williams MS57), are neatly written, including details about singers and places, but with no information as to the identity of the collector. The second manuscript, which originally contained 16 tunes, became separated; 13 tunes were found in NLW (J. Lloyd Williams MS99), words and melody only with no other details, and the final three tunes in the manuscript appeared in another collection in NLW (J. Lloyd Williams 57), again with words and music only.

Some years after noting the tunes in these MSS and wondering who was the collector I came across a manuscript in NLW (J. Lloyd Williams 112) which began with the words: 'Notes &c on accompanying folksongs.' A glance at the notes showed that they were missing details for the songs in the second manuscript which had somehow been separated from each other. At the end of these very detailed notes was the signature of the collector: R.E. Vaughan Roberts. And the handwriting showed that he was also the author of the first manuscript mentioned above. Unfortunately the MSS are too faint to be reprinted in facsimile so in preparing them for publication I have taken the liberty of printing the details about the songs with each individual song instead of noting them separately as R.E. Vaughan Roberts originally sent them.

The first manuscript (containing the first four songs noted below) was sent to J. Lloyd Williams earlier than the other because in his notes to 'Lliw Gwyn Rhosyn yr Haf' in the second manuscript Vaughan Roberts says 'Cf the one-and-two-lined version I sent you about Easter time from Bala.' No date is given but the manuscripts were written some time between 1919, a date which appears three times in one of the manuscripts, and 1925, when some of the tunes were published in CCAGC. The details about the songs show that Vaughan Roberts was an apt pupil of Lloyd Williams and the notation is careful to show how the individual singer performed the tune.

W.F.S. Journal Vol I. Pt. IV pp 177, 185. Sung by my father.



Ffârwel i dref y Bala lon A'r merched ifanc i gyd o'r bron Rwy'n mynd i dreio prun sydd well -- Fy



ngwlad fy hun ynte'r gwledydd pell Ffal di ral ffal di ral ffal di ral ffal ffal di ral di ral di ral la la

Lliw Gwyn Rhosyn yr Haf. Sung by my father who cannot recollect the first portion. The rhythm as near as I can make out is as written here: he does not sing it in regular triplets. The dialogue consisted of but one line-a-piece -- not two as in Vol I Pt II W.F.S.J. if he remembers it correctly.




Lliw Gwyn rhosyn yr haf Mi groga fy hun cyn dof i'th ganlyn yr hên gêg dyna 'tîr gwir

Y Tri Gelach Sung by David Williams Tynyffriid Bala. There is a large number of verses, the two given are the first and the last.



Y melnydd ddygodd wenith A'r gwŷdd a ddygodd wlan Ond bachgen bach y teiliwr ddygodd ddarn o frethyn brith Tri gelach efo'u gilydd
Y melnydd ddaru foddï A'r gwŷdd a ddaru 'ngrogi Ond y d--! a gipodd yr hen deiliwr bach Tri gelach efo'u gilydd

Lili Lon. Sung by my father. The two $\flat$ notes, I cannot be certain of their intonation -- they are slurred between $\flat$ & $\flat$



f'enyw fwyn gwrando gŵyn dyn sy'n curio er dy fwyn: Mae i mi ddirfawr gri ddydd a nôs o d'achos di. Wylo'r



dŵr yn ael i'r dôn, gwel fy mriw o dan fy mron: Nid oes ddryr iechyd imi ond tydi Lili lon.

Notes &c on accompanying folksongs.

They are classed according to source.

A Sung end of June '19 by Mr John Jones of Marrington, Chirbury Salop, an old man whose earlier years were spent about Llanrhaeadr Mochnant. He is about 75 years old.

(1) Lwlabei. This "tôn gron" was sung by his mother, sometimes as in bars 1-4, at other times like 5-8. She rocked her baby to sleep singing it.

Lwlabei

(4) One of three versions of "Y Gog lwydlas". Learnt by him at sheep shearing time many years ago from a shepherd of the Cerrig y drudion district. The melody is almost identical with the next one except for a more pronounced syncopation.

Y Gog Lwydlas (a)



Rhodio yr oeddwn a'm calon yn brudd ar ddydd Llun y bore ar doriad y dydd: Fe



glywn y gog lwydlas yn tiwnio mor fwyn ar ochor bryn uchel ar gangen o lwyn

B Y Gog Lwydlas (b)

Copied by my father from the singing of Mr Richard Jones of Capel Celyn, Bala who only knows the two verses given. Note an apparent mistake in the second line -- dydd Iau and the doubling of a'm calon yn brudd. My grandfather (maternal) used to tell the last verse to me thus:-

"Ni chân y gog lwydlas ond Ebrill a Mai
A hanner Mehefin chwi wyddoch bob rhai:
Ac wedyn eheda dros donnau y môr
I wledydd pellennig i mofyn ei stôr."


A very similar verse occurs in Hwiangerddi (Cyfres y Fil), the third line being there faulty in metre. June '19



Yn rhodio yr oeddwn a'm calon yn brudd ar ddydd Iau y bore a'm calon yn brudd, mi glywn y gog lwydlas yn



tiwnio mor fwyn ar ochor bryn uchel ar gangen o lwyn. Fy amser i ganu yw Ebrill a Mai a



hanner Mehefin chwi wyddoch bob rhai. I ffwrdd af oddiyma, fy aden sydd fân a chyn dygwyl! Ifân fe dderfodd fy ngân

Y Gog Lwydlas (c)

C. Sung by Mr David Davies of Maengwynedd, June '19.

(1) The latter part resembles a certain hymntune very strongly but I can't remember which.



Yn rhodio yr oeddwn a'm calon yn brudd ar ddydd y bore ar doriad y dydd . . .

(2) Pry bach bach. Sung rather softly and crisply with a sforzato on the minims in bars 2 & 4. Mr Davies is fond of clacking the feet of a little child together to accompany the first three notes of each bar. I notice that in the current Journal Llew Tegid translates "pry" as "fox". I beg to differ. Pry has two primary meanings in Welsh (a) worm or insect &c e.g. pry clust, pry genwair, pry copyn, pry cantraed &c (b) a hare -- the word is used in this sense in the Bala district, vale of Clwyd & Tanat valley regularly. Parenthetically "Pry llwyd" is "horsefly" or a "badger". A secondary meaning which "pry" like gwalch, coblyn, cenna &c has acquired is that of "mischief", "rascal", tartar, "bounder". E.g. "Aros di'r pry!" (You just wait, you little rascal). Mae o'n bry bach, 'welais i 'run bry tebyg iddo fo. This is the sense in which I fancy the word is used here -- that [of] mischief rather than cunning. That it refers to a boy of genus boy is also suggested by the second verse sung by Mr Davies:-

Pry bach bach yn mynd i'r coed

Esgid newydd am bob troed.

Pry bach bach yn dwad adre

Wedi colli un o'r sgidie.

Fferau or fferi is the usual word round Bala for "ankles".

Pry bach bach



D Sung July 1919 by Mr John Morris Llanrhaeadr, native of Llanfyllin. He is quite illiterate but knows lots of old ballads which he "sings" to Cân y Mochyn Du and other wellknown tunes. Having no "voice" his singing is largely "mwmian drwy'i drwyn", so much so that parts are unintelligible, in others the melody is obviously made up as he cannot repeat it at all. Of the tunes which I have given

(1) the Blotyn Du he is quite "orthodox" on, going right through the ballad to the same melody on several separate occasions to me

Y Blotyn Du



(2) Cerdd Morgan Jones he is also certain of, but knows no words beyond the verse given.

Cerdd Morgan Jones



Morgan Jones o'r Dolau Gwynion gadd ei drawo rhwng ei ddwyfron
Fe ddaeth ato newydd garw fod ei gariad bron a marw

(3) [Y Gneuen Goeg] he sings in one of two ways, both given. The "drain & drysni" portion he invariably sings as written, each crotchet being of equal length. I had no option but to mix up duple & triple time putting a bar-line before each accented syllable. The variant melodies are distinguishable by the up-or down-turning of the stems of the notes.

Y Gneuen Goeg



Yng ngwryon Top y Rhos mi welais gneuen mor felen mor brydferth a sofrên. Mi wnes yn gytun y



mynnwn i'r gneuen. Mi griplais drwy'r drain a'r drysni mi rwygais i fy nghôt mewn



rhyw hen fieren. Ar ol i mi foelyd mwy na gwerth grôt un goeg oedd y gneuen.

(4) [Cân y Ceffyl Du] This air is subject to much variation. I give two forms: The remaining words are found in Gwaenfab's "120 o Gerddi Cymru" a copy of which the old man carries about with him though he cannot read it, but the "look" of the words seem to bring them to mind. I fancy both this & the next melody are compositions of Mynyddog's or a similar minstrel

Cân y Ceffyl Du



O dewch yn dwr y Cymry llon cewch draethiad teg ar ganiad hon, Rwy'n eitha dyn, yn eitha tâd, rwy'n



eithaf un mewn tref neu wlad. Ar ol cael fy nhrystio coeliwch fi, rhoef glec ar fy mawd a ffwr a fi.



2 Mi es i frecwast i'r cook shop, ces yno beefsteak a mutton chop, ond bechgyn eraill ddaeth at y bwrdd a



minnau'r pen arall yn mynd i ffwrdd. Tra'n tendio rhain bu gwraig y tŷ, rhois glec ar fy mawd a ffwrdd a fi.

(5) [A Glywsoch chwi rioed] The second verse is twice as long as Mr Morris sings the song: it runs thus:-

Mi glywais ddyn y dydd o'r blaen yn rhoi lwc dda i mi,
 A finnau fel creadur dwl yn holi pwy oedd hi
 Mae "cyfnewidiadau" rhyfedd iawn yn dod i gwrdd a dyn
 Ond y peth rhyfeddaf o bob peth yw cael gwraig hen wybod ddo'i hun!

A glywsoch chwi rioed &c

Mr Morris also sang to me the melody of Y tri Gelach to the doggerel "Ar y ffordd wrth fynd i Lunden."

A Glywsoch chwi rioed



Mae llawer iawn o fynd a dod ar hyd y wlad a'r dre, ac adrodd straeon mân a chael rhai yn ei lle:



A glywsoch chwi rioed, erioed ffasiwn beth fod merched a dynion a dynion a merched yn siarad yn siarad fath beth



E. [Amser Gwell i Ddôd] Source:- Mr D.P. Lloyd (Eos Machreth) Maengwynedd who has recently joined the WFSS. July 19. Learnt by him at the local slate quarry from an American of Carnarvonshire extraction many years ago. When the quarry was being worked the song was very popular, all joining in the chorus. Mr Pugh of Plasnglyn Llanrhaeadr tells me he heard the tune sung in the Dolgelley district.

Amser Gwell i Ddôd



Wel ffrindia rhoddwn glod, mae'r gwanwyn wedi dod, y gacaf a'r oerni aeth heibio Daw gwenau mwyn yr haul a'r coed i wisgo'u dail a
Cawn fynd i lawr i'r dre: mor ddedwydd fydd ein lle, ein ffrindia fydd yma yn barod A chwmni naw neu ddeg o enethod glân a



haf ddaw cto i wawrio theg lle mae mwyniant y ddacar yn bod Moliannwn oll yn llon Mae amser gwell i



ddyfod Haleliwia Ar ol y tywydd drwg mi 'nawn arian fel y mwg mae arwyddion dymunol o'n blaena.

L.I.G.C. (J. Lloyd Williams MS 57)

F. Sung by Mrs Jones Buarth-yr-e, Maengwynedd.

(1) Cyfri'r Geifr. The spelling of felegyffongoch is phonetic. "Chydyn" should rhyme with sydyn & not with munudyn as Bala people would speak = cudyn.



Perhaps the * _____ * bar is more accurately written thus  cydyn being hurried over

I made a special point of confirming the words of the last line -- petrisen ar y pren ges i and not ger y lli or gerllyg. The former of these two is as we used to say it round Bala, the latter is the one quoted by Ceiriog. Mrs Jones is quite certain her mother sang ges i.

The first staff of music is in 2/2 time, key of B-flat major (two flats), and treble clef. It begins with a common time signature 'C' which is then changed to '2/2'. The melody consists of quarter and eighth notes, with two triplet markings over groups of three eighth notes.

dwy golomen ddôf a phetrisen ar y pren gês i. Y trydydd dydd



(3) Haf a chynhaeaf. Her mother used to sing this tune at cheesemaking time whilst sitting on the cheese-press, to help in squeezing out the whey, I presume. Mrs Jones sang the last couplet:-

I have altered it, as she was not certain of the exact original wording, to "A chroeso gwn cawn aros" -- (I know we shall be welcome to stay).

The first staff of music is in 4/4 time, key of B-flat major (two flats). It begins with a treble clef and a key signature of two flats. The melody starts on a whole note G4, followed by a half note A4, then a quarter note Bb4. The next measure contains a quarter note C5, a quarter note D5, and a quarter note E5. The fifth measure has a quarter note D5, a quarter note C5, and a quarter note Bb4. The sixth measure features a half note A4 and a half note G4. The seventh measure has a quarter note F#4, a quarter note E4, and a quarter note D4. The eighth measure contains a half note C4 and a half note Bb3. The piece concludes with a double bar line.

44

Rhigymau Plant

Meredydd Evans

Rhigymau plant, fel y cadwyd hwynt ar lafar, yw mater hyn o ysgrif, a chanoli sylw ar y casgliadau cyhoeddedig cynnar. Mae'r rheiny'n ddigon cynhwysfawr i'w hystyried fel cynrychiolaeth foddhaol o'r math hwn ar ddifyrrwch. Y tri pherson allweddol, o safbwynt cyhoeddi casgliadau ar ffurf llyfr, yw Ceiriog, W. M. Roberts ac O.M. Edwards. Cyhoeddodd R. J. Jones ei gasgliad ef mewn colofn newyddiadurol. Sylwir yn gyntaf ar beth o hanes y casglu a'r cyhoeddi ac yna ceir arolwg o'r rhigymau gan drafod rhai o'u nodweddion cyffredinol.

Yn *Oriau'r Haf* Ceiriog, yn 1870, y cyhoeddwyd y casgliad gweddol gyflawn cyntaf o rigymau plant a hynny dan y pennawd 'Hen Hwian-gerddi,' ond ymddangosodd cnewyllyn y casgliad hwnnw yn wreiddiol mewn newyddiadur o'r enw *Yr Arweinydd*, yn 1857. Y perchennog a'r golygydd oedd Hugh Hughes, pregethwr, llenor a bardd, a adwaenid hefyd fel 'Huw Tegai.' Parhaodd ei newyddiadur o 1856 hyd 1859.

Dechreuodd Ceiriog gyfrannu i'w golofnau yn 1856 ac yng ngholofn olygyddol rhyifyn Ionawr 29, 1857, gwelwyd y nodyn hwn:

Ceiriog, 150 Tipping Street, Manchester, a ddymunai roi *Caniadau Caledfryn* yn wobwr am y casgliad helaethaf a gorau o Hwiangerddi (Nursery Songs) Cymreig, neu chwedlau o'r un natur. Y casgliadau i'w danfon iddo ef erbyn y cyntaf o Fawrth nesaf.

Gŵr ifanc tua pumlwydd ar hugain oedd Ceiriog ar y pryd, gyda diddordeb bywiog mewn llên a cherddoriaeth werin, diddordeb a rannai gyda nifer o'i gyfoedion. Eithr mae lle i gredu fod ei ddiddordeb ef mewn gweld cyhoeddi rhigymau plant, yn benodol, yn un pur anghyffredin a haedda sylw arbennig ar bwys hynny.

Cafodd ymateb parod i'w apêl, sef naw casgliad, ac yn rhifyn Mawrth 12, 1857, cyhoeddodd ei ddyfarniad. Y cystadleuydd buddugol oedd gŵr a'i galwai ei hun yn 'Hwiangerddor mewn hen gyrrdau' ond

gan nad oedd wedi cynnwys ei enw priodol mewn amlen dan sêl gofynnwyd iddo anfon y wybodaeth berthnasol gyda'r troad er mwyn i Ceiriog fedru gyrru gwaith Caledfryn ymlaen iddo. Felly y bu. Erbyn rhifyn Ebrill 9 cyhoeddwyd mai O.G. Williams, Bethesda, oedd y buddugwr. Dychwelodd yntau ei wobwr i Ceiriog gan ddymuno arno gynnig y gyfrol unwaith yn rhagor am gasgliad teilwng arall o hwiangerddi. Mae i O.G. Williams le anrhydeddus yn yr hanes presennol a phriodol fyddai cyfeirio ato fel casglydd sylweddol cyntaf rhigyddau plant Cymru.

Anfonodd gymaint â 62 o rigymau i'r gystadleuaeth a chynhwysodd Ceiriog 56 ohonynt yn ei gyfrol. O ystyried nad oes ond 104 o eitemau yn y casgliad hwnnw gellir gwerthfawrogi'n llawn gyfraniad y gŵr o ardal Bethesda. Rhaid cofio mai'r hyn a wnaeth Ceiriog yn bennaf oedd cyhoeddi defnydd a dderbyniodd oddi wrth eraill yn hytrach na gweithio yn uniongyrchol yn y maes. Eithr nid dibristod o'i gyfraniad, bid siŵr, yw cydnabod hynny. Bu'n gatalydd tra effeithiol.

Ganwyd O. G. Williams yn Hen Dyrpeg, plwyf Llandygai, yn 1831 a bu farw yn Chwefror 1869, ym Mlaenau Ffestiniog, wedi cyfnod cystuddiol hir, o'r ddarfodedigaeth. Claddwyd ef ym mynwent Eglwys Dewi Sant, yn y Blaenau gan adael gweddwr a phlentyn ar ei ôl. Ar un cyfnod yn ei fywyd bu'n gystadleuydd brwd yn rhai o eisteddfodau'r Gogledd, hynny dan y ffugenw 'Owain Glyndwr,' ac yn 1857 cyhoeddodd *Caniadau Glyndwr*, yn cynnwys chwech o bryddestau a enillodd wobrau iddo mewn cystadlaethau ym Methesda, Bangor, Talybont a'r Rhyl. Yr un flwyddyn adolygwyd y gyfrol gan Huw Tegai yn ei newyddiadur, adolygiad nawddoglyd a ddisgrifia'r gwaith fel 'yn burion gwerth chwechyn,' gan ychwanegu:

Cawsom yr hyfrydwch lawer min hwyr o ddysgu man wersi... i Owen Williams, cyn iddo ef na neb arall feddwl am iddo fynd yn dywysog, sef 'Owain Glyndwr.' - Na fydded i'r Tywysog anghofio y gwersi a gafodd 'Owen Bach.'

Cyhoeddwyd o leiaf ddwy gerdd o'i eiddo yn *Yr Herald Gymraeg* (Medi 9, 1855, a Mawrth 5, 1859) ynghyd â llythyr (Mawrth 20, 1858) yn disgrifio taith yng ngwlad Prwsia, taith gysylltiedig â'i waith yn goruchwyllo allforio llechi o Fethesda i'r wlad honno. Yn gynharach (Ionawr 23, 1858) cyhoeddodd ysgrif ganddo yn *Y Pwyssh Gymraeg* yn

adrodd hanes y daith o Fangor i Brwsia. Bu'n llythyr hefyd yng ngholofnau *Yr Herald Gymraeg* ar fater Pwyllydddeg (cyfieithiad y cyfnod o 'Phrenology') ac am hynodrwydd carreg-ateb arbennig ar lannau Afon Rhein. Nid oedd yn ddieithr chwaith fel perfformiwr ar lwyfannau ei fro, ac y mae cofnod amdano yn adrodd mewn cyngerdd yn Neuadd y Farchnad gan rannu'r llwyfan â neb llai na Llew Llwyfo. Tua'r flwyddyn 1861 symudodd i Flaenau Ffestiniog ac yn ôl ysgrif goffa fer amdano gan Gutyn Ebrill, yn *Y Faner*, Chewfrod 27, 1869:

... daeth yn brif ysgrifenydd i chwareli Mr. Percival, sef y *Fotty and Bowydd Quarries*... Bu ar negeseuau pwysig dros ei feistr, mewn gwahanol ranau o'r 'tair teyrnas', a meddai ar ddawn nodedig i wneyd *salesman* o'r dosbarth cyntaf.

Ymddengys i Ceiriog dderbyn awgrym O.G. Williams a chynnal ail gystadleuaeth. Y tro hwn rhoes wobrau ariannol i'r buddugwyr a hynny, rhad arno, o'i boced ei hun. Gwnaeth beth cyffelyb, gyda llaw, yn ddiweddarach pan aeth ati i gasglu rhai o alawon ei wlad. Unwaith yn rhagor derbyniodd naw casgliad a gwobrwywyd dau o'r cystadleuwyr ond, yn arwyddocaol, ni chyhoeddwyd cymaint ag un rhigwm ychwanegol yn *Yr Arweinydd*. Daeth yr argraffu arnynt i ben yn rhifyn Mai 14 gyda chyrraedd at ddiwedd casgliad O.G. Williams. Eithr bu trafod arnynt a natur y trafod hwnnw sy'n esbonio pam y daeth terfyn mor swta ar eu cyhoeddi.

O'r cychwyn synhwyrai Ceiriog y byddai peth gwrthwynebiad i'w waith yn ymhel â phethau mor ddinod â rhigymau a chwaraeon plant. Wrth gyhoeddi'r rhigymau cyntaf yn rhifyn Mawrth 26 rhagwelai ymosodiad posibl:

Ffol, gwag, a phlentynaidd, yn ddiamau, ac fe allai *pechadurus* yn ngolwg rhai, yw y cerddi anwyl canlynol a anadlwyd ac a suwyd i'n clustiau pan oeddym fabanod ar lin ein mamau.

Daeth cwynion ar unwaith ac o fewn pythefnos bu'n rhaid i Huw Tegai amddiffyn ei golofnydd rhag cyhuddiadau rhyw 'Idwal' a oedd wedi anfon llythyr beirniadol ato fel golygydd:

Ydynt: y maent yn Hwiangerddi mor blentynaidd ag y dichon iddynt fod, a dyna unig reswm Ceiriog dros gymell eu cyhoeddi. Goddefed

Idwal i'r hen bobl, sydd wedi dychwelyd yn blant yn eu holau, gael ychydig o ddifyrwch, wrth gofio ac adganu hen benillion plentynaid y fron a'r cryd...

A dyna wireddu rhan o ddarogan Ceiriog. I rai difrifolion a ystyriai y mater o fyw yn y fuchedd hon fel gyrfa i'w rhedeg - tuag i fyny - plentyneddwr oedd ymddiddori mewn rhigymau gwirion. Ni ddylai pobl yn eu hoed a'u hamser droi at lol o'r fath. Eithr gwiredwyd hefyd yr ail ran o'r broffwydoliaeth. Derbyniodd y golygydd gŵynion, i bob golwg, oddi wrth nifer o ddarllenwyr a ystyriai y gwaith o gyhoeddi'r rhigymau fel peth cwbl bechadurus. Dyma ran o golofn olygyddol Ebrill 9:

Yr ydym wedi myned i raddau i brofedigaeth gyda yr Hwiangerddi... y mae amryw *nad* ydynt yn derbyn yr 'Arweinydd', ac amryw o'r rhai *sydd* yn ei dderbyn, yn bygwth ei roddi i fyny, o herwydd y drosedd fawr o roddi yr Hwiangerddi yno..

1. Y mae yr Hwiangerddi, fel y gelwch y ffolineb, yn sicr o ladd eich papyr yn yr ardal hon.
2. Yn sicr y mae yr Hwiangerddi hyn yn bechod; canys a dweyd y gorau amdanynt, y maent yn wagedd, ac y mae gwagedd yn bechod.
3. Ai tybed na fyddai penillion crefyddol ddim yn fwy buddiol yn Hwiangerddi na'r pethau gwag sydd yn eich papyr?

Ymatebodd Huw Tegai yn bur ffyrnig i'r cwynion hyn a chalondid iddo oedd derbyn llythyr, o bryd i'w gilydd, oddi wrth rai o weinidogion ac offeiriaid y cyfnod yn amddiffyn Ceiriog ac yntau: Ab Ithel yn amlwg yn eu plith. Serch hynny erys y ffaith na chyhoeddwyd rhigwm arall wedi rhifyn Mai 14.

I ryw raddau teg casglu mai'r Biwritaniaeth negyddol sy'n mynnu uniaethu unrhyw beth nad yw'n ddifrifol, yn ddwys, yn sylweddol, â phechod, a enillodd y dydd. Dichon na farnai Huw Tegai fod y mater o gyhoeddi rhigymau plant yn ddigon moesol arwyddocaol iddo beryglu cylchrediad ei newyddiadur drosto. Ar wahân i ddau sylw bach pigog nid ymatebodd Ceiriog ei hun i'r ymosodiadau ond mae peth rheswm dros gredu i'r helynt ddylanwadu rhywfaint arno. Hepgorodd rai o'r rhigymau a dderbyniodd oddi wrth O.G. Williams pan aeth ati i gyhoeddi 'Hen Hwian-gerddi' yn 1870 ac efallai iddo wneud hynny er mwyn osgoi

unrhyw gyhuddiad posibl o fod yn ddi-chwaeth. Dau o'r cyfryw rigymau yw'r canlynol:

Croes, croes, ar y llawr,
Hon a hon yn feichiog fawr,
Pan ddaw babi bach i'r byd
Hwn a hwn gai siglo'r cryd!

Tali, tali, tali,
Bu farw'r hen Shon Parri,
Wedi osod ar y scrin,
A'i ddau ben glin i fyny.

Diau y cyfrifid doniolwch ynglŷn â chenhedlu plentyn tu allan i rywmau priodas, a gwamalu ynghylch yr Angau Glas, yn wrthuni anfaddeuol gan rai o Gymry parchus y cyfnod. Pam, felly, mynd ati i godi nyth cacwn? Digon o fenter oedd cyhoeddi 104 o benillion, dychmygion a chwaraeon plentynaidd, gan ŵr a oedd wedi dod erbyn hynny yn anwylyn cenedl ac yn fardd o fri.

Yn ei ragymadrodd i'w gasgliad cyfeiria Ceiriog at helynt yr argraffu rhigymau gryn bedair blynedd ar ddeg ynghynt a dyfynna yn helaeth o amddiffyniad Ab Ithel ohono ef a Huw Tegai ond nid oes air am gyfraniadau O.G. Williams a'r casglyddion eraill. Cyfeiria hefyd at gasgliad mawr *The Nursery Rhymes of England*, a dichon mai dod ar draws hwnnw a'i cymhellodd yn y lle cyntaf i drefnu'r gystadleuaeth yn y newyddiadur. Awdur y gyfrol Saesneg honno oed James Orchard Halliwell a ddaeth yn adnabyddus yn ddiweddarach fel ysgolhaig Shakespearaid; fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 1842, gydag argraffiadau eraill ehangach eu cynnwys yn ymddangos yn 1843, 1844, 1846, 1853 a c. 1860.

Dilyn ôl traed nifer o gasglwyr cynharach yr oedd Halliwell. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf i gynnwys rhai rhigymau Saesneg traddodiadol, yn ddiennw, ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif ac o hynny ymlaen fe'i dilynwyd gan nifer o gyfrolau eraill cynyddol gynhwysfawr; ond hyd nes i weithiau Iona a Peter Opie ymddangos yn ystod y ganrif bresennol casgliad Halliwell oedd yr un mwyaf safonol ar gael yn Lloegr. Dymuniad Ceiriog mae'n amlwg oedd gweld cyhoeddi casgliad yr un mor sylweddol os yn bosibl ar gyfer y Cymry Cymraeg, eithr syniai am

ei gasgliad ef fel yn cynnwys ‘y ceryg cyntaf’ a fyddai’n sylfaen ‘carnedd gyffelyb yng Nghymru.’ Gwyddai fod llawer mwy o waith casglu i’w wneud a gwnaeth hynny’n berffaith amlwg ar ddiwedd ei gasgliad trwy nodi fod ei waith ‘yn hollol ymddifad o Hwian-gerddi Deheudir Cymru’ gan ychwanegu ‘Byddai yn dda genyf gael cynorthwy i’w hel ynghyd a’u hachub rhag difancoll.’

Aeth cryn bymtheng mlynedd heibio cyn i ŵr o Dde Cymru ymateb i apel Ceiriog. Y Parchedig Rees Jenkin Jones, Gweinidog Undodaidd Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr, oedd hwnnw a gwnaeth hynny trwy gyfrwng newyddiadur. Ymddangosodd rhifyn cyntaf *Y Gweithiwr Cymreig* ar Ionawr 29, 1885, ac ynddo cynhwyswyd ‘Y Golofn Hynafiaethol’ dan ei olygyddiaeth ef. O dan y pennawd ‘Hwiangerddi’ nododd a ganlyn:

Mae Ceiriog wedi cyhoeddi casgliad o rai y Gogledd, gadewch i ninau weled rhai y Deheudir...

ac aeth ymlaen i bwysleisio, wrth apelio am gymorth darllenwyr, mai mewn rhigymau a gofnodwyd ‘oddior lafar gwlad’ yr oedd ei ddiddordeb ef. Mynnodd hefyd y dylid nodi ymhle y cofnodwyd hwynt a chynhwysodd y wybodaeth honno, yn gyffredinol.

Erbyn rhifyn Rhagfyr 3, 1885, cofnodwyd cymaint â 177 o’r hyn a alwai ef yn ‘Hwiangerddi’ yn ei golofn a chafwyd rhyw hanner dwsin yn rhagor o 1886 hyd 1889, y flwyddyn y daeth *Y Gweithiwr Cymreig* i ben ei dennyn. At hyn gellir cynnwys dynaid o benillion a ddosbarthai ef dan y penawdau ‘Hen Benillion,’ ‘Telynegau,’ a ‘Formulettes,’ fel rhigymau plant: o leiaf, dyna fel y cyfrifwyd hwynt mewn rhai casgliadau eraill.

O gymharu’r casgliad hwn ag un Ceiriog daw’n amlwg fod gwahaniaeth sylweddol rhyngddynt o ran cynnwys. Fel y gwelsom nid oedd R.J. Jones am i’w ohebwyd anfon iddo benillion a argraffwyd yn gynharach ac y mae tystiolaeth ar gael iddo hepgor cyhoeddi nifer o rai felly. Eithr fe’i cafwyd yn hepiant, yn rhyfedd iawn, yn achos un gohebydd a’i galwai ei hun yn ‘Tanysgwylfa,’ oherwydd nid oes amheuaeth na chododd hwnnw 6 rhigwm yn syth o gyfrol Ceiriog, gyda rhai mân newidiadau. Ar wahân i hynny, fodd bynnag, nid oes ond 8 rhigwm sy’n gyffredin i’r ddau gasgliad ac y mae rhai gwahaniaethau arwyddocaol rhwng bob pâr o’r rheiny, digon i argyhoeddi darllenydd

na chodwyd rhai'r golofn hynafiaethol o lyfr Ceiriog.

Mae'n berthnasol sylwi hefyd fod rhigymau'r golofn dan sylw yn gwahaniaethu'n gyffredinol oddi wrth rhai Ceiriog o ran tafodiaith a'r enwau lleoedd a geir ynddynt. Perthyn naws y siroedd deheuol i gymaint ohonynt ac y mae o leiaf ddau rigwm sydd â chefnidir diwydiannol y cymoedd iddynt, y naill yn disgrifio'r 'Bachgen bach o Ddowlais/ Yn gweithio o flaen y tân' a'r llall yn sôn am geffyl 'Yn tynu glo man/ O Lefel y Yard/ I gwnu *steam* yr *engine*.'

Gwir fod casgliad R. J. Jones yn cynnwys mwy o rigymau nag un Ceiriog ond go brin y gellir derbyn i'r cyfan ohonynt gael eu codi ar garreg yr aelwyd fel 'tae. Mae hyn yn arbennig o wir am res hir o benillion a anfonwyd gan ohebydd o Bencader a'u hargraffu dan y pennawd '*Penillion a genid gan yr aradwyr i'r ychain pan yn gweithio ar y caeau*.' Cyfeirir at un pennill hefyd fel un a ganwyd yng Ngwylfabasant Penderyn ac yn ychwanegol at hyn ceir dilyniant byr o benillion o 'Cân yr Ysbrydion' yng nghanol rhagor o 'bennillion ychain'. Gellid synio'n ddigon teg y gallai ambell un o'r penillion hyn ddod yn rhan o gynhysgaeth plentyn ar yr aelwyd ond awgryma y penawdau sydd iddynt eu bod wedi eu cofnodi mewn mannau eraill.

Poenai hyn T.C. Evans, 'Cadrawd', y gof o hynafiaethydd o Langynwyd a oedd yntau, ar y pryd, yn golygu'r golofn 'Yr Holiadur Cymreig' yn y cylchgrawn *Cyfaill yr Aelwyd*. Meddai, yn rhifyn Hydref 1885:

Mae ymgais yn bresenol yn cael ei gwneyd mewn papur wythnosol Cymreig, a gyhoeddir yn Aberdar, i gasglu Hwian Gerddi Cymru; ond mae yn ddrwg genym orfod cyfaddef mai gydag ychydig iawn o lwyddiant. Mae yn agos bobpeth yn cael ei gosod i fewn dan yr enw o Hwian Gerdd, ac nid ychydig o'r hen dribanau, sydd eisoes wedi ymddangos yn y CYFAILL, a osodir i fewn fel Hwian Gerddi. Os ydych yn cydweled, gadewch i ni dreio beth ellir wneyd ar yr Aelwyd. Byddai yn bleser genyf i'w trefnu, os cydsyniwyd i'w danfon i mi; ac ond i bob darllenwr o'r GYFAILL ddanfon yr oll y mae yn ei wybod, ac a glywodd yn ei ardal enedigol, sicr yw genyf y cesglir hwynt agos yn llwyr mewn byr amser. Dyma un yn esiampl, a gefais yn Llundain

yn ddiweddar, ac onid yw yn un dlws?-
‘Lodes ei mam, a lodes ei thad,
A fentri di gyda fi allan o’r wlad?
Lle mae gwin yn troi melinau,
A chant punt am gysgu’r borau.’

Eithr ni chafodd lwyddiant o unrhyw fath wrth geisio cywain ‘Hwian Gerddi’ i’w golofn, nac yng ngweddill 1885 na chwaith yn 1886 ac 1887. Yn y flwyddyn olaf hon, serch hynny, cyhoeddodd 17 o rigymau a gasglodd, meddai, yn ardal Llangynwyd; hynny yn ei gyfrol *History of the Parish of Llangynwyd*.

Cyfraniad bychan oedd hwn o ran rhif rhigymau ac nid oedd argraffu’r rheiny fel rhan o gyfrol ar hanes lleol yn debyg o roi llawer o gyhoeddusrwydd iddynt. Sut bynnag, caed cyfraniad pellach ganddo. Yn ystod 1905 a 1906 bu’n cydweithio â’r cerddor Harry Evans, Dowlais, ar gynhyrchu cyfrol o rigymau ar gân, *Welsh Nursery Rhymes*. Cynhwysai 28 o rigymau traddodiadol ac yn eu plith 3 a ymddangosodd yn gynharach yn y gyfrol ar Llangynwyd. Ar y gorau felly, a bwrw mai Cadrawd ei hun a fu’n gyfrifol am gywain y penillion a geir yn y gyfrol, ychydig dros 40 a gynullwyd ganddo.

Yn 1893 ymddangosodd adolygiadau byr yn *Yr Haul a Trysorfa y Plant* ar gyfrol a gyhoeddwyd gan Hughes a’i Fab, Wrecsam, dan y pennawd *Hwian-Gerddi Cymraeg F’ewyrth Huw* ond heb nac enw awdur na dyddiad yn gysylltiedig â hi. Y gŵr a’i golygodd oedd W. M. Roberts, o ardal Llangynog yn wreiddiol, ac aelod o staff y cwmni cyhoeddi dan sylw o 1888 hyd 1916. Ef, mae’n debyg, a ofalai yn arbennig am gyhoeddiadau cerddorol y cwmni. Yn ddiweddarach, yn 1926, cafwyd cyfrol arall o’r un wasg, y tro hwn dan y pennawd *Hwian Gerdd F’ewyrth Huw* ond nid atgynhyrchiad syml o’r llyfr cyntaf mo honno. Serch hynny mae’n seiliedig arni i raddau pell a gellir felly ymdrin â’r ddwy gyda’i gilydd.

Cynhwysant gymaint â 44 o rigymau yn gyffredin ond bod tua 24 o rai ychwanegol i’w cael yn yr ail lyfr. Yr un pryd dylid nodi fod 8 o rigymau a 7 o ddychmygion yn y gyfrol gynharaf nad ydynt i’w gweld yn yr ail un.

Pluen yng nghap W.M. Roberts, yn siŵr, oedd iddo fynnu cynnwys

rhai darluniau yn ei gyfrolau, ac ef hefyd oedd y cyntaf i argraffu alawon ar gyfer rhai o'r rhigymau, ar wahân i waith Edward Jones yn cyhoeddi ei 'Suo-gan' fer yn *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* (1794). Ceir alaw draddodiadol ar gyfer 'Robyn Goch ar ben y rhiniog' ac un arall gyda 'Tair cath fechan.' Haedda'r mater hwn o alawon sylw byr pellach.

Yn ei ymdrech wiw i gasglu a chyhoeddi caneuon gwerin cyfaddefodd J. Lloyd Williams iddo gael trafferth fawr i gasglu alawon y cenid rhigymau plant arnynt ac yn ei Ragair i'w gyfrol *Hwiangerddi Cymraeg* (1928) priodolodd hynny i ddylanwad drwg un wedd ar bolisi addysg traean olaf y ganrif ddiwethaf:

Ar ol llwyddo i gofnodi amryw gannoedd o alawon gwerin mae'n rhyfedd meddwl gymaint o amser ac o drafferth a gafwyd i sicrhau'r dwsin alawon traddodiadol sydd yn y llyfr hwn. Ac nid yw'n rhyfedd chwaith pan gofir mai un o ganlyniadau ofergoel Seisnig yr 'Hen Drefn' ydyw hyn. Ar ol i'r mamau fod yn canu 'Twinkle, twinkle little star' a chaneuon tebyg, pan yn blant yn yr ysgol ddyddiol, naturiol iawn oedd iddynt ganu'r rhigymau Cymraeg ar yr alawon Seisnig hyn a gadael i'r hen alawon Cymreig fynd ar ddifancoll. Sawl siomedigaeth a gafodd y casglydd oherwydd hyn. Clywed fod 'hon a hon' yn canu 'Dacw mam yn dwad,' ac wedi mynd yno gorfod gwranddo'r hwiangerdd Gymraeg yn cael ei chanu ar alaw Seisnig!

Gresyn na byddai W. M. Roberts wedi paratoi tipyn mwy ar y ffordd ac, yn arbennig, na fyddai wedi rhoi gwybodaeth inni am ffynhonnell yr alaw ar gyfer 'Robyn Goch.' Yn anffodus bu yr un mor fud o berthynas i darddiad alaw 'Tair cath fechan' ac y mae'r gresyndod gymaint yn fwy oherwydd y gallai dyn gael ei demtio'n hawdd i feddwl mai un o alawon W.M. Roberts ei hun ydyw, ar wahân i un ffaith, sef i Shân Emlyn ddod ar ei thraws yn y Wladfa yn ystod un o'i hymweliadau â'r rhan honno o'r Ariannin yn saithdegau'r ganrif hon. Ple bynnag a phryd bynnag y bu dechrau'r daith yn hanes 'Tair cath fechan', a beth bynnag a fu ei hynt wedyn yng Nghymru, mae tystiolaeth bendant iddi ddod yn rhan o draddodiad llafar ein cyd-Gymry yn Ne America. Fe'i canwyd i Shân Emlyn gan y Fs. Sara Macdonald (g. 1911), a dysgodd hi'r gân, yn ei thro, o glywed ei mam, a'i mam hithau, yn ei chanu. Dyna fynd â ni'n ôl gryn dipyn, felly, cyn 1893 pan gofnodwyd hi gan W. M. Roberts yn ei gyfrol. Ceir ffurf y Fs. Macdonald arni yn *Canu Gwerin* (5/1982) ac y

mae'n agos iawn at un W.M. Roberts.

Beth oedd ffynonellau ei rigymau? Nid ymddengys ei fod yn gyfarwydd â chasgliad R.J. Jones nac â chasgliad llai Cadrawd ond gwyddai'n burion am un Ceiriog gan fod hawlfraint gweithiau'r bardd hwnnw wedi dod yn eiddo Hughes a'i Fab erbyn y nawdegau a gallai felly dynnu ar hwnnw fel y dymunai. Hysbysodd ei fod yn gwneud hynny mewn troednodyn i'r rhagymadrodd a luniodd ar gyfer ei gyfrol gyntaf o 58 rhigwm a gellir dweud yn bur hyderus iddo godi 26 o'r rheiny, o leiaf, oddi ar Ceiriog; bron i hanner ei chynnwys. Datganodd hefyd 'fod nifer o'r Cerddi hyn wedi eu hysgrifennu i'r casgliad hwn'; ganddo ef ei hun o bosibl. Hynny'n ddiau sy'n cyfrif am 4 rhigwm a rwydd-gyfieithiwyd o'r Saesneg sef 'Ding, dong! ding, dong!/' Beth sydd yn y llyn?' ('Ding, dong, bell/ Pussy's in the well'): 'Molyn Wy Melyn eisteddai ar fur' ('Humpty Dumpty sat on a wall'); 'Hei didl, didl,/ Y Gath gyda'r ffidl' ('Hei diddle diddle,/ The cat and the fiddle') ac 'Aeth Tri Gwr doeth o'r Dyffryn' ('Three wise men of Gotham'). Mae'n bosibl iddo yn ogystal lunio dau neu dri o rai Cymraeg gwreiddiol, ond am y gweddill ohonynt, tuag 20 rhigwm, gellir bod yn eithaf siŵr eu bod yn rhai traddodiadol.

Hyd yma canolwyd sylw ar gyhoeddi rhigymau plant, yn bennaf, mewn llyfrau. Eithr beth am gylchgronau y ganrif ddiwethaf, a'r newyddiaduron yn gyffredinol? Byddai'n llafur llawer wythnos i dyrchu trwy'r rheiny i gyd ond gellir mentro peth ar y ffordd o leiaf trwy fwrw golwg frysiog dros gylchgronau plant y cyfnod. Fel rheol cynhyrchion enwadol ydynt a rhaid mynd heibio yma i drafod eu cynnwys yn gyffredinol. Ein hunig ddiddordeb ni, yn bresennol, yw gweld faint o le, os lle o gwbl, a roir i rigymau plant ynddynt. Gellir ateb yn gryno, swta: odid ddim. Yr unig eithriad yw *Trysorfa y Plant* ond prin yw nifer y rhai a argraffwyd ynddo. Er enghraifft, ceir dau yn rhifyn Ionawr 1883; tri yn rhifyn Mai 1893; a dynaid bychan yn rhifyn Medi 1896.

Deuwn, bellach, at Owen M. Edwards, prif geidwad y traddodiad llafar yn achos rhigymau plant ei wlad. Ei gasgliad ef ohonynt yw'r un mwyaf sylweddol hyd y dydd heddiw ond, yn anffodus, ni chyhoeddwyd y cyfan ohono o fewn i gloriau un gyfrol. Yn hytrach fe'i gwasgarwyd rhwng tri chyfrwng: cylchgrawn *Cymru'r Plant* a dwy gyfrol, sef *Hwiangerddi Cymru* (1904) a *Yr Hwiangerddi* (1911).

Dechreuodd gyhoeddi ei gylchgrawn *Cymru* yn Awst 1891 ac erbyn yr ail rifyn cynhwysai ynddo ysgrifau ar hanes a llên Cymru dan y pennawd ‘Tudalennau’r Plant’, gan gyfarch ei ddarllenwyr fel plant deallus yn hytrach nag oedolion bach. O fewn pum rhifyn, yn Rhagfyr y flwyddyn honno, cyhoeddodd ei fwriad i gynhyrchu cylchgrawn newydd yn arbennig ar gyfer plant, gan atgynhyrchu darlun o glawr rhifyn cyntaf *Cymru’r Plant*.

Pan ymddangosodd y rhifyn hwnnw (Ionawr 15, 1892) gwelwyd fod ynddo gyfres o ddychmygion wedi eu casglu ynghyd gan ddarllenydd o Landecwyn (D. Tecwyn Evans, ifanc, mi dybiwn). Cyhoeddasid cyfres gyffelyb yn gynharach gan y Golygydd yn *Cymru* (Tachwedd 1891); y tro hwnnw oddi wrth ddarllenydd o Lanuwchllyn, gyda’r gyfres honno yn cynnwys tri dychymyg ar rigwm oedd â ffurfiau cyfatebol iddynt yng nghasgliad Ceiriog, ynghyd â’r sylw hwn:

Gwn y beir fi gan aml i un gwep sur am gyhoeddi y dychmygion hyn. Dyma un rheswm dros wneyd, y mae y dychmygion wedi peri difyrrwch mawr i aml i do o blant bach Llanuwchllyn, a chredaf fod pob peth sydd yn peri pleser diniwed i’r rheini yn werth ei gadw.

O hynny ymlaen, hyd rifyn Medi o *Cymru’r Plant*, cyhoeddwyd cyfresi o ddychmygion a gadwyd ar lafar mewn bröydd megis Capel Bangor, Caernarfon, Penllwyn, Ystrad Fflur, Llanbadarn Fawr, Conwy, Corris a Glandyfi, gyda nodi enwau’r casglyddion fel rheol. Yna, yn rhifyn Hydref, yn ychwanegol at ddychmygion cafwyd, am y tro cyntaf, gyfres o rigymau dan y pennawd ‘Hwian Gerddi’. Parhawyd â’r drefn gymysg hon dros gyfnod o flynyddoedd fel ei bod yn amlwg mai rhan o ddifyrrwch plant oedd y cyfan yng ngolwg y Golygydd. Iddo ef is-ddosbarthiad ar hwiangerddi oedd dychymygion. I ni, yma, wrth gwrs, y mae hwiangerddi a dychmygion fel ei gilydd yn is-ddosbarthiadau o rigymau plant a felly hefyd storïau a mân-chwaraeon.

Daw’r cyfeiriad cyntaf at y bwriad i gyhoeddi cyfrol o rigymau yng Nghyfrol X y cylchgrawn (1901) a sonnir yn benodol am ddarlunio rhai ohonynt gan Winifred Hartley:

... arlunyddes Gymreig, un o deulu awdur ‘Gweledigaethau Bardd Cwsg’... Os medr rhywun hwiangerddi, byddwn yn dra diolchgar amdanynt, i wneyd y casgliad yn un llawn.

Yna, y flwyddyn ddilynol, cadarnheir fod y Golygydd a Winifred Hartley yn amcanu at gyhoeddi 'llyfr fydd yn ystôr o lawenydd i blant Cymru.' Erbyn 1903 mae'n ymateb i lythyr oddi wrth un o'i ddarlunwyr ifanc fel hyn:

Yr wyf yn casglu'r hwiangerddi Cymreig. Cefais gasgliad da oddiwrth Mr. E. Ogwen Williams o Aberdâr. Casglwyd hwy iddo gan blant ei ddosbarth Cymraeg yn yr Ysgol Sir. Cefais lawer o rai gwaelod Ceredigion, hefyd, oddiwrth Mr. E. B. Morris, Llanbedr. Y mae y rhain ac ereill wedi eu hanfon i Miss Winifred Hartley i wneyd darluniau i'w gosod allan yn y dull mwyaf swynol i blant...

Ac ar dudalen ddiweddarach apelia am danysgrifwyr i'r gyfrol arfaethedig gan ychwanegu rhai manylion yn ei chylch; er enghraifft, y byddai'n cynnwys 40 o ddarluniau, mai ei phris i danysgrifwyr fyddai 3/6, a bod y cyhoeddwr yn amcanu at gael 500 o danysgrifwyr.

Ail-adroddwyd yr un math ar apêl yng Nghyfrwl XIII (1904) a chynhwyswyd ynddi hefyd un o ddarluniau Winifred Hartley, ar gyfer y rhigwm 'Robin Goch ar ben y rhiniog.' Yna, o'r diwedd, yn un o rifynnau 1905 ymddangosodd y nodyn canlynol:

Y mae llyfr cyntaf hwian gerddi Cymru wedi ei gyhoeddi. Ceir ef am swllt a dwy geiniog oddiwrth Mri. R. E. Jones a'i frodyr, argraffwyr Conwy...

Hon oedd y gyfrol a gyhoeddwyd fel 'Hwiangerddi Cymru, Rhan 1, ac er nad oes ddyddiad cyhoeddi arni gellir yn weddol ddiogel awgrymu 1904. Eithr nid hon oedd y gyfrol arfaethedig: Rhan 1 yn unig a gafwyd ac nid 3/6 oedd y pris. Y tebyg yw i O. M. Edwards fethu â chasglu enwau 500 o danysgrifwyr ac iddo benderfynu cyhoeddi cyfrol yn weddol ddiymdroi, efallai oherwydd ei fod eisoes wedi derbyn y darluniau oddi wrth Winifred Hartley ac na fynnai ei chadw yn disgwyl wrtho am dâl ac am ymddangosiad o'i gwaith. Beth bynnag am hynny 17 darlun yn unig a ddefnyddiwyd yn y gyfrol; cadwyd y gweddill at gyfrol arall bosibl.

Ceir peth goleuni ar hynt y cyhoeddi yn *Cymru* 1904. Yn rhifyn Mawrth rhestrir enwau rhai o'r tanysgrifwyr ac addewir ychwanegu at y rhestr honno ar gyfer y rhifyn dilynol ond, am ryw reswm, ni chadwyd

at yr addewid. Erbyn rhifyn Awst mynegir peth anfodlonrwydd â'r sefyllfa:

Araf y mae'r enwau at y gyfrol o Hwiangerddi yn dod i law. Y mae Miss Winifred Hartley wedi gorffen yr hanner cant o ddarluniau, ac ant i'r cerfiwr y munud y gwelaf y gellir cyhoeddi y gyfrol yn ddigolled.

Sylwer ar y cyfeiriad at 'hanner cant o ddarluniau.' Fel arfer sonnir am 40 ohonynt ond, o gyfrif y nifer a ddefnyddiwyd yn y ddwy gyfrol gyda'i gilydd y ffigur a geir yw 39. Wrth gwrs mae'n eithaf posibl i nifer llai na'r hyn a ddarparwyd gael eu cynnwys yn y pendraw. Bu peth anwadalu hefyd ynglŷn â phris y llyfr. Yn ôl *Cymru'r Plant*, fel y gwelsom, yr oedd ar gael am 'swllt a dwy geiniog' ond yn *Cymru* (Chwefror 1905) fe'i hysbysir fel hyn:

Hwiangerddi Cymru. Rhan 1. Darluniau gan Winifred Hartley.
Amlen, 56 tud. 1s.6c. Conwy, R.E. Jones.

Yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fodd bynnag, y mae cyfrol hyfryd ac arbennig ei diwyg i'w chael gyda'r pris 2/6 wedi ei nodi arni. Tybed a ddarparwyd mwy nag un argraffiad?

Dyna fel y bu'r cychwyn ar gyhoeddi casgliad ffurfiol o'r rhigymau a ddaeth i ran O.M. Edwards trwy gyfrwng *Cymru'r Plant*, ond yr oedd rhagor i ddod ac ni orffwysodd y Golygydd ar ei rwyfau. Yn hytrach daliodd i apelio ar ei ddarllenwyr am anfon esiamplau. Tenau a fu'r ymateb yn rhifynnau 1905 a 1906 ond cafwyd toraeth i law yn 1907; er enghraifft, o Bowys, Maldwyn, Aberteifi, Meirion ac Eifionydd. Bu'r flwyddyn ddilynol yn un eithaf boddhaol ond tenau oedd hi eto yn 1909, gyda pheth gwelliant yn 1910.

Erbyn 1911, fodd bynnag, roedd y Golygydd yn barod i wneud ei gyfraniad pwysicaf i lèn rhigymau plant ac yn teimlo ei fod bellach mewn sefyllfa i ail-afael yn ei fwriad gwreiddiol i gyhoeddi casgliad gwirioneddol sylweddol ohonynt o fewn i glorïau un gyfrol. Bellach roedd 'Cyfres y Fil' wedi ei hen sefydlu ei hun ac fel rhan o'r gyfres nodedig honno y cyhoeddwyd *Yr Hwiangerddi*. Pan ymddangosodd, am y pris arferol o swllt a cheiniog a dimai i danysgrifwyr (y 1½c, am gludiad), gwelwyd fod ynddi 3000 o rigymau a 22 o ddarluniau.

Yn ei ragymadrodd iddi mae'r Golygydd fel pe'n teimlo ei bod yn rhaid iddo yntau lunio math ar amddiffyniad o blaid ei chyhoeddi. Er bod hinsawdd chwaeth a moes wedi newid tipyn o ddyddiau cynnar Ceiriog ymlaen taflai difrifolwch y cyfnod hwnnw gysgod hir dros ddifyrrwch y Cymry a diamau fod sawl un amlwg yn eu plith, ar dro'r ganrif, a ddiarhebai at weld dyn mewn oed yn chwarae plant. I'r gwrthwyneb, mynnai ef fod i'r rhigymanu arwyddocâd addysgol a llenyddol gan ddadlau ei achos, o'r safbwynt addysgol yn arbennig, yn ddifyr a medrus. Priodol hefyd yw ei honiad fod iddynt ddwy swyddogaeth anhepgor sef hudo plant i gysgu a'u diddanu pan yn effro. Cyfeiria ymhellach at waith arloesol Ceiriog a chydnebydd ei ddyled i gasglyddion eraill gan wneud yn hollol glir mai casglydd casgliadau oedd yntau, fel Ceiriog o'i flaen. Serch hynny, gofalodd dalu teyrnged, fel bob amser, i'w deulu a'i fro:

Cefais hwy oddi wrth rai ugeiniau o gyfeillion caredig, yn enwedig pan oeddwn yn olygydd *Cymru'r Plant*. A chefais un fantais fawr yng nghwrs fy addysgu - nid oes odid blentyn yng Nghymru y canwyd mwy o hwiangerddi iddo.

Nid gormodiaith y gair 'ugeiniau.' Os synhwyrai fod iddo rai gwrthwynebwyr gwyddai'n ddigamsyniol fod ganddo lu o gefnogwyr ymhob rhan o'r wlad.

Erbyn 1908 roedd Winnie Parry yn olygydd *Cymru'r Plant*, wedi iddi gyfrannu yn helaeth iddo dros gyfnod hir, a pharhaodd â'r gwaith hyd ddechrau 1912, i'w dilyn gan eraill o hynny ymlaen. Eithr, hyd at ei farw ym Mai 1920, cadwodd O.M. Edwards gysylltiad agos â'r cylchgrawn gan ddal i ofalu fod lle ynddo i'r hwiangerddi. Cyhoeddwyd ychydig dros gant o rigymau wedi i'r casgliad mawr gael ei baratoi (yn cynnwys nifer o ddyblygiadau, bid siŵr) a dengys hynny gymaint ei ddiddordeb ynddynt. Hyd yn oed yn 1920 daliai ar eu trywydd:

Rai blynyddoed yn ol, casglodd y plant ac ereill dros dri chant o hen hwiangerddi. Wedi hynny cyhoeddwyd hwy yn gyfrol dlos yn Nghyfres y Fil. Beth pe baem yn ailgychwyn, y mae llawer heb eu lloffa. Y mae geifr eto, oes, heb eu godro. I ddechreu, dyma hwiangerdd oddiwrth Mr. John Thomas, Golwg y Môr, Llansamlet, -

‘Bê, Bê, a welsoch chi mamgu?’

‘Do.’

‘Ymhle?’

‘Ar ben y Mynydd Du.’

‘Pwy oedd gyta hi?’

‘Llwtun Baldu.’

Hon, hyd y gwyddys, oedd yr hwiangerdd olaf a gofnododd O.M. Edwards ar gyfer ei gylchgrawn plant. Hynny yn rhifyn y mis y bu farw.

Ceiriog (a’i gystadleuwyr), R. J. Jones (a’i gyfranwyr), Cadrawd, W. M. Roberts, O. M. Edwards (a’i gyd-gasglyddion) - dyma’r gweithwyr cynnar yn y maes, ac o dynnu cymhariaeth rifyddol fras rhwng y gwahanol gasgliadau (ac eithrio un R.J. Jones, na wyddai’r lleill am ei fodolaeth, i bob golwg) cawn y canlyniadau dilynol:

- (i) Bod llawer iawn mwy na 300 wedi eu hargraffu yn rhifynnau *Cymru’r Plant* rhwng 1892 a 1920, heb gyfrif dyblygiadau.
- (ii) O’r 119 a gyhoeddwyd yn *Hwiangerddi Cymru* (argraffwyd 120, ond rhigwm cyfoes, nid un yn perthyn i’r traddodiad llafar, yw un ohonynt) gellir tybio i ychydig llai na hanner y nifer gael eu codi o’r cylchgrawn.
- (iii) Mae’n bosibl i gymaint â 177 o’r rhigyau a geir yn *Yr Hwiangerddi* gael eu hanfon yn wreiddiol i *Cymru’r Plant*. Gedy hyn 123 a ddeuai o ffynonellau eraill: 28, o bosibl, o gasgliad Ceiriog; 1 o restr Cadrawd a 31 yn weddol bendant o *Hwiangerddi Cymru*. Nid oes dystiolaeth i fenthyciadau oddi wrth W.M. Roberts.
- (iv) Mae o gwmpas deuparth rhigyau dwy gyfrol O.M. Edwards yn gyffredin iddynt ond gwahaniaethant yn llwyr o ran darluniau. Nid oes un o’r rheiny sy’n gyffredin i’r ddwy.

Un casgliad cyffredinol gwerth ei nodi yw fod nifer sylweddol o rigymau traddodiadol a gofnodwyd gan y casglyddion cynnar hyn heb eu cynnwys yn eu cyfrolau ffurfiol; a rhaid cofio yn arbennig fod llawer

o'r rhai deheuol eu naws na welsant olau dydd o gwbl tu allan i golofn R.J. Jones yn *Y Gweithiwr Cymreig*. At hyn, ychwanegwyd ambell un arall atynt mewn llyfr (er enghraifft, *Hwiangerddi'r Wlad*, Eluned Bebb) a chylchgrawn yn ystod y ganrif bresennol. Parhawn i aros, felly, am gasgliad gwirioneddol gyflawn o rhigymau plant Cymru.

Trown yrŵan at arolwg bras o'r rhigymau. Oherwydd cyfyngiadau gofod rhaid dethol yn llym a bodloni ar sylwadau tra chyffredinol.

Tair prif swyddogaeth sydd i'r rhigymau sef tawelu, difyrru a hyfforddi plentyn. Gwaith oedolion yw peth felly ac er mwyn ei wneud tynnant ar adnoddau sydd wrth law iddynt. Galwant i gof y tameidiau o lafar a chân a fu'n eu cadw nhw yn llonydd a diddan gynt, dyfeisiant dameidiau newydd a defnyddiant bytiau o ganeuon a phenillion poblogaidd eu cyfnod. O gefndir bywyd oedolion felly y daw rhigymau plant. Nid dod o'r aelwyd i'r byd a wnant yn gymaint a dod i'r aelwyd o'r byd.

Nid oes dim sy'n debyg o blesio baban yn fwy na chael ei ddandlwn a'i oglais; ei siglo drwy'r awyr neu ei garlamu ar lin, ei gosi dan ei ên ac ar ei wegil, a chiamocs cyffelyb. Agoryd y byd i blentyn a gosod trefn ar ei fyd bach ei hun trwy wneud gwahanol rannau o'i gorff yn gyfarwydd iddo mewn dulliau pleserus: cyfrif ei fysedd a'u henwi, pedoli ei draed, rhoi'r filltir gyntaf i'w goesau, ei bobi tua'i ganol, rhwyfo â'i freichiau. A hyn oll i gyfeiliant geiriau soniarus ar gân neu lafar-gân. Mae'r enghreifftiau yn niferus; bodloner ar dair enghraifft:

Hai'r ceffyl bach i'r ffair i Bonfa'n,
Cam, cam, cam;
Hai'r ceffyl bach i'r ffair i Bontfa'n,
Trot, trot, trot;
Hai'r ceffyl bach i'r ffair i Bontfa'n,
Galop, galop, galop.

Yn tynu cydyn o wallt y talcen - Canwch y gloch.
Yn taro'i dalcen - Curwch y drws.
Yn gwasgu'r trwyn- Codwch y glicied.
Yn rhoi bys yn ei safn - Dowch i mewn, dowch i mewn, dowch i mewn.

Modryb y fawd,
Bys yr uwd,
Pen y cogwr,
Dic y peipar,
Joli cwt bach.

Yna, fel y tyf y plentyn, daw'r difyrwrch a'r dysgu yn fwy geiriol;
deffroir y dychymyg a daw sefyllfaoedd anhygoel, swrealistaidd i fod:

Mi welais i be' na welodd pawb
Sef y cwd a'r brawd yn cerddad,
Yr adar mân yn toi y to
A'r malwod yn gweu melfad,
A bachgian bach yn llai na mi
Yn llyncu tri dyniawad.

Roedd bwch yn ymyl Merthyr
Yn eistedd ar stôl bren,
A gŵr gerllaw yn 'nelu
Ei wn at wningen wen;
Pan glywodd sŵn yr ergyd
Aeth Bili'n gacwrm gwyllt,
A neidiodd dros y clochdy:
Ni welwyd mono byth!

Mi welais ddwy gabetsen,
Yn uwch na chlochdy Llundon;
A deunaw gŵr yn hollti'r rhain,
A phedair cainc ar hugain.

Mi welas bili pala
Yn bildio castell Crosha,
Cath a chwrcath Wil Dai Shors
Yn bildio *forge* Cyfarthfa.

Daw geiriau a'u seiniau amryfal yn foddion difyrwrch pur. Dyna
swyn cyflythreniad, er enghraifft:

Tarw corniog tori cynau,
Heglau baglog higlau byglau,
Higlau byglau heglau baglog,
Tori cynau tarw corniog.

Dwy ŵydd radlon,
Yn pori'n nglan yr afon,
Yn rhadluned a'r rhadlonaf ŵydd,
Dwy ŵydd radlon.

Paham y mae'n arw
Bod blewyn garw
Yn tyfu yn mlaen barf gafr?
Am ei bod yn pori
Dan y Piryw Parym
Ar y Piryw Parym;
Dyna'r pam bod blewyn garw
Yn tyfu yn mlaen barf gafr.

Cawn ystyried cefndir y rhigwm arbennig yna yn nes ymlaen wrth drafod peth ar darddiad penillion treth-tafod tebyg. Yn y cyfamser sylwer ar bwnc geiriol arall nad oedd osgoi arno i blentyn o Gymro sef pwysau'r Saesneg ar ei deulu a'i gymdogaeth. Ac nid heb beth ymffrost mae'n siŵr y parablai ymhen amser ei ychydig eiriau o'r iaith fain, gan gael cryn hwyl wrth wneud hynny ar brydiau:

Bitch ydyw gast a *dog* ydyw ci,
Paid ti a meddwl mai *bitch* ydw' i.

Ash yw onen, *oak* yw derwen
Holly tree yw pren celynen,
Hands yw dwylaw, *gloves* yw menig,
Gentleman yw gwr boneddig.

Sion y Gof a'i gaseg
Yn dysgu siarad Saesneg,
Round about y Bonipart,
Rhowch iddo chwart ychwaneg.

Chwarae geiriol hynod o boblogaidd bid siŵr yw datrys dychmygion a cheir y rhain ar fydr ac mewn rhyddiaith:

Beth sy'n mynd yn hirach wrth dori ei phen? Ffos.

Mi gleddais hen gym'doges,

Ond ni gawn eto gwrdd;
Ar ddydd ei hadgyfodiad
Cawn wledda wrth y bwrdd.

Planu Pytaten.

Dol las lydan,
Lot o wyddau bach penchwiban,
A chlagwydd pen aur, a gwydd ben arian. Yr Awyr.

Hen wraig bach den, den,
Pais ddu, a het wen,
Calon garreg, a choes bren. Eirinen.

Gwelsom fod lle i ymffrost mewn siarad ail iaith, fel sydd yn wir mewn datrys dychmygion, ond mae ymffrost hefyd mewn cyflawni sawl math ar orchest ym myd plant: cofio dilyniant o eiriau ac ymadroddion, er enghraifft. Fel hyn y datblygir peth ar feddwl plentyn a threth ar gof, yn bennaf, yw'r rhigwm a'r stori gynyddol. Ceir enghreifftiau campus i'r ddau beth yng nghasgliad Ceiriog: 'Y cyntaf ddydd o'r Gwyliau'; 'Y pren ar y bryn' a 'Yr Hen Wraig a'r Oen Bach.' Yr orchest gyda phethau fel hyn yw cofio rhediad y rhigwm neu'r stori yn drefnus ac, mewn rhai achosion, eu llefaru'n gyflym ar un gwynt, gyda hynny'n cymhlethu pethau fwyfwy gan fod yn rhaid gofalu wedyn am ynganu'n groyw a chyflawn. Cymhlethu pellach ar y cyfan, wrth gwrs, yw ceisio gwneud hynny ar gân.

Mae gorchest hefyd ynghlwm wrth rai o chwaraeon plant ar yr aelwyd; er enghraifft, y chwarae cyfrif cnau a geir gan Ceiriog. Golyga roi ugain o gnau ar y bwrdd, un ar y tro, i 'gyfeiliant' adrodd y rhigwm canlynol:

Un dau tri mi rho nhw'i lawr yn ffri,
Mi ddalia i am beint o gwrw pwy bynag ddeil
A mi nad oes yma na mwy na llai
Ond union ugain ffri

gyda'r ugeinfed gneuen yn syrthio i'w lle ar y 'ffri' olaf. Rhaid i'r sawl y gosodir yr her iddo y tro cyntaf fod yn hynod o sylwgar os yw i ddynwared yn gywir ymddygiad yr heriwr sy'n hen law ar y gwaith. A rhaid wrth yr un bywiogrwydd meddwl a chanoli sylw os yw plentyn i lwyddo i fynd i'r dref i werthu wyau heb ddweud 'ia'.

Ceir gorchestion geiriol eraill yn ogystal, yn eu plith ad-drefnu yr un ymadroddion mewn cyfres o benillion gwahanol:

Ac hosan ddu coes un ddel,
Fel a'r fu fel a'r fel,
Fel a'r fel fel a'r fu,
Coes un ddel ac hosan ddu.

Un ad-drefniad posibl, ymhlith llu o rai eraill, a fyddai hwn:

Fel a'r fu, fel a'r fel,
Ac hosan ddu coes un ddel,
Coes un ddel ac hosan ddu
Fel a'r fel, fel a'r fu.

Y mae o leiaf un orchest eiriol arall na ddylid mynd heibio iddi sef honno sydd ynghlwm wrth ddefnyddio 'geiriau' ac 'ymadroddion' cwbl anghyffredin na all neb eu dehongli ond y sawl a wŷr ystyron y dirgel bethau hyn. Dyma enghraifft:

Cwyd meistr o'th ffirgrin grin,
A gwisg dy ffirgrin gragws;
Fe neidiodd popyloro,
I fon y gwmws,
A neidiodd y gwmws,
I ben mownt Iago;
Ac os na ddaw dwfr o'r reffension.
Fe aiff y cwbl yn boethion.

Dyma iaith breifat yn wir ac i'r sawl sydd am ei deall rhaid troi at lyfr Ceiriog, *Y Bardd a'r Cerddor* (t. 96).

O sylwi yn benodol ar swyddogaeth tawelu plentyn deunw at y rhigymau hynny y mae'n briodol i'w galw yn hwiangerddi. Fe'u nodweddir yn arbennig gan gymalau seiniol megis 'si-hei-lwli,' 'hwi-hwi,' 'lwlibai,' ac ati, ond a bwrw bod person yn canu'n dawl gall unrhyw gân wneud y tro, yn enwedig os oes tipyn o sigl iddi. Er enghraifft, nid caneuon-ar-lin, o anghenrhaid, mo'r rheiny sy'n cychwyn â 'Gyrru, gyrru i...' Fel esiampl o bennill a ddefnyddid ar gyfer 'Crydio'r babi' nododd R.J. Jones y canlynol:

Gyru, gyru i Gasnewydd,
I 'mofyn pwn o lestri newydd;
Gyru, gyru, i Gaerdydd,
I 'mofyn pwn o lestri pridd.

Yn wir, gwn am riant a adwaenwn yn dda a arferai ganu un o ganeuon Rhyfel y Boer i'w blentyn a hwnnw'n llithro'n hapus braf i freichiau Huwcyn! Beth onid cyfres o synau yw geiriau i faban?

Y gwir amdani yw mai caneuon hwylus i'r oedolyn yw caneuon yr aelwyd a hynny sy'n cyfrif am y gymysgedd ddiddorol a geir yn eu plith - penillion telyn, caneuon gwerin, ambell bwt o faled, caneuon y dydd a chaneuon yn adlewyrchu peth ar hanes ac arferion dyddiau a fu. Sylwn ar rai esiamplau, gan ddechrau gyda chaneuon gwerin.

Cynrychiolir peth o ganu'r Gwyliau gan rigymau cysylltiedig â Hela'r Dryw o gwmpas y Nadolig, canu Calennig ar ddechrau blwyddyn, canu Gŵyl Fair y Canhwyllau yn Chwefror, a chanu am grempog o gwmpas y Grawys. Canu defodol oedd peth fel hyn yn y gwraidd a chan mai'r canu Gŵyl Fair sydd debycaf o fod fwyaf anghyfarwydd erbyn hyn cyfyngwn ein sylw i hwnnw.

Y rhigwm perthnasol yn y casgliadau yw hwnnw sy'n sôn am gyfri'r geifr. Mae gwahanol amrywiadau arno, yn eu mysg yr un treth-tafod a ddyfynnwyd yn gynharach. Ffurf ar ganu gorchest yw; yn y cyd-destun hwn yr orchest o ennill mynediad i'r tŷ, nodwedd a geir mewn sawl dull ar ganu gwasael. Y dull mwyaf adnabyddus arno heddiw yw'r pyncio a geir yn ystod ymweliad y Fari Lwyd: cystadleuaeth rhwng carfan y Fari y tu allan a charfan y teulu y tu mewn gyda'r gystadleuaeth yn troi ar ba garfan a wyddai'r nifer mwyaf o benillion ac, o bosibl, ar fedr i lunio rhai ychwanegol yn y fan a'r lle. Ond gallai fod cystadlu o fath arall; er enghraifft, cofio dilyniant priodol o gymalau geiriol i'w canu ar un gwynt ac i'w hynganu yn eglur ni waeth pa mor gyflym y cenid nhw. Gellir gweld rhigymau felly ar gyfer Canu Gŵyl Fair yn *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi* (gol. T.H. Parry-Williams); rhigymau a ddefnyddid yn yr ail ganrif ar bymtheg, er nad ydynt ar ffurf canu cyfri'r geifr, fel y cyfryw, yno. Eithr gwyddys fod y ffurf honno'n cael ei defnyddio ar achlysuron tebyg yn Arfon. Mae tystiolaeth i hynny yn un o lythyrau Dafydd Ddu Eryri at Edward Jones, 'Bardd y Brenin,' yn 1799:

It appears that it was sung on *Noswyl Fair* that is to say, during the contest for the house; the Person that could repeat this song, or Rhapsody, whatever you will be pleased to call it, must have been possessed of a very tenacious memory, otherwise, he could not enumerate the nine different colours, though some of them, are in my opinion, rather unnatural.

Pennil o gân werin ac iddo gysylltiadau Seisnig diddorol yw hwn yng nghasgliad Ceiriog:

Oes, mae yma win i werth,
Oes, mae yma frandi:
Oes, mae yma lodes lan,
Mor *sweet* a siwgrw candi.

Gellir casglu fod hwn yn ateb i bennill cynharach sy'n gofyn rhywbeth tebyg i 'A oes yma win ar werth?'; yn wir, cofnodwyd cân chwe phennill, gan Grace Gwynedd Davies o ganu W. Gilbert Williams, Rhostryfan, sy'n agor â llinell gyffelyb:

'Oes yn y tŷ 'ma win ar werth?
'Oes yn y tŷ 'ma frandi?
'Oes yn y tŷ 'ma lodes lân
Mor swît â siwgrw candi?

Mae tebygrwydd rhwng y pennill agoriadol hwn ag un o'r rhigymau plant Seisnig:

Over the water and over the lea,
And over the water to Charley,
Charley loves good ale and wine,
And Charley loves good brandy,
And Charley loves a pretty girl
As sweet as sugar candy...

ac yn eu nodyn cefndirol i'r rhigwm hwn yn eu Geiriadur cyfeiria Iona a Peter Opie at haeriad Andrew Lang mai rhan o barodi yw'r pennill ar gerdd a gefnogai gais yr Ymhonnwr Ifanc i adfer hawl y Stiwartiaid i goron Lloegr; cerdd a gyhoeddwyd yn 1748. Rhywsut neu'i gilydd adleisiwyd y pennill yn un o'n caneuon gwerin ni, er bod cyd-destun

honno yn hollol wahanol i'r un Saesneg.

Pennill hwian Cymraeg gyda'r mwyaf adnabyddus yw hwnnw a geir ar y ffurf hon yng nghasgliad mawr O. M. Edwards:

Si-hei-li-lwli'r babi
Mae'r llong yn mynd i ffwrdd;
Si-hei-li-lwli'r babi,
Mae'r capten ar y bwrdd.

Cofnodwyd amrywiad ar y pennill hwn ar ffurf cân ym Mhenrhyn Llŷn, ynghyd â phennill ychwanegol, a cheir geiriau cyffelyb mewn cân werin arall a nodwyd yng Ngheredigion sy'n dwyn y pennawd dadlennol 'Rhybudd i'r Carwr.' Er mwyn esbonio hwnnw'n llawn gwell cynnwys y ddau bennill:

O ewch oddiwrth y ffenest
Wr gonest ar y gân,
On'de bydd edifar i mi;
Y babi sydd yn flin,
A'i dad sydd wrth ei hun;
Ac felly nid oes lun i chwi gael lle.

Y llong a aeth o'r porthladd
Heb gapten ar y bwrdd,
Am hyn mae'n edifar gen i,
Y gwynt o'r gorwel chwyth,
A'r fran sydd ar y nyth,
Ac felly nid oes lun i chwi gael lle.

Mae stori rhybuddio'r carwr gan wraig anffyddlon sydd â'i gŵr wedi aros gartref yn hollol annisgwyl yn un gydwladol ac mewn rhai ffurfiau arni rhybuddir yr un sydd tu allan i'r tŷ trwy i'r wraig ganu hwiangerdd i'w baban y tu mewn. Yma yng Nghymru cadwyd y disgrifiad o sefyllfa'r carwr a'r wraig anffyddlon yn y gân o Geredigion a chadwyd cynnwys rhybudd y naill i'r llall yn yr hwiangerdd o Llŷn.

Un dull ar ddyfeisio yr anhygoel yw dweud celwydd golau a cheir y ffordd yma o draethu nid yn unig mewn rhyddiaith ond hefyd ar gân. Wele rigwm a gyhoeddwyd gan O.M. Edwards:

Do, mi welais innau wennol,
Ar y traeth yn gosod pedol;
Ac yn curo hoel mewn diwrnod, -
Dyna un o'r saith rhyfeddod.

Casglwyd cân werin gan John Morris yn ardal Ffestiniog yn cynnwys saith pennill 'rhyfedd' o'r math hwn ond bod y pennill cyfatebol yn honno fel a ganlyn:

Mi glywais dd'wedyd fod y wennol,
Ar y môr yn gosod pedol,
A'i morthwyl aur a'i hengan arian,
A dyna'r saith rhyfeddod allan.

Perthyn i'r un dosbarth o ganeuon y mae'r rhigwm am y leuen ryfeddol honno a welwyd ar lawes teiliwr, ac a gofnodwyd gan Ceiriog:

Ar y ffordd wrth fyn'd i Lunden,
Cyfarfum a theiliwr llawen,
Ac wrth edrych rhyngwy'i a'r ser,
Gwelwn ar ei lawes leuen:
Tynais fy mhistol allan,
A saethais hono f'hunan,
Yr oedd ei thwrw'n dod i lawr,
Fel ergyd fawr o ganan...

Cystal nodi hefyd, er nad yw'r pennill hwn i'w gael ymysg geiriau ein caneuon cyhoeddedig, hyd y gwyddys, y rhigwm a gynhwysodd O. M. Edwards dan y pennawd cymwys 'Anodd Coelio':

Mae gen i hen iar dwrci,
A mil o gywion dani;
Pob un o'r rheiny yn gymaint ag ych, -
Ond celwydd gwych yw hynny?

Soniwyd yn gynharach am rigymau swrealistaidd ac y mae'n eithaf posibl mai ymgais ymwybodol i ddweud celwydd golau a arweiniodd at lunio rhai ohonynt. Roedd llunio straeon felly yn orchest ymysg ein hynafiaid; yn achlysur cystadleuaeth ffurfiol.

Ymysg olion caneuon gwerin eraill ceir rhigymau megis 'Beth wneir â merch benchwiban?' 'Pedoli, pedoli, pe-dinc,' 'Robin Goch ddaeth ar y rhiniog,' 'Aderyn du bigfelyn,' 'Ar lan y môr,' 'Mae'm esgid fach yn gwasgu,' 'Mae mam ynghyfraith, hwnt i'r afon,' 'Gwcw fach, ond 'twyt ti'n ffolog?', a sawl un arall adnabyddus.

Ceir ambell rigwm a ymddangosodd yn wreiddiol, mae'n bur debyg, ar daflen-faled; o leiaf maent i'w gweld heddiw ar daflenni felly. Wele un yr addaswyd tipyn arno:

O gwcw, O gwcw, b'le buost ti cyd
Cyn dod i Banparce? Ti aethost yn fud.
'Meddyliais fod yma bythefnos yn gynt,
Mi godais fy aden i fyny i'r gwynt;
Ni wnes gamgymeriad, nid oeddwn mor ffol,
Corwynt o'r gogledd a'm cadwodd i'n ol.'

Cyfarch un o gogau Penparcau, ger Aberystwyth, a wneir yma ond enghraifft yw hyn o osod blas lleol ar gerdd boblogaidd. Y llinell wreiddiol oedd: 'Cyn dod i'r gym'dogaeth, a aethost yn fud?' ac un o gogau plwyf Llandysul ydoedd. Daniel Jones (1778-1860) o'r plwyf hwnnw, a adwaenid hefyd fel 'Daniel o'r Sgubor', oedd awdur y geiriau a daeth ei gerdd 'Ymddiddan rhwng y Bardd a'r Gwcw' yn boblogaidd tu draw i ffiniau ei ardal. Diamau iddo ef ei hun ledaenu cryn dipyn arni trwy ei chanu yn rhai o ffeiriau'r De ond fe'i croesawyd yn helaeth yn y Gogledd yn ogystal.

Tystiolaeth i boblogrwydd cerddi John Jones, Glanygors (1766-1821) yw bod penillion o ddwy ohonynt i'w cael yng nghasgliad Ceiriog. O 'Bess yn teyrnasu' y daw hwn, ond ei fod beth yn wahanol i'r gwreiddiol fel y gellid disgwyl gyda phennill a fu byw ar lafar:

Chwaith na Modryb Alice a chwaith a Modryb Modlen,
Ond bacsen am y goes a charai i glymu'r gloccen;
Pais o ddu'r ddafad a chrys o lian tene,
Het o frethyn tew a chap o lian cartre'.

O osod dau hanner peniill gwahanol ynghyd y daw'r ail enghraifft, hynny o gerdd 'Priodas Siencyn Morgan.'

Ci modryb Ann Ty'n Coed,
Yn gwaeddi'n anghyffredin;
Am iddo losgi'i droed,
Mewn padell fawr o bwdin;
Roedd yn bwdin pys,
A hwnw ar haner ferwi,
A'r goges dorodd ei bys,
A cholli'r cadach llestri.

Crwydrodd yr hanner pennill olaf hwn i gân a enwogwyd gan Bob Roberts, Tai'r Felin, sef 'Gwenno Penygelli' a'i gwblhau yno gan yr hanner arall sydd yn y pennill gwreiddiol. Diddorol sylwi, gyda llaw, mai wrth glywed ei chanu gan frodor o Gerrig y Drudion, ardal enedigol Jac Glanygors, y dysgodd Bob Roberts y gân.

Cynrychiolir Jac yn ail gasgliad O.M. Edwards gyda rhan o bennill a ddaw o gerdd 'Miss Morgans Fawr,' un o'i gerddi mwyaf masweddus! Darn crwydrol yw hwn eto gan ei fod i'w gael mewn cerdd arall na phriodolir, fel rheol, i'r gŵr o Lanygors. Dyma'r ffurf arno yn *Yr Hwiangerddi*.

Mae gan i darw penwyn,
A gwartheg lawer iawn;
A defaid ar y mynydd,
A phedair tas o fawn.

Ceir nifer sylweddol yn y casgliadau o'r hyn a adwaenwn ni fel Hen Benilion neu Benillion Telyn. Gan eu bod yn gymaint rhan o ddifyrwrch gwerin gwlad dyma'n union yr hyn a ddisgwylir. Ni wyddys dim am gefndir llawer ohonynt, pam a phwy a'u lluniodd, eithr bodolant yn eu rhagoroldeb eu hunain:

Myn'd i'r ardd i dori pwysi,
Pasio'r lafant pasio'r lili;
Pasio'r *pinks* a'r rhosod cochion,
Tori pwysi o ddanad' poethion!

Bum yn byw yn gynnil, gynnil,
Aeth un ddafad imi'n ddwyfil;
Bum yn byw yn afrad, afrad,
Aeth y ddwyfil yn un ddafad.

Eisteddaf heno ar y garreg;
Os tor fy nghalon fach i, tored;
Af fi ddim i'r gwely heno,
F'anwyl gariad nid yw yno.

Eithr y mae ambell un y gellir dyfalu'n weddol hyderus ynghylch ei gefndir neu ei osod yn ei gyd-destun priodol. Enghraifft o'r math cyntaf yw:

Dafi Siencyn Morgan,
Yn codi'r dôn ei hunan;
A'i isaf en e nesa i fiwn,
A dyna'r ffordd i ddechre tiwn.

Dafydd Siencyn Morgan (1752-1844), a anwyd yn Llangrannog, oedd y codwr canu hwn mae'n debyg, un o'r bobl brin hynny yn y ddeunawfed ganrif yng Nghymru a âi o amgylch eglwysi'r plwyfi er mwyn hyfforddi aelodau'r cynulleidfaoedd i ganu. Bu ef wrthi'n ddiwyd ynglŷn â'r gwaith yn rhai o siroedd De a Gogledd y wlad. Cyfansoddodd ambell emyn-dôn ac anthem. Gwych o gyffyrddiad yw 'A'i isaf en e nesa i fiwn.' Dim ond rhywun a oedd yn gyfarwydd ag ef a allai fod wedi llunio'r fath linell: tebyg ei fod yn ŵr tal, cydnerth, gyda phen anghyffredin o fawr.

Enghraifft o'r ail fath yw'r pennill hyfryd hwn sy'n ganlyniad cymysgu dau bennill o gerdd a briodolwyd gan Thomas Parry i'r unfed ganrif ar bymtheg:

Llidiart newydd ar gae ceirch,
A gollwng meirch o'r stablau;
Cywion gwyddau ac ebol bach,
Bellach ddaw Calanmai.

Yn ôl dehonglwyd rhai o rigymau plant Lloegr gellir canfod

cyfeiriadau ynddynt at bersonau a digwyddiadau hanesyddol, er nad wrth eu henwau priodol. Arweiniodd hyn ar brydiau at ddyfalu digon gwyllt ac anghyfrifol ond nid oes amheuaeth ynglŷn â chywirdeb rhai ohonynt. Gyda'r rhigymau Cymraeg, fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn wahanol. Prin, ar y gorau, yw cyfeiriadau o'r fath a rhyfygus a fyddai' dyfalu'n dalog ynghylch yr enghreifftiau a ymddengys yn bosibl. Ystyrier y rhigwm hwn, er enghraifft:

Caf finnau ddillad newydd
O hyn i tua'r Pasg,
Mi daflaf rhain i'r potiwr,
Fydd hynny fawr o dasg;
Caf wedyn fynd i'r pnetre,
Fel sowldiwr bach yn smart,
A phrynnaf wn a chledde,
I ladd 'rhen Fonipart.

Diamau fod cyfeiriad yma at y Rhyfeloedd Napoleonaidd ond ni ddylid casglu mai cyfeiriad cyfoes â'r rheiny ydyw, er cymaint y demtasiwn i wneud hynny. Gallai plentyn o Gymro chwarae 'rhyfela yn erbyn Ffrainc' ymhell wedi i'r rhyfeloedd yn erbyn Napoleon fynd heibio. Mae 'chwarae cowbois' yn dal yn y tir o hyd. Ac y mae'r cyd-destun yn rhy amhendant i gyfiawnhau haeru fod cyfeiriad at yr arweinydd hanesyddol hwnnw mewn rhigwm a ddyfynnwyd yn barod, gyda'i linell: '*Round about y Bonipart.*'

Mentrodd Ceiriog awgrymu mewn rhifyn o *Yr Arweinydd* fod un o'r rhigymau yn cyfeirio 'at enedigaeth Tywysog Cymru yng Nghastell Caernarfon, gan daflu amheuaeth at yr amgylchiad hwnnw' ond y mae'r llinellau y cyfeiria atynt yn rhan o'r fath gymysgedd fel bod dyn yn petruso rhag derbyn yr awgrym. Serch hynny, gall ei fod yn iawn.

Ceir rhigwm arall a blas hanesyddol arno yn rhai o'r casgliadau. Dyma'r ffurf arno gan R.J. Jones:

Mamgu fach a'r capan coch,
Dewch 'da fi i dwll y moch.
Welwch chi'r gwynt, welwch chi'r gwlaw?
Welwch chi'r 'deryn bach fan draw?

Welwch chi'r dyn a'r *breeches* lleder
Yn saethu llong hen Frenin Lloeger?

Y cwpled clo sy'n awgrymu digwyddiad hanesyddol ond mae'r cyd-destun yn llawer rhy ddyrys i gynnig dehongliad argyhoeddiadol. Gwyddys fod oes y '*breeches* lleder' yn dechrau dod i ben tua chanol y ddeunawfed ganrif ond go brin fod hynny'n gymorth i ddyddio'r saethu a fu ar long 'hen Frenin Lloeger;' os bu'r fath saethu o gwbl!

Erys un rhigwm y dylid cyfeirio ato yn y cyd-destun hwn o ddehongli 'hanesyddol' sef hwnnw a ddisgrifiwyd unwaith fel a ganlyn gan Llew Tegid:

PENNILL *yn gosod allan (fel y tybir) hanes ac effeithiau* CWERYL
rhwng ABAD BEDDGELERT *ac* ABAD YNYS ENLLI.

Mae bwch yn nhroed yr Wyddfa
Yn rhwym wrth aerwy pren;
A bwch yn Ynys Enlli
Yn bygwth taro pen.
Wrth dwrw'r rhain yn taro,
Aeth hyn yn chwedel chwith,
Fe syrthiodd clochdy'r Bermo
Na chodwyd m'no byth.

Diolch am y '(fel y tybir)'. Mae nifer o rigymau plant sydd yn ddyrys i'w deall ac onid oes cyd-destun dibynnol iddynt gwell eu gadael yn llonydd. Am rai ohonynt, gwedd ar eu hyfrydwch yw na fwriadwyd iddynt fod yn ddealladwy. Gallwn ddiolch fod difyrrwch i'w gael weithiau mewn rhai pethau sy'n gwbl ddisynnwyr.

SUMMARY

Welsh nursery songs were collected by the poet Ceiriog through the medium of a newspaper competition in 1857 and later published in his volume *Oriau'r Haf* in 1870. Nursery rhymes were not regarded as sufficiently worthy of preservation in Victorian Wales, but further attempts to collect surviving examples were made by R.J. Jones of Aberdare in 1885, and by W.M. Roberts of Wrexham, who published a volume of nursery rhymes in 1893. The pioneer of Welsh children's literature, O.M. Edwards, issued two volumes of rhymes, in 1904 and 1911 respectively.

The published rhymes reveal common characteristics of repetition and alliteration, and puzzles and tongue-twisters occur frequently. Some songs can be associated with particular festivals and anniversaries, while others are fanciful. Very few can be dated to specific historical events.

**‘Byd gwyn fydd byd a gano’:
W. S. Gwynn Williams, T. Gwynn Jones ac
Old Welsh Folk-Songs (1927)
E. Wyn James**

Yn 1927 cyhoeddodd ‘J. Curwen & Sons Ltd’ gasgliad o alawon gwerin yn dwyn y teitl *Old Welsh Folk-Songs*. Bydd enw golygydd y casgliad, sef W. S. Gwynn Williams - neu ‘W. S.’ fel y’i gelwid gan ei gyfeillion - yn un cyfarwydd iawn i bawb sy’n ymddiddori yng ngherddoriaeth Cymru. Brodor o Langollen oedd William Sidney Gwynn Williams (1896-1978). Fe’i ganed yno ym Mhlas Hafod gan mlynedd yn ôl i eleni, a’r tŷ hwnnw fu ei gartref ar hyd ei fywyd. Cafodd ei hyfforddi’n gyfreithiwr, ond ym myd cerdd yr oedd ei galon, a daeth yn amlwg iawn mewn cylchoedd cerddorol ac eisteddfodol o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf ymlaen, gan gynnwys Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen (a sefydlwyd hanner can mlynedd yn ôl i’r flwyddyn nesaf gan W. S. ac eraill).

Os oedd cerddoriaeth yng nghalon W. S. Gwynn Williams, a’r ddawns yn ei draed, gellir dweud hefyd fod inc yn ei waed, a gwnaeth gyfraniad nodedig iawn ym myd cyhoeddi cerddoriaeth. Mae’r gweithgarwch hwnnw yn dechrau o ddifrif yng nghyd-destun y cyhoeddwy Hughes a’i Fab, Wrecsam, ac yn enwedig yng nghyd-destun ei waith fel golygydd y cylchgrawn cerddorol dwyieithog, *Y Cerddor Newydd*, a gyhoeddodd Hughes a’i Fab rhwng 1922 a 1929. Ond yn ystod y 1920au, yn ogystal â chyhoeddi dan faner Hughes a’i Fab, fe’i gwelwn yn troi yn gynyddol at gwmnïau cyhoeddi cerddoriaeth yn Lloegr. Er enghraifft, ceir hysbyseb ar gyfer nifer o’i weithiau cerddorol yn rhifyn Mai 1926 o’r *Cerddor Newydd*, ac yn eu plith rhestrir nid yn unig chwe eitem o wasg Hughes a’i Fab, ond hefyd un yr un o weisg Edwin Ashdown Ltd., Cary & Co., a Chappell & Co. Ltd., ynghyd â chynifer â thair ar ddeg o wasg Curwen.

Un a gafodd ei dynnu i mewn yn ddwfn i weithgarwch cerddorol W. S. Gwynn Williams oedd y llenor mawr Thomas Gwynn Jones (1871-1949). Ef, ar gais W. S., a luniodd y cwpled enwog a ymddangosodd ar

raglen gyntaf Eisteddfod Gydwladol Llangollen yn 1947:

Byd gwyn fydd byd a gano,
Gwaraidd fydd ei gerddi fo.

Ond un enghraifft fach yn unig yw hon o'r ymwneud a fu rhwng y ddau dros gyfnod o fwy na chwarter canrif, oherwydd o'r 1920au cynnar ymlaen bu W. S. Gwynn Williams yn gohebu'n gyson â T. Gwynn Jones, yn ceisio ei gyngor a'i gymorth ar lu o faterion. Mae 445 o lythyrau oddi wrth W. S. Gwynn Williams at T. Gwynn Jones yng nghasgliad papurau T. Gwynn Jones yn y Llyfrgell Genedlaethol (rhifau G. 6186 hyd 6286; G. 6845 a 6846; A. 1093 hyd 1421; a D. 217 hyd 229). Maent yn rhychwantu'r blynyddoedd rhwng 1922 a 1947, ac yn ffynhonnell eithriadol bwysig ar gyfer y cydweithio a fu rhyngddynt - cydweithio a olygodd fod T. Gwynn Jones, ymhlith pethau eraill, wedi cyfieithu yn agos i drichant o ddarnau ar gyfer gweithgarwch cyhoeddi cerddorol W. S. Gwynn Williams (gw. cyfrol Emrys Cleaver, *Gwŷr y Gân*, 1964, t.89, a'i erthygl goffa i W. S. yn *Canu Gwerin* 2, 1979, t.6; gw. hefyd *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones*, gol. D. Hywel E. Roberts, 1981, sy'n rhestru dros gant o enghreifftiau o eiriau gan T. Gwynn Jones yn cael eu priodi â cherddoriaeth a gyfansoddwyd neu a drefnwyd gan W. S. Gwynn Williams; ceir yn hwylus yn y gyfrol *Cerddi Canu*, 1942, destun deg a thrigain o gerddi Cymraeg a Saesneg a luniodd T. Gwynn Jones, neu a gyfieithwyd ganddo, ar gais W. S. yn y cyfnod rhwng Rhagfyr 1937 a Gorffennaf 1942).

Yn gynnar yn ei ohebiaeth â Gwynn Jones, daw i'r amlwg mai dyn a chanddo genhadaeth oedd W. S. Gwynn Williams. Mewn llythyr dyddiedig 5 Mai 1923, er enghraifft, dywed: 'I started the national movement in Welsh music . . . My policy is really a very simple and straightforward one . . . It is no idle dream of a dreamer. I only want Wales to do what Russia has already done.' A dywed ymhellach, mewn llythyr dyddiedig 2 Mehefin 1923:

I feel it my duty to my country and myself to help to try and cast off this foreign domination . . . It is not so much English domination as German. The great English musical tradition is really Cymric in inspiration - much of it. The great Composers of England are the polyphonic writers of Tudor times. Their influence I think we need not fear. It is the stern and masterful excellence of the Classical Composers of Germany, so well beloved by the English Academicians, that is killing

our very hope of self-expression.

Ond, fel yr awgrymwyd eisoes, yn yr un cyfnod, ac er ei waethaf, fe'i cafodd ei hun yn troi fwyfwy at gyhoeddwyr Lloegr. Mewn llythyr dyddiedig 21 Ebrill 1923, cwyna wrth Gwynn Jones am sefyllfa druenus cyhoeddi cerddoriaeth yng Nghymru, gan ddweud mai oddi wrth gwmnïau o Loegr y deuai bron y cyfan o'r hysbysebion yn *Y Cerddor Newydd*:

All that the future holds for me, as far as I can see at present, is more English advertisements, and a bigger London influence. The whole future of Welsh music, I must tell you, is in the same hopeless state. There is no Welsh publisher in the first place, who can get his publications even on the Welsh market without sending them through the London Collecting Houses. And what is more there is very little enthusiasm to see things different.

Ei ymroddiad ef, yn anad neb, a oedd i newid y sefyllfa yng Nghymru maes o law, ond yn y tymor byr bu'n cyhoeddi llawer gyda gweisg Seisnig, ac yn enwedig cwmni Curwen. Ys dywedodd am Curwen mewn llythyr at T. Gwynn Jones dyddiedig 11 Awst 1924: 'as they are perhaps the best and biggest British firm I rather like to publish with them'. Nid yw'n annisgwyl, felly, mai Cwmni Curwen a gyhoeddodd ei gasgliad, *Old Welsh Folk-Songs*, yn 1927.

Cynnwys *Old Welsh Folk-Songs* dair ar ddeg o alawon, gyda geiriau Cymraeg a Saesneg ar gyfer pob un. Yn ogystal, ceir gan y golygydd nid yn unig ragair byr, ond hefyd ragymadrodd eithaf sylweddol ar hanes a chymeriad canu gwerin Cymru, ynghyd â nodiadau ar ffynonellau geiriau a cherddoriaeth yr eitemau a gynhwyswyd. Rhoddir isod deitlau'r alawon a llinellau cyntaf y geiriau Cymraeg, ynghyd â rhai dyddiadau perthnasol a sylwedd yr wybodaeth a rydd W. S. Gwynn Williams ynghylch ffynhonnell yr alawon ac awduraeth y geiriau Cymraeg. W. S. Gwynn Williams ei hun a fu'n gyfrifol am lunio'r trefniannau ar gyfer holl alawon y casgliad, ac H. Idris Bell a luniodd eiriau Saesneg pob eitem ond un, a hynny yn arbennig ar gyfer y casgliad hwn.

1. 'Ym Mhont-y-pridd Mae 'Nghariad'

Daw'r geiriau a'r alaw o gasgliad 'Orpheus' o alawon gwerin a

anfonwyd i Eisteddfod Genedlaethol Llangollen, 1858. Tri phennill sydd yma, a'r pennill cyntaf yn dechrau: 'Ym Mhont-y-pridd mae 'mwriad.' 'The Welsh stanzas appear to be traditional,' yw sylw W. S. Gwynn Williams ynghylch y geiriau Cymraeg.

2. 'Pa Bryd y Deui Eto?'

Codwyd yr alaw o gasgliad John Thomas ('Ieuan Ddu'), *Y Caniedydd Cymreig* (1845). Lluniwyd y geiriau Cymraeg yn arbennig ar gyfer *Old Welsh Folk-Songs* gan 'Wil Ifan' (William Evans, 1883-1968). Tri phennill sydd yma, a'r pennill cyntaf yn dechrau: 'Pa bryd y deui eto/I edrych ar dy Wenno?'

3. 'Mwynen Merch'

Cofnodwyd yr alaw gan y Dr John Lloyd Williams o ganu John Williams, 'Inspector of Postmen', Bangor, a'i chyhoeddi yn CCAGC yn 1919. Daeth y geiriau Cymraeg o gerdd gan John Thomas (1757-1835), Penffordd-wen, a ymddangosodd yn y gyfrol *Telyn Arian* (Caernarfon, [1806]). Cyhoeddir dau o'r penillion yma, y naill yn dechrau 'Y gangen fwyn lawen fain lân', a'r llall yn dechrau 'Wrth weled o laned dy lun'.

4. 'Lliw Gwyn Rhosyn yr Haf'

Cofnodwyd yr alaw gan John Morris o ganu William Edwards, Trawsfynydd, a Morris Jones, Blaenau Ffestiniog, a'i chyhoeddi yn CCAGC yn 1910. Codwyd y geiriau Cymraeg, gan 'Dic Dywyll' (Richard Williams, c.1805-c.1860), o daflen baledi yng nghasgliad y Prifathro John Humphreys Davies (1871-1926). Un pennill ar ddeg oedd i'r gerdd ar y daflen wreiddiol, a chynhwysir yma y pennill cyntaf ('Dydd da fo i ti, seren oleu'), ynghyd â'r trydydd ('Y mae dy gusan di, f'anwylyd') a'r wythfed ('Os wyt ti'n mynd i'm troi i heibio').

5. 'Y Gwŷdd'

Codwyd yr alaw a'r pennill cyntaf, 'Pan oeddwn ar frig noswaith', o gasgliad Maria Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1844). Lluniwyd yr ail bennill yn arbennig ar gyfer *Old Welsh Folk-Songs* gan Wil Ifan.

6. 'Distyll y Don'

Codwyd yr alaw o gyfrol Edward Jones ('Bardd y Brenin'), *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* (arg. 1794), a chodwyd y geiriau Cymraeg, a ddisgrifir gan W. S. Gwynn Williams fel 'old

traditional stanzas', o gyfrol Robert Griffith, *Llyfr Cerdd Dannau* (1913). Tri phennill sydd yma, a'r pennill cyntaf yn dechrau: 'Mae'n chwith am Lowri Dafydd.'

7. 'Yn Iach Lawenydd'

Codwyd yr alaw, 'Diniweidrwydd', o lawysgrif John Jenkins ('Ifor Ceri'), 'Melus-Seiniau Cymru' - ar y llawysgrif honno, gw. erthygl Daniel Huws, 'Melus-Seiniau Cymru', yn *Canu Gwerin*, 8 (1985). Daw'r geiriau Cymraeg o farwnad enwog Huw Morus (1622-1709), Pontymeibion, i Barbara Miltwn, 'Ymddiddan Marw-nad rhwng y Byw a'r Marw', a luniwyd yn 1695 ac a gyhoeddwyd yng nghasgliad Dafydd Jones o Drefriw, *Blodeu-gerdd Cymry* (1759). Y pennill agoriadol yn unig a gynhwyswyd yma, sef yr un yn dechrau 'Yn iach lawenydd,/ Croeso i gerydd'.

8. 'Cân y Melinydd'

Codwyd yr alaw gan W. S. Gwynn Williams o ganu nifer o bobl ar draws y wlad, ac fe'i ceir mewn ffurf debyg yng nghasgliad John Owen ('Owain Alaw'), *Gems of Welsh Melody* (1860-64). Codwyd y tri phennill Cymraeg o *Cerddi Cymru* (1876), a olygwyd gan Lewis Jones ('Rhuddenfab'; 1835-1915). Yn ôl W. S. Gwynn Williams: 'The Welsh stanzas . . . appear to have been written by Rhuddenfab. It is almost certain, however, that the first stanza [sef 'Mae genni ebol melyn/Yn codi'n bedair oed'] at least is traditional and of considerable age.' Y ddau bennill arall yw 'Mae genni iâr a cheiliog/A buwch a mochyn tew' ac 'Fe aeth yr iâr i rodio/I Arfon draw mewn dig'.

9. 'Blodau'r Cwm'

Codwyd yr alaw o gasgliad Ieuan Ddu, *Y Caniedydd Cymreig* (1845), a lluniwyd y geiriau Cymraeg gan 'Gwili' (John Gwili Jenkins, 1872-1936) yn arbennig ar gyfer *Old Welsh Folk-Songs*. Tri phennill sydd yma, a'r pennill cyntaf yn dechrau: 'Pan ddelo'r Haf a'i flodau fyrdd.'

10. 'Hiraeth'

Codwyd yr alaw gan y Dr Alfred Daniell o ganu ei fam, a oedd wedi'i dysgu gan Dic Dywyll yng Nghaernarfon tua 1830. Fe'i cyhoeddwyd yn CCAGC yn 1910 (t.58). Nid y faled a ganodd Dic ar yr alaw (sef 'Morgan Jones o'r Dolau Gwyrddion') a gyhoeddwyd gan W. S. Gwynn Williams, ond tri o'r 'hen benillion'. Meddai amdanynt: 'The Welsh words given here are traditional verses (perhaps some of the best in

any language) noted by Professor Gwynn Jones. An almost identical form of the stanzas is to be found among the Old Verses given in *Cymru Fu* (published Wrexham, 1862-4). 'Y tri phennill yw 'Nid oes rhyngof ag ef heno/Onid pridd, ac arch, ac amdo', 'Hiraeth cryf a Hiraeth creulon,/Hiraeth sydd yn torri 'nghalon', a 'Dod dy law, ond wyd yn coelio,/Dan fy mron, a gwylia 'mrifo'.

11. 'Mari Lwyd'

Codwyd yr alaw a'r pennill cyntaf, 'Wel dyma ni'n dwad' - a arferai gael eu canu yn ardal Llansanffraid-ar-Elai ym Morgannwg - gan W. S. Gwynn Williams o ganu Thomas Bassett, un o staff Hughes a'i Fab, ond brodor o Ben-tyrch. Daeth y saith pennill arall o gyfrol William Roberts ('Nefydd'), *Crefydd yr Oesoedd Tywyll* (1852).

12. 'Cân yr Alltud'

Codwyd yr alaw o gasgliad Ieuan Ddu, *Y Caniedydd Cymreig* (1845), lle yr ymddangosodd dan yr enw 'Cwynfan Prydain'. Lluniwyd y geiriau Cymraeg gan Robert Williams Parry (1884-1956) yn arbennig ar gyfer *Old Welsh Folk-Songs*. Tri phennill sydd i'r gân, a'r pennill cyntaf yn dechrau: 'Draw mae dyffryn uchel unig.'

13. 'Suo-Gân'

Cyhoeddodd Robert Bryan (1858-1920) 'Suo-Gân' yn ei *Alawon y Celt*, rhan 2 (1905). Codwyd yr alaw ganddo o hen lawysgrif ym meddiant Orwig Williams, Llanberis. Geiriau Robert Bryan, 'Huna blentyn ar fy mynwes', yn dri phennill, a geir wrth yr alaw yn *Old Welsh Folk-Songs* (1927).

Cafodd W. S. Gwynn Williams ei benodi'n Gyfarwyddwr Adran Gerddoriaeth Hughes a'i Fab yn 1932, ond yn 1937 ffurfiodd ei gwmni cyhoeddi ei hun. Yr oedd wedi cadw hawlfraint Old Welsh Folk-Songs, ac yn 1950 trosglwyddwyd yr hawliau cyhoeddi o Gwmni Curwen i 'The Gwynn Publishing Co., Llangollen, N. Wales'; ac yn dilyn hynny, yn 1952, cyhoeddodd Cwmni Cyhoeddi Gwynn argraffiad newydd o'r casgliad, ond gan hepgor yr eitem olaf, sef 'Suo-Gân'. Yn yr argraffiad cyntaf yn 1927, diolchir i W. A. Lewis am ganiatâd i ddefnyddio alaw a geiriau Cymraeg 'Suo-Gân', ac mewn troednodyn a ychwanegwyd at y rhagair yn argraffiad 1952, dywedir bod 'Suo-Gân' wedi'i hepgor o'r argraffiad hwnnw ond ei bod ar gael ar ffurf taflen gan Gwmni Curwen. Ystyriaethau hawlfraint, felly, mae'n fwy na thebyg, oedd y rheswm dros ddileu 'Suo-Gân' o argraffiad 1952.

Mae'n ymddangos i W. S. Gwynn Williams ddechrau gweithio o ddifrif ar *Old Welsh Folk-Songs* yn gynnar yn 1926, ond yr oedd y syniad yn cyniwair yn ei feddwl dipyn cyn hynny. Ysgrifennodd at T. Gwynn Jones, 23 Chwefror 1925, yn ei hysbysu ei fod â'i fryd ar drefnu 'a few of the most characteristic airs' a'u cyhoeddi gyda geiriau Cymraeg a Saesneg, ac yn yr un llythyr y mae'n gofyn barn Gwynn Jones ar y geiriau yr oedd Ieuan Ddu wedi'u llunio ar gyfer *Y Caniedydd Cymreig*. (Roedd Gwynn Jones wedi cyhoeddi erthygl ar Ieuan Ddu yn *Y Cerddor Newydd* yn Awst 1924. Ar Ieuan Ddu a'i gasgliad, gw. ymhellach erthygl Meredydd Evans, 'Ieuan Ddu: Eisteddfodwr a Cherddor', yn *Taliesin*, Rhagfyr 1986.)

Y diwrnod canlynol, ysgrifennodd W. S. Gwynn Williams at Gwynn Jones unwaith eto yn ailadrodd ei ddymuniad i lunio detholiad, gan nodi ei fod am gynnwys ynddo rai enghreifftiau o ganu penillion, a chan ofyn i T. Gwynn Jones a fyddai'n barod i gyfieithu i'r Saesneg ddwy neu dair o ganeuon ar fesurau traddodiadol ar gyfer yr adran honno ar ganu gyda'r tannau. Cadwyd copi o ateb Gwynn Jones, dyddiedig 26 Chwefror 1925, gyda llythyr W. S. Gwynn Williams. Negyddol oedd ei ymateb i'r cais, gan ddweud y byddai'n well cael beirdd Saesneg i lunio geiriau Saesneg pwrpasol: 'characteristic forms, like Welsh and English ballads, & especially penillion telyn, cannot be translated'. Ac meddai ymhellach:

Language is not like water, or any other liquid, which you can pour from one vessel to another without any trouble. My versions, published in the Folk-Song Society Journal, are simply specimens, written for the purpose of explaining the structure of Welsh metres to English scholars. I would never dream of attempting to write serious verse in English in such forms, as I know that the genius of the English language will simply not allow it.

Roedd W. S. wedi gobeithio y byddai rhai o feirdd Eingl-Gymreig y De wedi gallu cyfieithu'n llwyddiannus ar ei gyfer, ond y mae T. Gwynn Jones yn ymateb yn ddilornus iawn i'r syniad hwnnw: 'There is no English-Welsh poet in South Wales who can write what would be passable verse in English, even for magazines, but they dont seem to know that themselves.'

Yn ogystal â'i anesmwythyd ynghylch cyfieithu cerddi ar y mesurau traddodiadol, mae'n ymddangos fod T. Gwynn Jones braidd yn groen-

denau ynghylch llunio deunydd canu yn gyffredinol yn y cyfnod hwn. Mewn llythyr ato ar 21 Medi 1922, cafodd wahoddiad gan W. S. Gwynn Williams i ddethol tair neu bedair o'i gerddi ar gyfer detholiad o delynegion yr oedd W. S. yn ei baratoi ar gais Hughes a'i Fab. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Hughes a'i Fab yn 1926 dan y teitl *Rhwng Doe a Heddiw*. Mae'n gyfrol sy'n cynnwys tair telyneg yr un gan ddeg ar hugain o feirdd, ond nid yw T. Gwynn Jones yn eu plith.

Cytunodd Gwynn Jones i gyfrannu i'r gyfrol yn y lle cyntaf, a gellir casglu oddi wrth lythyr gan W. S. Gwynn Williams dyddiedig 25 Awst 1923 mai'r bwriad gwreiddiol oedd cynnwys y cerddi 'Ynys Enlli', 'Ystrad Fflur', 'Rhos y Pererinion' a 'Cân y Medd'. Ond tynnodd T. Gwynn Jones yn ôl; ac er cytuno wedyn i ysgrifennu rhagymadrodd i'r gyfrol, ac er gwaethaf pwyso taer gan W. S., glynodd wrth ei benderfyniad i beidio â chynnwys unrhyw gerddi yn y gyfrol. Mewn llythyr at W. J. Gruffydd, dyddiedig 12 Gorffennaf 1926 (llythyr sydd ymhlith papurau Gruffydd yn y Llyfrgell Genedlaethol, rhif 495), y mae Gwynn Jones yn egluro ei reswm dros hynny:

Gan fod y beirniaid i gyd, rai blynyddoedd yn ol, yn cytuno mai un peth na fedrwn i mo'i wneud oedd ysgrifennu telynegion i'w canu, gwrthodais na dewis fy hun na rhoi cennad i neb arall ddewis dim o'r eiddod at y llyfr. Yna gofynnwyd i mi sgrifennu rhagymadrodd, a chytunais. Y peth digrif yw bod agos bob cerddor sydd yng Nghymru, a dau neu dri o Loegr, erbyn hyn, eisieu i mi sgrifennu geiriau at fiwsig iddynt, neu roi cennad iddynt ddefnyddio rhywbeth a luniais ryw dro! Nid lle difyr iawn mo'r wlad fach hon, ond y mae'n sicr yn lle digon digrif i blesio undyn!

Bu W. S. yn dioddef tipyn â'i iechyd yn y cyfnod hwn, a hynny sy'n cyfrif o bosibl am yr oedi cyn mynd ati i baratoi'r casgliad arfaethedig o alawon gwerin. Ond ar 10 Mawrth 1926 fe'i gwelir yn ysgrifennu at Gwynn Jones ynghylch y casgliad, ac erbyn hynny nid oes sôn am gynnwys enghreifftau o ganu gyda'r tannau. Meddai: 'I have spent considerable time looking into the matter and selecting what seems to be in my opinion melodies that are truly characteristic of the ancient music of Wales.' Yna â yn ei flaen i ofyn am gymorth a chyngor Gwynn Jones ynghylch geiriau rhai o eitemau'r casgliad, sef rhifau 1, 2, 3, 4, 5, 7 a 10, er y dywed yn ogystal fod nifer o alawon eraill wedi'u dethol ganddo nad oedd yn cynnig anawsterau o safbwynt geiriau. (Mae'n amlwg ei

fod hefyd ar y pryd yn bwriadu cynnwys y fersiwn o'r alaw 'Y Glomen' a ymddangosodd yn CCAGC 1:2, 1910, t.70.) Yn y llythyr ceir nifer o geisiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i T. Gwynn Jones gyfieithu rhai o'r penillion a llunio rhai ychwanegol. Er enghraifft, dim ond un pennill a oedd ganddo ar y pryd ar gyfer rhif 4, 'Lliw Gwyn Rhosyn yr Haf', a dywed petai dau neu dri o benillion yn cael eu hysgrifennu o'r newydd 'the song might become again the old dance tune which it probably once was'. Mae'n fwy pendant ei gais yn achos rhif 3, 'Mwynen Merch', gan ofyn a fyddai modd i Gwynn Jones gyfieithu dau bennill i'r Saesneg os yw'n barnu fod y penillion Cymraeg yn ddigon da, ac felly hefyd yn achos rhif 7, 'Yn Iach Lawenydd', lle y mae'n gofyn a fyddai modd ychwanegu pennill yn Gymraeg ac yn Saesneg at yr un yr oedd Gwynn Jones eisoes wedi'i gyfieithu a'i gyhoeddi yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* (cyf.2:3, 1922, t.172).

Mae'n amlwg oddi wrth ei lythyr at T. Gwynn Jones dyddiedig 23 Mehefin 1926, er bod W. S. Gwynn Williams wedi derbyn ganddo ryw faint o gyngor ynghylch geiriau, nad oedd wedi derbyn y cymorth gyda chyfieithu a llunio penillion yr oedd wedi gobeithio amdano - y mae'n gofyn eto, er enghraifft, a fyddai'n bosibl cael ail bennill ar gyfer rhif 7. Yn y llythyr hwn, hefyd, ceir cyfeiriad at H. Idris Bell, a hynny yng nghyd-destun rhif 2: 'As you advised me, however, not to use Ieuan Ddu's words, I have been able to get Idris Bell to write me three English stanzas onto the old air, "Pa bryd y deui eto".' Anfonodd W. S. gopi o'r rhain gyda'i lythyr yn y gobaith y byddai Gwynn Jones mewn ffordd i lunio geiriau Cymraeg addas i gyd-fynd â hwy. Mae'n rhaid mai negyddol oedd ymateb T. Gwynn Jones i'r ddau beth, oherwydd un pennill yn unig sydd i rif 7 yn y casgliad terfynol, a Wil Ifan yw awdur geiriau Cymraeg rhif 2.

Mae dau lythyr ar glawr oddi wrth W. S. Gwynn Williams at Idris Bell ynghylch *Old Welsh Folk-Songs* (1927). Y maent wedi'u dyddio 16 Mehefin 1926 a 13 Awst 1926, a chedwir y ddau ymlith papurau Idris Bell yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn llythyr 16 Mehefin, y mae W. S. yn gofyn i Idris Bell a fyddai'n fodlon llunio geiriau Saesneg ar gyfer nifer o'r caneuon yn y casgliad arfaethedig:

I have worked hard at my arrangements of the airs and I have made them as true to the old Welsh modal type of the tunes as possible, so I am hoping, if I can procure really good English translations of some of

the poems that my collection will be a really valuable contribution to Welsh music.

Cawsai gymorth T. Gwynn Jones a J. H. Davies gyda'r geiriau Cymraeg, meddai, ac roedd yn hapus eu bod cystal ag y gallent fod, ond pwysleisia fod angen geiriau Saesneg da arno: 'Curwen's have seen some of the tunes, and they are of the opinion that my arrangements of them ought to allow them to become really popular in a number of countries - if we can get good English lyrics.'

Mewn gwirionedd yr oedd yr hanner-Cymro, Harold Idris Bell (1879-1967), yn ddewis digon naturiol i droi ato am fersiynau Saesneg yn wyneb amharodrwydd neu brysurdeb T. Gwynn Jones. Yr oedd wedi'i drwytho ei hun ym marddoniaeth Gymraeg a'i hanes - gymaint felly fel y gallai W. S. ddweud wrtho, yn gwbl gyfiawn, yn ei lythyr ym Mehefin 1926: 'You are one of the few English writers that know something of the true history and character of Welsh poetry.' Yn ogystal, yr oedd Bell eisoes yn hen law ar drosi barddoniaeth Gymraeg i'r Saesneg - er enghraifft, yr oedd gwasg Hughes a'i Fab newydd gyhoeddi cyfrol o'i gyfieithiadau ef a'i dad, *Welsh Poems of the Twentieth Century in English Verse* (1925), cyfrol a gyflwynwyd i T. Gwynn Jones. Ac ar ben y cwbl, bu Idris Bell yn cyfrannu cerddi Saesneg yn gyson iawn i'r *Cerddor Newydd* o 1922 ymlaen.

Gellir casglu i Idris Bell ymateb yn gadarnhaol i gais W. S. Gwynn Williams ym Mehefin 1926, oherwydd ef a fu'n gyfrifol yn y diwedd am lunio'r geiriau Saesneg ar gyfer y cyfan ond un o alawon y casgliad. Yr eithriad yw rhif 7, lle y defnyddiwyd cyfieithiad T. Gwynn Jones o bennill cyntaf marwnad Huw Morus i Barbara Miltwn, cyfieithiad (fel y nodwyd uchod) a oedd wedi ymddangos eisoes yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* yn 1922.

Cyfieithu geiriau Cymraeg a oedd ar gael yn barod a wnaeth Idris Bell yn achos y rhan fwyaf o'r eitemau, er bod y berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ddigon llac ar adegau. Nid hwyrach fod awgrym o hynny yn y sylw canmoliaethus a welir mewn llythyr gan T. Gwynn Jones at Idris Bell dyddiedig 20 Rhagfyr 1927: 'I have seen some of your versions of Welsh folk-songs for Gwynn Williams. They are lovely, almost too good to be translations, if I may put it so!' Ond fel y gwelir o'r rhestr uchod, mewn pedwar achos (sef rhifau 2, 5, 9 a 12), lluniwyd geiriau Cymraeg yn arbennig ar gyfer casgliad 1927, a hynny gan rai o feirdd amlwg y dydd, sef Wil Ifan, Gwili ac R. Williams Parry - pobl yr

oedd W. S. Gwynn Williams mewn cysylltiad â hwy hefyd yng nghydestun *Y Cerddor Newydd* a'r casgliad telynegion, *Rhwng Doe a Heddiw* (1926).

Ymhob achos yn *Old Welsh Folk-Songs*, rhoddir awdur (neu ffynhonnell) y geiriau Cymraeg yn gyntaf mewn priflythrennau gydag 'English translation by H. Idris Bell' (a T. Gwynn Jones yn achos rhif 7) mewn teip llai odano. Ond gellir casglu o'r dystiolaeth a gadwyd nad yw hynny'n wir ym mhob achos, ac mai cyfieithiadau neu addasiadau o gerddi Saesneg Idris Bell yw rhai o leiaf o'r cerddi Cymraeg a luniwyd yn arbennig ar gyfer y gyfrol hon.

Un pennill yn unig a oedd i'r gân, 'Y Gwŷdd' (rhif 5), pan ymddangosodd yng nghasgliad Maria Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*, yn 1844. Ychwanegwyd ato ail bennill o waith Wil Ifan yn *Old Welsh Folk-Songs* (1927). Dyma'r ddau bennill fel y'u ceir yng nghasgliad 1927:

Pan oeddwn ar frig noswaith,
Yn y gwŷdd,
Yn gweithio 'nghreffft mewn gobaith,
Yn y gwŷdd,
Meddyliais wrthyf fy hunan,
Na wyddwn pa mor fuan,
Er dwysed oedd fy amcan,
Yn y gwŷdd,
Y cawn ymado â'r cyfan,
Yn y gwŷdd.

'Run fath â 'ngwennol fuan,
Yn y gwŷdd,
Yw f'eiioes i fy hunan
Yn y gwŷdd,
Ond ni ddaw f'oes i'w diben
Nes trefnu o Dduw'r ddaearen;
Pan ballo edau'r bellen
Yn y gwŷdd,
Bydd patrwm wedi'i orffen
Yn y gwŷdd.

Yn ei lythyr at Idris Bell ar 16 Mehefin 1926, yr oedd W. S. Gwynn Willams wedi gofyn iddo gyfieithu pennill cyntaf 'Y Gwŷdd' i'r Saesneg ac, os yn bosibl, lunio ail bennill yn Saesneg i'w drosi i'r Gymraeg. Mae'n amlwg i Idris Bell wneud hynny, oherwydd yn ei lythyr ato ar 13 Awst 1926, y mae W. S. yn gofyn iddo ailystyried geiriau Saesneg 'Y Gwŷdd': 'I must admit I do not like very much 'Y GWYDD'. I am sending you herewith the copy of the English version. Perhaps you can make it a little better.' Nid oes fawr o wahaniaeth rhwng fersiwn Saesneg y pennill cyntaf fel y'i gyrrwyd yn ôl at Idris Bell yn Awst 1926 a'r ffurf gyhoeddedig, ar wahân i'r llinell agoriadol, sy'n darllen 'As I ere sun was setting' yn hytrach nag 'As I about sunsetting'; ond yn mae ffurf yr ail bennill yn gwbl wahanol. Dyma'r fersiwn a ddychwelwyd at Idris Bell yn Awst 1926:

A while through pain or pleasure
 On this earth,
 So man his course may measure
 On this earth;
 But laughter or bewailing,
 He hath no wit availing
 When Death in accents hollow,
 From this earth,
 Shall bid us rise and follow -
 Earth to earth?

A dyma fersiwn *Old Welsh Folk-Songs* (1927):

So God Himself is weaving,
 On His loom,
 The lives of all men living,
 On His loom,
 Be short or long their measure,
 Their lot or pain or pleasure,
 In one web all are blended
 On His loom,
 Till God's great work be ended
 On His loom.

Mae'r ail gynnig Saesneg yn amlwg yn nes o lawer at fersiwn Cymraeg Wil Ifan, er nad yw'r naill yn gyfieithiad slafaid o'r llall. Ac yn niffyg unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb, y casgliad amlwg yw fod Wil Ifan wedi llunio pennill Cymraeg yn seiliedig ar un Saesneg Idris Bell rywbryd ar ôl canol Awst 1926.

Mae'r tair enghraifft arall o lunio geiriau Cymraeg yn arbennig ar gyfer *Old Welsh Folk-Songs* yn digwydd yng nghyd-destun alawon a godwyd o gasgliad Ieuan Ddu, *Y Caniedydd Cymreig* (1845), sef 'Pa bryd y deui eto?' (rhif 2), 'Blodau'r Cwm' (rhif 9) a 'Cân yr Alltud' (rhif 12). Yr oedd Ieuan wedi darparu ei eiriau Cymraeg a Saesneg ef ei hun ar gyfer y tair alaw yn *Y Caniedydd Cymreig*; ond y mae'n amlwg oddi wrth ohebiaeth W. S. Gwynn Williams â T. Gwynn Jones ac ag Idris Bell fod cryn anesmwythyd ynghylch geiriau Ieuan. Gwelir yr anesmwythyd hwnnw wrth i W. S. drafod un arall o alawon casgliad 1927, sef 'Distyll y Don' (rhif 6). Codwyd yr alaw o argraffiad 1794 o *Relicks* Edward Jones ('Bardd y Brenin'), lle y'i priodwyd â'r pennill canlynol:

Mi weles flwch gan Gwenno
A'i lond o snisin ynddo;
Ni fasai waeth i'r fun ddi-feth
Roi imi beth ohono.
Mi caeodd o'n glep!

Onid yn ei lythyr at Idris Bell ar 13 Awst 1926 y mae W. S. yn gofyn iddo lunio geiriau Saesneg ar ei chyfer: 'I do not think Ieuan Ddu's words good enough, and just the one Folk stanza is not enough to make a song, so I shall be pleased if you will write me four or five snappy verses that can later be translated into Welsh.' Yn y diwedd nid cyfieithu geiriau Bell a wnaed, ond codi rhai penillion a oedd wedi cael eu gosod ar yr un alaw yn *Llyfr Cerdd Dannau* Robert Griffith; a dyna sy'n cyfrif am y gwahaniaethau mawr rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg geiriau 'Distyll y Don' yn *Old Welsh Folk-Songs* (1927) - hynny yw, nid cyfieithiad mo'r naill o'r llall, er gwaethaf yr honiad uwchben y gân mai cyfieithu'r geiriau i'r Saesneg a wnaeth Idris Bell.

Yn ei lythyr at Idris Bell ar 16 Mehefin 1926, gofynnodd W. S. iddo lunio tri phennill Saesneg (y gellid trefnu eu cyfieithu wedyn i'r

Gymraeg) ar gyfer yr alaw ‘Pa bryd y deui eto?’ (rhif 2), am ei fod yn anhapus â geiriau Ieuan Ddu. Erbyn ei lythyr at T. Gwynn Jones ar 23 Mehefin 1926, yr oedd W. S. wedi derbyn penillion Saesneg Idris Bell ar gyfer yr alaw. Fel y nodwyd uchod, gyrrodd gopi o’r geiriau Saesneg gyda’i lythyr yn y gobaith y byddai Gwynn Jones yn fodlon llunio fersiwn Cymraeg. Ond nid felly y bu, a geiriau Cymraeg Wil Ifan a gyhoeddwyd yn *Old Welsh Folk-Songs*. Ac er yr honnir yno mai cyfieithiad o’r geiriau Cymraeg oedd y fersiwn Saesneg, y mae’n gwbl amlwg o’r ohebiaeth mai fel arall yr oedd.

Geiriau Cymraeg gan Gwili a gyhoeddwyd ar gyfer ‘Blodau’r Cwm’ (rhif 9). Yn yr un llythyr ag y gofynnodd i Idris Bell lunio geiriau Saesneg newydd ar gyfer ‘Pa bryd y deui eto?’, yr oedd W. S. Gwynn Williams wedi dweud fod geiriau Ieuan Ddu ar gyfer ‘Blodau’r Cwm’ yn rhai anfodddhaol. Nid yw’n crybwyll bodolaeth geiriau Cymraeg gan Gwili, a’r casgliad rhesymol, felly, yw mai’r un oedd y broses yn y fan hon ag yn achos rhif 2, sef bod Idris Bell wedi llunio fersiwn Saesneg yn gyntaf a Gwili wedi llunio fersiwn Cymraeg ar ei ôl.

Trafod eitemau 1, 2, 3, 4, 5 a 9 yn *Old Welsh Folk-Songs* a wneir yn llythyr W. S. Gwynn Williams at Idris Bell dyddiedig 16 Mehefin 1926, a thrafodir rhifau 5 a 6 yn ei lythyr dyddiedig 13 Awst 1926. Mae’n amlwg fod gwaith i’w wneud o hyd ar eiriau’r casgliad yn Awst, oherwydd dywed W. S. wrth Idris Bell ar 13 Awst: ‘I find that there are still two Welsh poems at least to be translated into English, but I cannot let you have them until I have finally decided upon the Welsh verses.’ Nid wyf, ysywaeth, wedi llwyddo i ddod o hyd i unrhyw ohebiaeth rhwng y ddau sy’n trafod rhifau 8, 10, 11, 12 a 13.

Cyhoeddwyd *Old Welsh Folk-Songs* yn gynnar yn 1927 (cafwyd adolygiadau arno yn y *Daily Mail* a’r *Liverpool Post* yn nechrau Ebrill 1927 - gw. yr hysbyseb am *Old Welsh Folk-Songs* a ymddangosodd yn *Y Cerddor Newydd* o rifyn Mawrth 1928 ymlaen). Ond dywed W. S. Gwynn Williams ar 10 Hydref 1926, wrth anfon y rhagymadrodd at T. Gwynn Jones am ei sylwadau, fod y cwbl ar wahân i’r rhagymadrodd yn y wasg erbyn hynny. Rhesymol yw casglu, felly, fod y gerdd Gymraeg arall a luniwyd yn arbennig ar gyfer y casgliad, sef ‘Cân yr Alltud’ (rhif 12) gan R. Williams Parry, wedi’i hysgrifennu rywbryd rhwng canol Awst a dechrau Hydref 1926.

Yn niffyg tystiolaeth bendant, mae'n amhosibl dweud ai rerswn Saesneg Idris Bell a ddaeth gyntaf ai geiriau Cymraeg R. Williams Parry. Yn achos 'Pa bryd y deui eto?' a 'Blodau'r Cwm', mae'n amlwg fod geiriau Gwili a Wil Ifan wedi'u hysbrydoli gan enwau'r alawon yng nghasgliad Ieuan Ddu, ond nid yw hynny'n wir yn achos 'Cân yr Alltud', a gall hynny awgrymu mai geiriau R. Williams Parry a ddaeth gyntaf. Ond y mae'r ffaith fod fersiynau Saesneg Idris Bell, yn ôl pob golwg, wedi'u llunio cyn geiriau Cymraeg Wil Ifan a Gwili yn golygu fod yna bosibilrwydd cryf mai hynny oedd yn wir yn achos cerdd Williams Parry yntau. Ond er mai cerdd gomisiwn ydoedd hon i Williams Parry, yn ôl pob tebyg, a'i bod o bosibl yn addasiad Cymraeg o gerdd Saesneg gan Idris Bell, fel y dadleuais mewn erthygl yn *Barddas* 176/7 (Rhag. 1991/Ion. 1992), yr oedd y testun yn gweddu i'r dim i ymateb gwrth-drefol cynhenid y bardd.

Ni fu cyhoeddi *Old Welsh Folk-Songs* heb ei helyntion. Yn 1932 cyhoeddodd cwmni Curwen gyfrol W. S. Gwynn Williams, *Welsh National Music and Dance*, cyfrol y darllenodd T. Gwynn Jones rannau ohoni mewn teipysgrif. A phan ysgrifennodd W. S. at T. Gwynn Jones ar 29 Mehefin 1933, yr oedd ganddo hyn i'w ddweud:

I am very pleased indeed that you are satisfied with my book [sef *Welsh National Music and Dance*], and I cannot but thank you for the great encouragement you gave me years ago, and for the honest support that I know you are giving me now. It seems a bit of a shame that one has to do such work in the face of the spiritual opposition of the Music Departments of the Welsh Universities. And do you know that when I published my volume of OLD WELSH FOLK SONGS with Curwen, the then President of the Welsh Folk Song Society [sef y Dr Mary Davies, 1855-1930] wrote to the publishers pointing out that I had no moral right to deal with the material at all. Fortunately for me I had a **legal one** - and some knowledge of the Copyright Act.

Ond pa helyntion bynnag a gododd yng nghyd-destun y cyhoeddi, ni fuont yn rhwystr i berthynas ffrwythlon ddatblygu rhwng W. S. Gwynn Williams, T. Gwynn Jones ac H. Idris Bell yn y blynyddoedd canlynol ym myd llunio, golygu a chyfieithu geiriau ar gyfer cerddoriaeth. Ni fuont yn rhwystr ychwaith i W. S. Gwynn Williams ymroi'n frwdfrydig i hybu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru fel ei Hysgrifennydd o 1933 ymlaen (ac fel ei Chadeirydd a'i Golygydd wedi hynny) - ond erbyn hynny yr oedd Llywydd newydd, sef y Fonesig Herbert Lewis, wrth y llyw!

CYHOEDDIADAU

Ancient National Airs of Gwent and Morganwg

Maria Jane Williams; gol. Daniel Huws £8.50

Hen Alawon (carolau a cherddi)

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £5.50

Canu'r Cymry

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.75

Canu'r Cymry II

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.75

Caneuon Gwerin i Blant

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.95

Lleisiau'r Werin

£1.50

Lleisiau'r Werin 2, 3

gol. Rhidian Griffiths £2.50, £2.75

Darlithiau Coffa Amy Parry-Williams

1990 - *Canu Jim Cro* / Meredydd Evans £1.00

1991 - *Ffiniau* / Rhidian Griffiths £1.00

1992 - *Canu at iws* / D Roy Saer £1.50

1993 - *Caneuon llafar gwlad ac Iolo a'i fath* / Daniel Huws £1.50

1995 - *O lafar i lyfr* / Phyllis Kinney £1.50

Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru
Adran Gerddoriaeth (Prifysgol Cymru, Bangor)
Adran Addysg Barhaol (Prifysgol Cymru, Bangor)

ARGLWYDDDES LLANOFER

(Cynhadledd undydd i gydnabod cyfraniad
Augusta Hall i fywyd diwylliannol Cymru'r 19eg
ganrif)

Darlithiau, Arddangosfa wisgoedd, Cyngerdd a
Chyflwyniadau Dawns

Dydd Sadwrn, Hydref 26, 1996
Prifysgol Cymru, Bangor
10.00 a.m. - 4.30 p.m.

Nos Sadwrn, Hydref 26, 1996
Dawns Werin
8.00 p.m. - 11.30 p.m.

Croeso cynnes

(Am wybodaeth bellach cysyllter â
Bangor 382182 neu 382181)

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.